Continuing NHS Healthcare
National Programme

wcva

Pontio'r Bwlch

Mynd i'r afael â her defnyddio cyfraniad y trydydd sector hyd yr eithaf wrth reoli gofal cymhleth

Mai 2011

Gwybodaeth am y Ddogfen

Teitl	**Pontio'r Bwlch**
Dyddiad	Mai 2011
Pwrpas	Mae'r ddogfen hon wedi'i datblygu gan Raglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Mae'n dangos ystod gwasanaethau'r trydydd sector a'r cynlluniau sydd ar waith drwy Gymru sy'n ategu ac yn cefnogi gwasanaethau statudol wrth sicrhau pob cyfle posibl i bobl fyw'n annibynnol.
At sylw	At sylw Byrddau Iechyd Lleol, awdurdodau lleol, a chyrff y trydydd sector drwy Gymru.
Cam Gweithredu:	Gofynnir i bob sefydliad ystyried yr adroddiad hwn a'r cynllun gweithredu cysylltiedig fel rhan o'u trefniadau ar gyfer cynllunio a darparu gwasanaethau.
Noddwr	**Jan Williams** **Prif Weithredwr** Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro **Rob Pickford** **Cyfarwyddwr, Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru** Llywodraeth Cymru **Cyd-Gadeiryddion y Rhaglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus** **Graham Benfield** **Prif Weithredwr** Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:
Gwybodaeth	**Gaynor Williams** **Cyfarwyddwr y Rhaglen** Ffôn: 07891 099564 Ebost: Gaynor.Williams@wales.nhs.uk **Constance Adams** **Uwch Swyddog Polisi WCVA** Ffôn: 07545 513543 Ebost: cadams@wcva.org.uk

Tabl Cynnwys:

Rhagair *5*

1. Rhagarweiniad *7*

1.1. Cwmpas yr Adroddiad hwn 7

1.2. Y Cyd-destun 7

1.3. Dilyniant Gofal 8

1.4. Ystod y Trydydd Sector 10

1.5. Y Trydydd Sector ac Ariannu 12

1.6. Gwerth gwirfoddoli 15

1.7. Ystod Cyfraniadau'r Trydydd Sector – cyfraniadau 'meddal' a chraidd 18

1.8. Y Cyd-destun Presennol a Chydamcanion 18

2. Model Gwasanaethau Cydgynllunio a Chyd-ddarparu *20*

2.1. Beth yw hyn a pham mae'n bwysig? 20

2.2. Golwg Gyffredinol ar Enghreifftiau Presennol 23

2.3. Yr Her i'r GIG 23

3. Seilwaith Darparu'r Trydydd Sector a Chydgynhyrchu *26*

3.1. Arferion Da ar hyn o bryd: model y consortia; brocera; cysylltu darparwyr gwasanaethau cenedlaethol a lleol y trydydd sector 29

4. Gwireddu Hyn: Galluogi Cyfraniad Llawn gan y Trydydd Sector Drwy Gymru *31*

4.1. Rhwystrau ac Atebion 31

4.2. Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir 33

5. Atodiad - Enghreifftiau o Wasanaethau *45*

5.1. Rhandir Cymunedol TARAGGAN, Bargoed 47

5.2. Clwb Cinio WRVS Gwelfor 50

5.3. Prosiect Datblygu Clybiau Cinio 52

5.4. Pryd ar Glud Sir Gaerfyrddin 54

5.5. Cynllun Bwyta, Sgwrsio a Siopa 56

5.6. Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol 58

5.7. Datblygu Cymorth Teg Haen 1 (lles) gan y Trydydd Sector ym Mhowys 60

5.8. Dewis a Chynhwysiant Cymunedol (Menter Gymdeithasol) 63

5.9. Prosiect Peilot - Gwarchodwyr Iechyd Gwirfoddol Cymunedol (De Gwynedd) 64

5.10. Gwasanaeth Menter Min Nos Sir Gaerfyrddin 67

5.11. Age Concern - Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, Gwent 69

5.12. CIC Cymunedol Conwy 71

5.13. Touch Trust 73

5.14. Gwasanaethau'r Groes Goch Brydeinig a ddarperir ledled Cymru 76

5.15. Tîm Cymorth Canser Tenovus 78
5.16. Gwasanaeth Atal Gorfod Derbyn Cleifion i'r Ysbyty - Age Concern, Gwent 81
5.17. Gwasanaeth Ymateb Brys, Rhyddhau o'r Ysbyty 82
5.18. Gwasanaeth Gofal Seibiant Age Concern 83
5.19. Gofal Crossroads 85
5.20. Asesiadau Gofalwyr Powys 87
5.21. Gwasanaeth Ymateb Brys yn y Cartref, Powys 89
5.22. Robense House (Prosiect Teulu WISH) 91
5.23. Gofal Parhaus Sir Gaerfyrddin 93
5.24. Kaleidoscope Casnewydd 95
5.25. Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn 97
5.26. Clipiau Fideo Profion Iechyd 99
5.27. Ymgyrch Gwneud Pethau'n Iawn 101
5.28. Cynllun Lles Gofalwyr (Gwasanaeth Gofal Canolraddol) 103
5.29. Gwaith Pontio Allweddol 105
5.30. Ailfodelu Gwasanaethau Dydd Monnow Vale 107

Rhagair

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar wasanaethau a chynlluniau'r trydydd sector sy'n cynorthwyo pobl ag anghenion gofal cymhleth. Mae'n canolbwyntio hefyd ar waith i helpu pobl i fyw'n annibynnol; i osgoi nychdod diangen ac i ailablu pobl gymaint ag y bo modd. Mae'n siŵr y gwyddoch chi i gyd am rai o'r gwasanaethau a ddarperir gan eich trydydd sector yn lleol, ac am rai o'r sefydliadau cenedlaethol – ond nod yr adroddiad hwn yw 'pontio'r bwlch' drwy sicrhau cydweithredu ar draws holl ystod yr hyn y gall y trydydd sector ei gynnig, ac, wrth wneud hynny, gobeithir y gellir darparu gwasanaethau cynaliadwy o safon sy'n diwallu anghenion ein cymunedau yn ardal pob BILl.

Mae'r newid a ragwelir yn y boblogaeth dros y degawd nesaf, a'r cynnydd yn nifer y bobl hŷn, ynghyd â chyfradd geni is, yn gosod heriau lu i sefydliadau'r sector cyhoeddus. Mae goblygiadau sylweddol yn sgil y newid yn y proffil demograffig, a bydd y GIG a llywodraeth leol yn ei chael hi'n fwyfwy anodd rheoli'r hyn a ddisgwylir ganddynt, oni ddatblygir dulliau a modelau gwasanaeth newydd sy'n manteisio ar gyfleoedd i gydweithio, gan gynnwys y rheini y gall y trydydd sector eu cynnig.

Mae polisïau cenedlaethol yn dweud ac yn ategu bod angen gwarchod a chynnal annibyniaeth, gan fanteisio i'r eithaf ar bob cyfle i helpu pobl i fyw'n annibynnol.

Mae'r trydydd sector eisoes yn chwarae rhan bwysig wrth weithio gyda chyrff statudol i wella'r canlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau a ddarperir yn rhai eang iawn ac yn rhychwantu dilyniant o wasanaethau sy'n amrywio o ofal cymdeithasol i ofal meddygol. Gan amlaf, gofal cyfannol yw'r gofal a'r cymorth a ddarperir gan y trydydd sector ac mae'n cynnwys y 'pethau bychain' sy'n gallu gwneud pecyn gofal yn y gymuned yn gynaliadwy - help wrth dalu biliau, neu wrth gadw'r cartref, er enghraifft.

Yr adroddiad hwn yw un o 'gyflawniadau' Rhaglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Seilir gwaith y Rhaglen Gofal Iechyd Parhaus ar waith datblygu mewn dau brif faes - modelau gwasanaeth effeithiol o safon i'r bobl hynny sydd ag anghenion cymhleth ac sy'n gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus, a'r camau pellach y mae angen eu cymryd i helpu pobl i fyw'n annibynnol ac atal dibyniaeth ddiangen. Yn fuan yn oes y Rhaglen, daeth yn amlwg bod gan y trydydd sector rôl hanfodol i'w chwarae yn y ddau faes hyn.

Mae **Pontio'r Bwlch** yn dangos sut mae'r trydydd sector yn darparu gwasanaethau i gynorthwyo pobl drwy eu salwch, drwy eu hanaf neu drwy eu hafiechyd cronig tymor hwy. Mae'r adroddiad hefyd, ac mae hyn yn bwysig, yn dangos cyfraniad gwerthfawr y trydydd sector o ran canfod modelau gwasanaeth ac atebion lleol, yn ogystal ag o ran ymateb drwy ddarparu gwasanaethau'n genedlaethol lle bo hynny'n briodol.

Mae enghreifftiau da i'w gweld yn y rhan fwyaf o ardaloedd, ond, er mwyn cynnig gwasanaeth cynaliadwy, mae angen inni lenwi'r bylchau.

Yn **Pontio'r Bwlch,** rhoddir enghreifftiau a ddarparwyd gan fudiadau'r trydydd sector drwy Gymru. Enghreifftiau yw'r rhain - ni fwriedir iddynt fod yn rhestr gynhwysfawr o wasanaethau'r trydydd sector, ond, gyda'i gilydd, maent yn dangos yr ystod o wasanaethau sy'n cynnig atebion creadigol, a hynny'n aml ar y cyd â phartneriaid, sy'n helpu pobl i fyw mewn ffordd fwy annibynnol ym mhob cwr o Gymru. Dylent ysgogi syniadau a dulliau ar gyfer cydweithio a datblygu gwasanaethau sy'n ateb y galw.

Mae'r hinsawdd economaidd bresennol yn ei gwneud hi'n fwy hanfodol byth bod asiantaethau'n cydweithio i gynnig atebion sy'n wirioneddol ddi-fwlch, yn integredig ac yn gynaliadwy er mwyn diwallu anghenion. Mae'r adroddiad hwn yn gweld y trydydd sector yn bartner wrth ymateb i'r gofynion hyn, ac mae'r cynllun gweithredu sy'n rhan o'r adroddiad yn cynnig ffordd ymlaen.

Felly, gofynnwn ichi:

- bontio'r bylchau yn y gwasanaethau y byddwch yn eu darparu ar gyfer gofal cymhleth, drwy ystyried eto sut y gall y trydydd sector helpu i sicrhau mwy o hyblygrwydd, atebolrwydd ac integreiddio'n lleol
- ymrwymo i roi cynllun gweithredu'r adroddiad ar waith.



Jan Williams
Prif Weithredwr
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Rob Pickford
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru Llywodraeth Cymru

Cyd-Gadeiryddion y Rhaglen
Rhaglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus y GIG

Graham Benfield
Prif Weithredwr
Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru:

1. Rhagarweiniad

1.1. Cwmpas yr Adroddiad hwn

Datblygwyd yr Adroddiad hwn fel rhan o'r gwaith sydd ar y gweill gan Raglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus y GIG. Ei fwriad yw disgrifio rôl a chyfraniad y trydydd sector wrth helpu pobl i fyw'n annibynnol ac wrth reoli gofal cymhleth a pharhaus.

Un o'r 12 Rhaglen Genedlaethol yw Rhaglen Genedlaethol Gofal Parhaus y GIG sy'n gefn i wireddu'r Fframwaith Gwasanaeth Pum Mlynedd, sef y Fframwaith Strategol ar gyfer y Gweithlu a Materion Ariannol. Mae'r Fframwaith hwn yn egluro'r cyfeiriad strategol, y dulliau a'r camau gweithredu ar gyfer GIG Cymru dros y pum mlynedd nesaf ac mae'n adlewyrchu'r ffaith bod angen i GIG Cymru weithio gyda'i bartneriaid er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar unigolion ac yn diwallu eu hanghenion.

Mae aelodaeth Bwrdd y Rhaglen yn eang ac yn amrywiol gan adlewyrchu'r prif feysydd gwaith y bwrir ymlaen â hwy. Yn ogystal â helpu Byrddau Iechyd Lleol i ddatblygu a gweithredu modelau gwasanaeth effeithiol, effeithlon a hyblyg ar gyfer y rheini yr asesir eu bod yn gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus y GIG, mae'r Rhaglen hefyd yn ymgymryd â gwaith "pellach". O fewn cyd-destun Gosod y Cyfeiriad, mae'n ceisio cefnogi a manteisio ar bob cyfle i sicrhau bod pobl yn gallu byw'n annibynnol ac i helpu pobl sydd ag anghenion tymor hwy a mwy cymhleth i aros yn eu cartref/lleoliad gofal arferol lle bynnag y bo modd, gan osgoi gorfod dibynnu'n ddiangen ar ofal dwysach.

Mae gan y trydydd sector rôl allweddol a phenodol i'w chwarae ym mhob un o'r meysydd hyn, gan gydweithio â sefydliadau'r GIG a llywodraeth leol i ddarparu opsiynau gofal cynhwysfawr a hyblyg sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Mae'r dystiolaeth yn dangos eu bod yn cynnig gwerth ychwanegol, a'u bod yn gallu ymateb mewn ffordd hyblyg. Gall hyn fod yn amhrisiadwy o ran cadw pobl yn eu cartref/lleoliad gofal arferol. Nod yr Adroddiad hwn yw disgrifio'r ystod amrywiol o gymorth a ddarperir gan gyrff y trydydd sector, gweld cyfleoedd i Fyrddau Iechyd a llywodraeth leol eu hystyried wrth iddynt gynllunio gwasanaethau'n gyffredinol ac - yn Atodiad 1 - mae'n cynnig enghreifftiau o nifer o wasanaethau a chynlluniau sy'n dangos y manteision i unigolion ac i wasanaethau statudol.

1.2. Y Cyd-destun

Mae'r rhagamcanion poblogaeth ar gyfer Cymru drwyddi draw'n dangos nifer o newidiadau sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf, gyda chynnydd o 75% yn nifer y bobl 75+ fel canran o'r boblogaeth gyffredinol erbyn 2031. Rhagwelir y cynnydd hwn yn y rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol. Yn ystod yr un cyfnod, bydd nifer y bobl o oedran gweithio'n gostwng. Wrth i'r newidiadau demograffig hyn gyfuno a dwyn pwysau, bydd y galw'n cynyddu, ac yn sgil y crebachu ar wariant cyhoeddus, bydd gofyn ailystyried sut y darperir gwasanaethau cyhoeddus. Bydd angen rhoi mwy o bwyslais o lawer ar atal ac ymyrryd yn gynnar, ac ar ddatblygu mwy o gymorth yn y gymuned fel bod llai o angen am wasanaethau mwy costus.

Mae polisïau cenedlaethol a chynllunio gwasanaethau'n lleol yn adlewyrchu'r pwysau hyn, gyda *'Gosod y Cyfeiriad'* a *'Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol'* ill dau'n dweud bod angen datblygu cynllunio gwasanaethau integredig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gyda'r nod o gadw pobl yn eu cartref/lleoliad gofal arferol lle bynnag y bo modd, a symud at GIG sy'n cael ei dywys i raddau mwy gan wasanaethau sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned.

Bydd y trydydd sector eisoes yn darparu gwasanaethau cyhoeddus ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, ond mae lle i gyrff cyhoeddus ddangos mwy o ddychymyg o lawer wrth weithio gyda'r sector i ddatblygu gwasanaethau sy'n nes at ddinasyddion ac yn ymateb yn well i'w hanghenion - gwasanaethau sy'n ychwanegu gwerth go iawn drwy ddefnyddio adnoddau'r gymuned.

Mae'r trydydd sector yn cynnig:

- Dimensiwn y dinesydd ac arbenigedd ym maes cynllunio gwasanaethau, comisiynu a chaffael gwasanaethau cyhoeddus.
- Traddodiad o 'gyd-gynllunio a chyd-ddarparu' - lle bydd darparwyr gwasanaethau'n gweithio gyda'r sawl sy'n eu defnyddio a'u gofalwyr wrth ddarparu gwasanaethau - partneriaeth gweithio sy'n defnyddio adnoddau'r unigolyn ac adnoddau'r gymuned o bosibl, yn ogystal ag adnoddau'r darparwr.
- Opsiynau mwy hyblyg ar gyfer darparu gwasanaethau (gan gynnwys drwy gyfrwng elusennau, mentrau cymdeithasol, darpariaeth gydfuddiannol neu gydweithredol) a'r rheini'n nes at y dinesydd ac yn ei gynnwys mewn ffordd fwy uniongyrchol.
- Profiad o helpu pobl i reoli eu gwasanaethau eu hunain a chynnal eu hannibyniaeth.
- Profiad o atal ac ymyrryd yn gynnar, sy'n golygu y bydd llai o angen darpariaeth ddrutach yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys bod yn gefn i ofalwyr sy'n darparu 95% o'r gofal yn y cartref.

Gan fod gwario cyhoeddus a'r farchnad fasnachol o dan bwysau, mae gan y trydydd sector - y cyrff sy'n cael eu creu gan bobl a chymunedau er mwyn diwallu'r anghenion y maent yn eu gweld - rôl hollbwysig i'w chwarae. Gall y trydydd sector ddatblygu ymatebion a gwasanaethau sy'n nes at bobl a chymunedau a gwasanaethau a arweinir gan y bobl hynny. Bydd weithiau'n ategu'r gwasanaethau a gynigir gan y wladwriaeth a'r farchnad, ac weithiau, bydd yn eu gwella ac yn eu disodli. Mae ddigon hyblyg i ymateb yn gyflym i'r byd rydym yn byw ynddo, a hwnnw'n prysur newid. Mae angen i bob un o'r tri phartner chwarae ei ran gan ymateb i'r her o sicrhau'r fargen orau a'r gwerth gorau i'r gymdeithas.

1.3. Dilyniant Gofal

Mae gwaith y Rhaglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus yn adlewyrchu polisïau cenedlaethol ac yn disgrifio'r dilyniant gofal. Mae hwnnw'n amrywio o helpu pobl i fod ac i fyw mor annibynnol ag y bo modd, o'r modelau hunanreoli sy'n rhoi mwy o bwyslais ar ganolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn ymdrin â chyflyrau cronig i'r

gofynion mwy cymhleth a thymor hir sydd gan bobl ag anghenion gofal cymhleth. Mae hynny'n cynnwys y rheini, ond nid dim ond y rheini, sy'n gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus.

Nid yw'r dilyniant gofal yn gyfyngedig i oedolion. Bydd plant hefyd yn cael afiechydon ac anafiadau ac yn wynebu anabledd ac fe all hyn olygu bod angen help arnynt am gyfnod hwy. Y duedd yw darparu gwasanaethau o'r fath ar sail partneriaeth ar draws pob asiantaeth ac nid yw'r rheini'n cael eu hystyried yn yr Adroddiad hwn. Mae'n hollbwysig cynllunio'r cyfnod pontio'n ofalus ar gyfer y plant hynny sy'n debygol o fod ag angen cymorth mwy hirdymor, a hynny ar ôl iddynt droi'n oedolion. Mae angen dechrau cynllunio pan fyddant yn 14 oed er mwyn sicrhau bod y cyfnod pontio'n cael ei gynllunio'n iawn.

Mewn nifer o adroddiadau cenedlaethol gan Swyddfa Archwilio Cymru yn 2007/08 ynglŷn ag Oedi Wrth Drosglwyddo Gofal, dywedwyd y gall symud rhywun agored i niwed o'i leoliad fod yn fygythiad i'w annibyniaeth. Yn yr adroddiadau, gwelwyd y gall derbyn rhywun i'r ysbyty fygwth ei annibyniaeth yn gyflym iawn, ac y gall unrhyw oedi wrth ryddhau pobl agored i niwed o'r ysbyty olygu na fydd modd iddynt fyw'n annibynnol byth eto. Y casgliad oedd bod nifer o gamau allweddol y mae angen eu cymryd er mwyn sicrhau nad yw gwasanaethau statudol yn anablu pobl heb fod angen. Dyma rai o'r camau hynny:

- Datblygu rhagor ar wasanaethau sylfaenol a gwasanaethau yn y gymuned, gan gynnwys gwasanaethau o'r math Gofal Canolraddol, sy'n cynorthwyo pobl yn eu cartref/lleoliad gofal arferol ac yn darparu gofal/therapi heb iddo orfod mynd i'r ysbyty, pan fydd modd osgoi hyn. Er mwyn sicrhau'r dylanwad gorau, dylid datblygu gwasanaethau o'r fath ar sail partneriaeth a dylent fod ar gael 24/7.
- Os bydd gofyn derbyn rhywun i'r ysbyty, dylid mynd ati i gynllunio ar gyfer ei rhyddhau, a dylai'r broses honno ddechrau pan gaiff ei dderbyn, er mwyn osgoi unrhyw oedi a allai olygu na fyddai'n gallu dychwelyd adref.
- Yn ogystal â'r gofal cymhleth a ddarperir gan sefydliadau statudol, mae angen cydnabod gwerth ychwanegol cymorth lefel isel er mwyn i bobl allu cadw'i hannibyniaeth ac aros yn eu cartrefi eu hunain.

Yn ogystal ag adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru 2007, comisiynwyd Adolygiad Annibynnol am Oedi wrth Drosglwyddo Gofal gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Cynhaliwyd yr adolygiad hwn gan Sefydliad Iechyd a Gofal Cymdeithasol Cymru ac fe gyhoeddwyd yr adroddiad yn 2008. Mae ei gasgliadau'n ategu'r rheini a gafwyd yn adroddiadau blaenorol y Swyddfa Archwilio ac ystyriwyd ei argymhellion gan Bwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn 2008. Cyhoeddodd y Pwyllgor Archwilio ei ganfyddiadau gan gynnig cyfres o gamau gweithredu'n argymhellion i'w hystyried gan lunwyr polisïau a'u cynnwys wrth ddatblygu polisi yn y dyfodol.

Yn fwy diweddar, mae'r Rhaglen Genedlaethol Gofal Iechyd Parhaus wedi datblygu a chyhoeddi *10 Newid Dylanwadol ar gyfer Gofal Cymhleth.* Mae'r canllawiau hyn yn adlewyrchu canfyddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a chanfyddiadau'r Adolygiad Annibynnol, ac maent yn argymell cyfres o gamau gweithredu, a fydd, o'u mabwysiadu, yn help i wella'r ffordd y rheolir y rheini sydd ag anghenion gofal cymhleth ac yn helpu pobl i fyw'n annibynnol.

1.4. Ystod y Trydydd Sector

Mae'r Trydydd sector yn eang ac yn amrywiol iawn, ac felly, fe all ymddangos yn ddryslyd a hyd yn oed beri i bartneriaid ddigalonni wrth iddynt geisio gweld sut mae mynd ati i gydweithio â'r sector hwn. Mae hefyd yn wir weithiau mai'r unig gyrff y bydd partneriaid yn ymwybodol ohonynt yw'r rheini y byddant yn gweithio gyda hwy fel rheol. Felly, efallai eu bod yn colli cyfle. Mae'r trydydd sector ei hun yn ymwybodol o'r anawsterau o ran cydweithio oherwydd ei fod mor fawr a'i fod yn cynnwys cynifer o gyrff a grwpiau. Felly, mae'n ymdrechu i greu llwybr trefnus i bobl ei dilyn wrth ymwneud â'r sector, a hefyd i ddatblygu ffyrdd newydd o alluogi gwell cydweithio â'r sector ac odd mewn iddo er mwyn manteisio i'r eithaf ar adnoddau ac arbedion effeithlonrwydd (Gweler Adran 3 - Seilwaith Darparu a Chydgynhyrchu'r Trydydd Sector.)

Serch hynny, byddai'r trydydd sector a llawer o'n partneriaid yn dweud mai dyma hanfod cryfder a gwerth y trydydd sector: ei faint a'i ehangder a hynny'n deillio o'i wreiddiau yn y gymuned. Gwelir hyn yn y ffordd mae'n gallu cyrraedd cynifer o gymunedau a grwpiau o gleientiaid a meithrin cysylltiad â hwy.

Yng Nghymru, mae dros 30,000 o fudiadau a grwpiau'n cynnwys 1.1 miliwn o wirfoddolwyr, yn cymryd camau drostynt eu hunain er budd eu cymunedau eu hunain. Grwpiau bychain, lleol yw'r rhan fwyaf o'r rhain nad ydynt yn cael dimai o'r pwrs cyhoeddus (mae incwm 20,000 o grwpiau'n llai na £10,000)[i] Gwirfoddolwyr sy'n eu cynnal ac mae'r rhain nid yn unig yn cynnig manteision go iawn i bobl a chymunedau lleol, ond hefyd yn datblygu eu sgiliau a'u galluoedd hwy eu hunain drwy wirfoddoli. Bydd cyrff eraill yn darparu gwasanaethau pwysig i'r cyhoedd, ac yn cyflogi 51,000 o bobl yng Nghymru, yn ôl yr amcangyfrif. Mae'r sector yn hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, yn meithrin menter gymdeithasol, a gweithredu cymunedol, yn cyfrannu at adfywio cymunedau a'r economi ac yn helpu i greu cyflogaeth a gwella sgiliau.

Mae'r trydydd sector yn cwmpasu cymdeithasau cymunedol, grwpiau hunangymorth, mudiadau gwirfoddol, elusennau, sefydliadau ffydd, mentrau cymdeithasol, busnesau cymunedol, cymdeithasau tai, mentrau cydweithredol a mudiadau cydfuddiannol. Maent yn defnyddio amrywiaeth o ffurfiau sefydliadol, gan gynnwys elusennau cofrestredig, cwmnïau cyfyngedig drwy warant (a all hefyd fod yn elusennau cofrestredig), Cwmnïau Budd Cymunedol, Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus a chymdeithasau anghorfforedig. Mae gan bob corff ei amcanion ei hun ond maent i gyd yn rhannu'r un nodweddion sy'n eu gwneud yn rhan o'r trydydd sector, sef:

- Cyrff annibynnol, anllywodraethol.
- Fe'u sefydlir yn wirfoddol gan ddinasyddion sy'n dewis ymdrefnu.
- Fe'u sbardunir gan werthoedd a'u cymhelliant yw hybu amcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol, yn hytrach na dim ond gwneud elw.
- Ymrwymiad i ail-fuddsoddi eu gwargedau i hybu eu hamcanion cymdeithasol, diwylliannol neu amgylcheddol.[ii]

Dyma broffil[iii] y trydydd sector sy'n gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru:

- ☐ 120,000 o bobl yn ymwneud â darparu gwasanaethau: gwirfoddolwyr yw'r rhan fwyaf o'r rhain, ond mae 'na dros 30,000 o weithwyr a mwy na 5,000 o hyfforddeion.
- ☐ Y prif feysydd gwasanaeth yw gweithgareddau iechyd a lles cyffredinol, pobl hŷn, gwasanaethau i bobl â chyflyrau iechyd penodol; gofalwyr (300,000 o ddarparwyr gofal di-dâl yng Nghymru, Cyfrifiad 2001); pobl ag anableddau corfforol, anableddau synhwyraidd neu anableddau dysgu; pobl â phroblemau iechyd meddwl; a phlant a theuluoedd.
- ☐ Mae natur y gwasanaeth a ddarperir yn amrywio'n fawr, gyda'r prif weithgareddau'n cynnwys darparu cyngor ac eiriolaeth, cymorth cymdeithasol a chymorth i bobl fyw'n annibynnol.
- ☐ Gellir darparu gwasanaethau dros wahanol ardaloedd: fe all lein gymorth fod yn lleol ynteu'n genedlaethol, ond bydd gwasanaeth taro heibio'n lleol. Tuedd gwasanaethau ar gyfer cyflyrau iechyd penodol yw eu bod yn gwasanaethu ardal ehangach na gwasanaethau mwy generig.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi'n glir iawn, yn y Cynllun i Ychwanegu Gwerth - cyfeiriad strategol ar gyfer y sector gwirfoddol a chymunedol o ran cefnogi iechyd a gofal cymdeithasol 2008, y cyfraniad pwysig y gall y trydydd sector ei wneud er mwyn symud cydbwysedd darpariaeth y GIG at wasanaethau sy'n nes gartref, yn y gymuned a'r tu allan i amgylchedd yr ysbyty. Gweledigaeth Cynllun i Ychwanegu Gwerth, yn ôl ei ddatganiad, yw 'Trydydd sector dynamig, arloesol, ymatebol a chynaliadwy sy'n gweithio mewn partneriaeth â chymunedau iechyd i sicrhau y caiff iechyd, lles ac annibyniaeth pobl a chymunedau ledled Cymru eu gwella'Mae adroddiad y Comisiwn Annibynnol ar Wasanaethau Cymdeithasol yng Nghymru, *Gweithredu'r Weledigaeth* (Tachwedd 2010) yn argymell economi gymysg o ofal ac mae'n dweud 'Mae cyfleoedd i ddylanwadu ar y farchnad er mwyn ei gwneud yn fwy arloesol ac effeithlon yn cael eu colli. Rydym yn argymell y dylai darparwyr yn y sector preifat a gwirfoddol gyfrannu mewn ffordd fwy adeiladol at y gwaith o gynllunio, dylunio a chomisiynu gwasanaethau. Rydym hefyd yn argymell y dylid annog micro-ddarparwyr a sefydliadau sy'n cael eu harwain gan ddefnyddwyr i gyfrannu at drefniadau cymorth hunangyfeiriedig.'

O ran sicrhau ansawdd a diogelwch, mae'n ofynnol i gyrff y trydydd sector a ariennir gan y GIG fel partneriaid wrth ddarparu gofal iechyd ddefnyddio *Gwneud yn dda, gwneud yn well - Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd* Llywodraeth Cymru Mae'r safonau hyn ar waith er mwyn galluogi holl sefydliadau'r GIG i edrych ar draws ystod eu gwasanaethau mewn ffordd gyfannol er mwyn sicrhau bod popeth a wnânt o'r safon uchaf. Gan ganolbwyntio ar wella iechyd a lles yn ogystal ag ar ddarparu gofal iechyd diogel o safon, mae'r safonau'n darparu fframwaith ar gyfer cyrff y trydydd sector er mwyn iddynt ystyried pob agwedd ar y gwasanaeth y maent yn ei ddarparu, gan sbarduno gwelliannau o ran diogelwch a safon lle bo angen hynny.

I gynorthwyo cyrff y trydydd sector i ddefnyddio'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd, mae dogfen canllawiau a rhaglen cymorth i'r trydydd sector wrthi'n cael eu cyflwyno ar y cyd gan Lywodraeth Cymru, WCVA a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol.

1.5. Y Trydydd Sector ac Ariannu

Bydd llawer o gyrff y trydydd sector na fyddant nac yn ceisio nac yn cael arian cyhoeddus gan mai grwpiau bychain ydynt sy'n ariannu eu gweithgareddau eu hunain. Serch hynny, mae arian y sector cyhoeddus o bwys mawr i lawer o gyrff eraill yn y trydydd sector ac i'r bobl a'r cymunedau y maent yn gweithio gyda hwy. Mae'r yr arian hwn yn llwyfan i ystod eang o weithgareddau a gwasanaethau sy'n elfen hanfodol o'r gwasanaethau cyhoeddus ehangach y bydd pobl a chymunedau'n dibynnu arnynt.

Wrth ddadansoddi'r arian a gafodd gwasanaethau'r trydydd sector yng Nghymru yn 2008/09, gwelir nad yw llywodraeth leol ond yn gwario 3% o gyfanswm ei chyllideb ar y trydydd sector. Cyd-destun hyn yw bod 21% o wariant llywodraeth leol yn cael ei ddyrannu ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Gwelir darlun tebyg wrth archwilio arian y GIG dros yr un cyfnod. Nid yw ariannu sefydliadau'r trydydd sector wedi dilyn chwyddiant; dim ond 0.3% o gyfanswm yr arian a werir ar iechyd yng Nghymru sy'n cael ei fuddsoddi yn y trydydd sector[iv].

Yr agwedd bwysicaf ar ariannu llywodraeth ganolog yw ei bod wedi gwneud ymrwymiad strategol i ddarparu arian craidd tymor hir ar gyfer cyrff, rhwydweithiau neu bartneriaethau sy'n gwasanaethu Cymru gyfan. Mae'r llywodraeth yn darparu arian craidd sylweddol ar gyfer cyrff lleol, a'r duedd yw mai nifer y cytundebau a'r contractau lefel gwasanaeth sy'n cynyddu yn hytrach na nifer y grantiau.

Un elfen unigryw yn hyn o beth yw bod y trydydd sector bron bob tro'n ychwanegu gwerth ariannol uniongyrchol at unrhyw arian a gaiff gan y sector cyhoeddus, gan ddenu arian o ffynonellau ychwanegol yn ogystal ag ychwanegu gwerth uniongyrchol o fathau eraill yn sgil ymdrech gwirfoddolwyr. Mapiwyd y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles a ddarperir gan gyrff y trydydd sector yng Nghymru mewn gwaith ymchwil a wnaeth WCVA ar ran Llywodraeth Cymru. Canfu'r gwaith hwn fod y sector yn darparu, yn ôl yr amcangyfrif, gyfanswm cyllideb gwasanaeth gwerth £292 miliwn; ac mai ychydig o dan 50% o'r swm hwn sy'n cael ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol a'r GIG. Am bob £1, sicrhaodd y trydydd sector fwy na £1 arall o ffynonellau eraill.

Mae Gofal a Thrwsio Cymru wedi nodi bod pob £1 y mae'n ei wario ar ei raglen Addasiadau Brys yn arbed oddeutu £7.50 i'r gwasanaethau cyhoeddus drwy gyflymu'r broses rhyddhau o'r ysbyty a lleihau blocio gwelyau, drwy beidio â gorfod derbyn cleifion i'r ysbyty, a thrwy osgoi costau gofal preswyl a chymorth drutach.

Dangosodd ymchwil Matrix i'r cymorth sy'n gysylltiedig â thai, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, fod £1.68 yn cael ei arbed mewn meysydd polisi eraill, megis iechyd, am bob £1 a wariwyd. Cyrff y trydydd sector yn bennaf sy'n darparu cymorth cysylltiedig â thai yng Nghymru. Llwyddodd un corff sy'n darparu llety i saith oedolyn y mae angen cymorth dwys arnynt i arbed £0.5m i'r awdurdod lleol yn ei flwyddyn gyntaf drwy ddod â chleientiaid a oedd wedi'u lleoli y tu allan i'r sir yn ôl i'w cynefin.

Mae gwaith ymchwil yn Lloegr i raglen beilot Prosiectau Partneriaethau i Bobl Hŷn (POPP) yn dangos y gall gwaith ataliol fod yn effeithiol gan sicrhau gwerth am arian

ar yr un pryd: am bob £1 a wariwyd ar wasanaethau ataliol, sicrhawyd budd o £1.73 ar gyfartaledd i'r economi iechyd a gofal cymdeithasol, hyd yn oed yn y tymor byr. Mae POPP wedi cryfhau'r sylfaen dystiolaeth ynghŷn â manteision gwaith ataliol, ymyrryd yn gynnar ac integreiddio drwy hyrwyddo dulliau ar y cyd i hybu annibyniaeth yn hytrach na gofal mewn ysbyty neu ofal tymor hir mewn sefydliad. Prif negeseuon yr ymchwil yw bod diwallu anghenion pobl drwy ddulliau ataliol yn gallu arbed arian; bod yr arbedion hyn ar gael ar draws y system iechyd a gofal cymdeithasol; bod modd gwella ansawdd bywyd drwy ddulliau ataliol; a bod modd cynnal gwasanaethau ataliol (gan eu bod yn aml yn ennill y ddadl drwy ddangos eu cost-budd).

Yn ystod y tair blynedd diwethaf, mae Crossroads Brycheiniog a Maesyfed ac yna Crossroads Canolbarth a Gorllewin Cymru, wedi bod yn cynnal prosiect peilot ym Mhowys. Ei nod yw helpu pobl sy'n byw gyda chanser a helpu eu gofalwyr. Mae'n ffaith hysbys bod gwaith gofalu'n rhoi gofalwyr o dan bwysau mawr a bod hynny'n effeithio er gwaeth ar eu hiechyd a'u lles hwy eu hunain. Yn sgil hynny, bron yn ddieithriad, bydd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn wynebu costau pan na fydd y gofalwyr eu hunain yn gallu gofalu rhagor. Mae hyn yn waeth byth yng nghyswllt gofal lliniarol, oherwydd y gyfradd marw ar gyfer menywod sy'n dioddef o ganser yw oddeutu 44% a'r gyfradd i ddynion yw 57% (Data'r Sefydliad Gwella o Ganser 1976 - 2005). Mae'n bwysig iawn bod rhywun yn cael dewis ymhle i farw a'i fod yn gallu marw gydag urddas ac mae'r prosiect peilot wedi cael dylanwad mawr yn y cyswllt hwn. Yn ystod cyfnod y prosiect hyd at 31 Awst 2010, mae 119 o gleifion a'u gofalwyr wedi defnyddio'r gwasanaeth; 59 o'r cleifion hynny wedi cael gwybod nad oes gwella arnynt a 47 (80%) wedi cael marw gartref. Amcangyfrifir i'r GIG arbed mwy na £250,000, yn ystod y cyfnod hwn, a'r arbediad hwnnw'n cael ei gynhyrchu gan wasanaeth sy'n costio £50,000 y flwyddyn.

Mae cyrff y trydydd sector yn ymateb i'r sefyllfa gwariant cyhoeddus presennol ac yn chwilio am arbedion effeithlonrwydd. Mae nifer o sefydliadau wedi uno ac wedi dechrau cydweithio mewn ffurfiau eraill. Serch hynny, byddai'r sector yn poeni petai'r arian yn cael ei ddefnyddio i resymoli gwasanaethau mewn ffordd amhriodol. Mae gwahanol gyrff yn gwasanaethu anghenion a buddiannau eu cleientiaid neu eu dinasyddion penodol ac wedi bwrw gwreiddiau'n lleol gan ddatblygu eu gwasanaethau arbenigol, drwy eu gallu i feithrin cysylltiad â'u cymunedau lleol a'u cynnwys. Mae'r rhain yn rhinweddau na ddylid eu colli.

Serch hynny, o dan rai amgylchiadau, mae uno a chydweithio'n beth call, ac fe allai arwain at ddarparu gwell gwasanaethau a gwasanaethau mwy cadarn i ddinasyddion. Fe allai hyn helpu hefyd i arbed costau, er y dylid canolbwyntio mwy ar atgyfnerthu ac estyn gwasanaethau ac ychwanegu gwerth yn hytrach na dim ond poeni am leihau costau. Er enghraifft:

- Mae Tai Cymunedol Cymru a Gofal a Thrwsio Cymru wedi creu strwythur grŵp, o dan un Prif Weithredwr Grŵp, sy'n rhannu gwasanaethau'r swyddfa gefn, yn ogystal â chronni arbenigedd y maes polisi ac mewn meysydd eraill er mwyn creu arbedion effeithlonrwydd ychwanegol.
- Mae Age Concern Cymru a Help the Aged yng Nghymru wedi uno i greu Age Cymru.
- Mae Gofal Hosbis Sefydliad Dewi Sant a Hosbis Dydd Usk House wedi uno a byddant yn gallu gwella'u gwasanaethau ar draws ardal ddaearyddol ehangach.

- Mae cynlluniau Crossroads Ceredigion, sir Benfro a Phowys wedi ffurfio un sefydliad, sef Crossroads y Canolbarth a'r Gorllewin, gan uno'u trefniadau gweinyddu a'u rheolaeth weithredol, a chreu endid mwy cynaliadwy a fydd yn gyfrwng i sicrhau systemau cymorth gweinyddol mwy cost-effeithiol ac effeithlon; yn hwyluso'r ffordd at gyfleoedd ariannu a chontractau mwy; yn cynyddu foliwm y gwasanaethau a ddarperir; a chaniatáu partneriaethau ehangach wrth weithio gyda'r sector cyhoeddus. Llwyddwyd i wneud hyn heb darfu ar ddarparu gwasanaethau, heb ddim diswyddiadau gorfodol a heb dorri ar delerau ac amodau gwaith gweithwyr.

Mae lle hefyd i gynyddu cydweithredu â phartneriaid statudol, er enghraifft:

- Fel rhan o osgoi gorfod derbyn cleifion i'r ysbyty/gwasanaethau rhyddhau'n gynnar gyda chymorth.
- Fel rhan o'r modelau gwasanaethau integredig sy'n darparu gofal cymhleth i bobl yn eu cartrefi/lleoliadau cymunedol eu hunain.
- Fel partneriaid wrth ddarparu gwasanaethau arbenigol, gan gynnwys tai, i bobl ag anghenion penodol a chymhleth.
- Fel partneriaid allweddol mewn cynlluniau a gwasanaethau sy'n helpu i hybu ffyrdd iach o fyw a byw'n annibynnol.

Os derbynnir bod darparwyr gwasanaethau'r trydydd sector yn cynnig ffordd briodol o alluogi cyfraniadau sylweddol i ategu gofal cymhleth, mae'n dilyn y dylai'r trydydd sector a phartneriaid weithio er mwyn:

- deall yn llwyrach y budd cymdeithasol a ddaw yn sgil buddsoddi yn y trydydd sector.
- cydweithio i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfraniad y gall y sector ei wneud i wasanaethau mewn cymunedau.

1.6. Gwerth gwirfoddoli

Astudiaeth Achos

(2010) Rôl y Sector Gwirfoddol mewn Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToC)/Rhyddhau Cleifion o Ysbytai ac Atal Ailddderbyn

Mehefin 2010 Prifysgol Bangor, Llywodraeth Cymru, WCVA

Mae'r gwaith ymchwil hwn a gyhoeddwyd yn dangos gwerth gwirfoddoli wedi'i drefnu o ran lleihau oedi wrth drosglwyddo gofal ac osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty'n ddiangen. Mae'r Groes Goch Brydeinig, gan ddefnyddio Ysbyty Gwynedd yn ganolfan, yn darparu gwasanaeth gartref o'r ysbyty drwy gyfrwng gwirfoddolwyr a reolir gan staff cyflog. Darperir y gwasanaeth ar gyfer dwy sir ac mae'n cynnwys cludiant a hebryngwyr; gofal a chymorth yn y cartref; a rhoi benthyg offer.

Yn yr ymchwil yn 2008-9, rhoddwyd manylion costau darparu'r gwasanaeth yng nghyd-destun nifer y diwrnodau-gwely a arbedwyd, naill ai drwy osgoi gorfod derbyn claf i'r ysbyty, neu drwy gynorthwyo i'w ryddhau ac atal oedi wrth drosglwyddo gofal gan ryddhau gwely yn sgil hynny. Amcangyfrif ceidwadol oedd bod pob atgyfeiriad yn arbed un gwely y noson. Mae'r gwasanaeth gartref o'r ysbyty wedi derbyn 344 o atgyfeiriadau, felly, yr amcangyfrif ceidwadol ar gyfer dylanwad y gwasanaeth hwn yw bod 344 o ddiwrnodau-gwely wedi'u creu drwy atal oedi.

Rhoddwyd benthyg 136 o gadeiriau olwyn a 15 comôd yn ystod 2008-2009, gan olygu bod llawer o bobl yn gallu cael eu rhyddhau heb oedi.

Mae'r gwasanaeth yn canolbwyntio ar y dinesydd a'i nod yw lleihau'r cyfnod y bydd angen i rywun ei dreulio mewn ysbyty neu atal gorfod ei dderbyn yn y lle cyntaf. Mae hyn yn galluogi rhywun i gael gwell ansawdd bywyd a pharhau i fyw'n annibynnol.

Wrth fynd ati fel hyn mewn ffordd gyfannol, a chanolbwyntio ar yr unigolyn, cynigir rôl cyfeillio bwysig hefyd, gan gynnig cefnogaeth emosiynol a gwybodaeth berthnasol am ffynonellau gwybodaeth eraill. Un o fanteisiom y gwasanaeth yw nad yw wedi'i gyfyngu gan ffiniau daearyddol na threfniadaethol. Mae hyn yn golygu y gall ymateb yn ddi-oed, sefydlu cyfathrebu'n rhwydd rhwng gwahanol sectorau a'i fod yn effeithiol o ran annog pobl i fanteisio ar wasanaethau fel nad oes rhaid eu derbyn yn ôl i'r ysbyty eto.

Nid oes rhaid i bobl wirfoddoli ac nid ydynt yn ei wneud er budd ariannol; mae'n golygu rhoi o'ch amser a'ch egni er budd y gymdeithas a'r gymuned.

Mae gwirfoddoli'n chwarae rhan hollbwysig yng ngwead economaidd a chymdeithasol Cymru. Amcangyfrifir bod oddeutu 1.1 miliwn o bobl yn gwirfoddoli gyda chyrff bob blwyddyn, gan gyfrannu oddeutu £1.6bn i economi Cymru (Adnodd Ystadegol WCVA 2010). Mae gwirfoddoli'n helpu i feithrin cyfalaf cymdeithasol a chydlyniant cymunedol ac mae'n chwarae rhan bwysig wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus allweddol.

Proffil gwirfoddoli yn y gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles yng Nghymru yw 85,000 o wirfoddolwyr yn darparu'r hyn sy'n cyfateb i bron 30,000 o swyddi amser llawn[v].

Mae gwirfoddoli'n dwyn budd i'r gwirfoddolwr hefyd: mae'n helpu i wella iechyd a lles ac yn cynnig cyfleoedd i unigolion feddu ar sgiliau a gwybodaeth a all roi hwb i'w yrfa neu i'w ragolygon am waith cyflog. Mae gan wirfoddoli rôl allweddol i'w chwarae o ran mynd i'r afael â strategaeth gweithlu Llywodraeth Cymru ar gyfer y sector gofal cymdeithasol drwy ddarparu profiad gwaith angenrheidiol i fyfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau academaidd ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu'r cwrs gradd gwaith cymdeithasol. Caiff gwirfoddolwyr y cyfle hefyd i ddangos y nodweddion a'r sgiliau sy'n angenrheidiol ar gyfer gyrfa mewn gofal cymdeithasol megis gwerthoedd cadarn sy'n hybu urddas, parch a dewis.

Felly, mae gwaith gwirfoddol a'r amser, y sgiliau a'r ymrwymiad a roddir gan wirfoddolwyr yng nghyswllt gwasanaethau gofal cymhleth, yn cynnig cyfleoedd economaidd a chymdeithasol go iawn i'n cymunedau yng Nghymru.

Mae'r canfyddiadau hyn yn ategu'r rheini a geir mewn adroddiadau eraill[vi] am oedi wrth drosglwyddo gofal a bod angen gwasanaethau cyfannol a chydgysylltiedig. At hynny, maent yn tynnu sylw at effaith gadarnhaol y gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector a gwirfoddolwyr, a chyfraniad y gwasanaethau hyn at strategaethau Llywodraeth Cymru *Cynllun i Ychwanegu Gwerth, Cynllun Oes a Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol,* a'r Fframwaith Gwasanaethau ar gyfer Pobl Hyn.

Mae'n bwysig ailadrodd yr egwyddorion a ganlyn ar gyfer gwirfoddoli: Mae WCVA wedi datblygu Siarter ar y cyd â'r TUC ar gyfer Cryfhau Cysylltiadau Rhwng Staff Cyflog a Gwirfoddolwyr.

Mae'r Siarter hon rhwng WCVA a TUC Cymru yn datgan egwyddorion ac arferion da. Fe'i hargymhellir i undebau unigol, i gyrff sy'n defnyddio gwirfoddolwyr yn y sector cyhoeddus, i'r trydydd sector ac i'r sector preifat a chyrff eraill, er mwyn sbarduno trafodaeth ac arferion da ym maes gwirfoddoli a hynny mewn ffordd briodol, gytûn sy'n dwyn budd i'r naill ochr a'r llall. Egwyddorion y Siarter:

- Dewis gwirfoddoli fydd pobl ac mae ganddynt yr hawl i wirfoddoli, neu yn wir i beidio â gwirfoddoli.
- Er na ddylai gwirfoddolwyr fel rheol gael na disgwyl cael gwobrau na chymhellion ariannol, dylid gwneud iawn iddynt am unrhyw dreuliau rhesymol.

- Dylai cyfraniad gwirfoddolwyr a chyfraniad staff cyflog ategu ei gilydd. Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr yn lle staff cyflog nac er mwyn tocio'u cyflogau a'u hamodau gwaith. Dylai gwirfoddolwyr wella ansawdd gweithgareddau sefydliad.
- Os oes contract ar gyfer darparu gwasanaethau, dylid nodi'r gwirfoddoli'n glir yn y contract. Serch hynny, ni ddylid defnyddio cyfraniad gwirfoddolwyr i leihau costau staffio.
- Dylid sefydlu'n glir sut mae'r unigolyn yn diwallu'r meini prawf ar gyfer bod yn 'weithiwr', yn 'wirfoddolwr' neu'n 'weithiwr gwirfoddol' yn unol â'r Rheoliadau Cenedlaethol ynglŷn â'r Isafswm Cyflog. Dylai hyn fod yn berthnasol yn yr un modd pan fydd yr unigolyn yn gwneud profiad gwaith.
- Dylid rhoi mecanweithiau effeithiol ar waith i fod yn gefn i wirfoddolwyr a'u datblygu; dylid ystyried y rhain a'u costio wrth gynllunio prosiectau gwirfoddoli.
- Dylid rhoi cyfleoedd i wirfoddolwyr ac i staff cyflog gyfrannu at ddatblygu polisïau a gweithdrefnau gwirfoddoli.
- Dylai gwirfoddolwyr a staff cyflog allu cyflawni eu dyletswyddau mewn amgylchedd diogel, gwarchodol ac iach heb ddim aflonyddu, bygwth, bwlio, trais a gwahaniaethu. Dylid trin pawb yn sensitif o ran ar eu dewis iaith.
- Dylai gwirfoddolwyr a staff cyflog ill dau allu manteisio ar gyfleoedd priodol i ddysgu a datblygu.
- Dylai fod proses gydnabyddedig ar gyfer datrys problemau, i staff ac i wirfoddolwyr.
- Ni ddylid defnyddio gwirfoddolwyr i wneud gwaith staff cyflog os bydd anghydfod diwydiannol.

O ran gwasanaethau cyhoeddus, mae'r cyfnod hwn yn gyfnod pontio yng Nghymru. Wrth ddatblygu model ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, cydnabyddir y gall modelau newydd ddisodli'r hen fodelau wrth inni geisio trawsnewid gwasanaethau er mwyn iddynt ganolbwyntio mwy ar y dinesydd.

Fe all gwirfoddolwyr wneud cyfraniad mawr at wasanaethau sy'n cefnogi ac yn datblygu lles ac annibyniaeth. Mae enghreifftiau o arferion da yn tynnu sylw at bwysigrwydd galluogi archwilio a negodi rhwng y sector statudol (cyflogedig) a'r gwirfoddolwyr sy'n cael eu trefnu.

Mae hyn yn hollbwysig wrth ddatblygu gwasanaethau newydd sy'n dwyn manteision lu ac sy'n ychwanegu gwerth o safbwynt economaidd a chymdeithasol, gan arwain, ac mae hyn yn bwysig, at ansawdd bywyd gwell i bawb yn y gymuned honno.

1.7. Ystod Cyfraniadau'r Trydydd Sector – cyfraniadau ‘meddal’ a chraidd

Gall y trydydd sector gyfrannu’n sylweddol at:

- Fwy o wasanaethau i gefnogi pobl yn eu cymunedau, drwy weithio ar lawr gwlad gyda’n grwpiau o gleientiaid a’n cymunedau i ddiwallu anghenion lleol ac unigol.
- Gwasanaethau cyhoeddus gwell sy'n fwy personol.
- Llai o anghydraddoldebau iechyd rhwng ardaloedd, drwy ddatblygu gwasanaethau’r trydydd sector yr ydym yn y sefyllfa orau i’w darparu.
- Cynllunio strategol, effeithiol, cenedlaethol a lleol fel sector, gan ddefnyddio ein seilwaith a'n rhwydweithiau presennol i gyfrannu at ddarparu gwasanaethau gyda'n partneriaid, a defnyddio adnoddau'n effeithiol.

Fel y dywedwyd ar ddechrau’r adroddiad hwn, oherwydd bod y trydydd sector yn fawr ac yn amrywiol, efallai na fydd gan bartneriaid, a hyd yn oed gyrff eraill yn y trydydd sector, ond profiad o rai mathau o ddarpariaeth a gweithgarwch ym maes gwasanaethau. Mewn ambell achos, mae hyn wedi arwain at ddiffyg dealltwriaeth llwyr o gyfraniad y sector, a ffugwahaniaethu rhwng y gwasanaeth a gomisiynir (o dan gontract neu gytundeb lefel gwasanaeth) sy'n eistedd ochr yn ochr â’r ddarpariaeth statudol ac yn rhan ohoni, a gweithgarwch ychwanegol, a hwnnw fel rheol ar lefel leol a chymdogaeth, sydd weithiau'n cael ei weld yn 'feddalach', yn 'ymylol' ac felly'n llai gwerthfawr.

Efallai fod gwasanaethau cyhoeddus fwy neu lai'n llwyddo i ymateb i’r galw presennol, ond mae pwyntiau pwysedd i'w gweld. Mae ansawdd bywyd pobl hefyd yn codi ystyriaethau difrifol. Efallai inni lwyddo i gadw pobl yn y gymuned, ond rydym wedi llwyddo i raddau llai o lawer i helpu pobl i ddod yn rhan o’u cymuned. Nid yw rhoi rhagor o gymorth o reidrwydd yn golygu gwell bywyd na mwy o annibyniaeth, ac mae problemau unigrwydd a pherthyn yn aml yn bwysicach nag ansawdd gofal personol. Mae pobl yn agored iawn i newidiadau yn eu cymunedau: siopau, cludiant, cymdogion, grwpiau lleol; a pho leiaf sefydlog y bydd y rhain, mwyaf y bydd pobl yn dibynnu ar asiantaethau proffesiynol er mwyn perthyn.

Mae’r adroddiad hwn eisoes wedi datgan mai gwerth cyfraniad y trydydd sector yw bod y sector yn gallu datblygu ymatebion a gwasanaethau sy’n nes at bobl leol a chymunedau a gwasanaethau sy'n cael eu tywys ganddynt (mae Adran 2 yn esbonio’r model gwasanaeth hwn yn fwy manwl). Byddem yn dadlau bod ein gwasanaethau’n aml yn unigryw o gyfannol, ac y llwyddir i gyflawni hyn drwy weithio gyda chydweithwyr eraill yn y sector i sicrhau’r ddewislen o sgiliau ac arbenigedd sy'n ofynnol. Hefyd, wrth i wasanaethau hunangyfeiriol dyfu, o dan yr agenda personoleiddio, bydd gallu darparu’r cymysgedd hwn o wasanaethau craidd a gwasanaethau meddalach mwy personol yn gryfder cynyddol.

1.8. Y Cyd-destun Presennol a Chydamcanion

Mae'r GIG, llywodraeth leol, cyrff annibynnol a chyrff y trydydd sector i gyd yn wynebu effeithiau'r amgylchedd economaidd anodd presennol. Er bod y cyfnod hwn yn ddiamau'n un anodd, mae cyfle inni ystyried dulliau amgen ac arloesol sy'n ymateb mewn ffordd gyfannol gan ddarparu gwasanaethau ar y cyd sy'n canolbwyntio ar y person.

Mae rhagamcanion poblogaeth, ynghyd â gofynion cynyddol poblogaeth sy'n heneiddio fwyfwy, yn cynnig cyfle unigryw inni edrych o'r newydd ar y ffordd y byddwn yn cynllunio gwasanaethau a datblygu dulliau amgen sy'n ceisio cadw pobl mor iach ag y bo modd ac mor annibynnol ag y bo modd gyhyd ag sy'n bosibl.

Yn sgil datblygiadau meddygol a therapiwtig, bydd pobl erbyn hyn yn goroesi salwch ac/neu anafiadau catastroffig, ond bydd ganddynt anghenion cymhleth. Mae hyn, yn ddiamau, yn rhywbeth i'w ddathlu, ond mae'n golygu y bydd angen i sefydliadau statudol a gwirfoddol ystyried sut mae ailgynllunio'r modelau gwasanaeth presennol i ddiwallu'r anghenion hyn, a hynny mewn lleoliadau sy'n briodol ac yn ymateb i ddewis personol.

Mae'r newid safbwynt cyffredinol a ddisgrifir yn *Gosod y Cyfeiriad* a'r symud at GIG sy'n cael ei dywys gan wasanaethau sylfaenol a chymunedol yng Nghymru hefyd yn golygu, dros gyfnod, y bydd mwy o bobl yn cael gofal yn eu cartref/lleoliad gofal presennol, ac nad cael eu derbyn i'r ysbyty fydd yr opsiwn gofal a ffefrir os oes modd osgoi hynny.

Er mwyn i ni, fel partneriaid, ymateb i'r heriau hyn, yna, mae angen inni ganfod cyfleoedd i ddatblygu rhagor ar gynllunio a darparu gwasanaethau integredig gan achub ar y cyfleoedd hynny, cyfleoedd sy'n hyblyg, yn ymatebol, yn gost-effeithiol, ac sy'n gallu diwallu anghenion ar draws y dilyniant gofal.

2. Model Gwasanaethau Cydgynllunio a Chyd-ddarparu

2.1. Beth yw hyn a pham mae'n bwysig?

Nid oes dim byd newydd yn y syniad o gydgynllunio a chyd-ddarparu. Mae hyn yn rhan o'r traddodiad cydfuddiannol ac o draddodiad y gymuned. Mae wedi'i ailddatgan yn fodel gwasanaeth cryf ar gyfer ein hoes ni, i ddiwallu anghenion penodol iawn oherwydd ei fod yn gallu darparu gwasanaethau sydd:

- Yn canolbwyntio ar y dinesydd ac felly o well ansawdd ac yn sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddiwr y gwasanaeth.
- Yn effeithlon ac yn gynaliadwy wrth ddefnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael mewn cymuned er y budd gorau.
- Yn grymuso pawb dan sylw ac yn eu llenwi ag egni.
- Yn bwrw ymlaen â'r agenda personoleiddio ar ffurf sy'n berthnasol i Gymru ac sy'n seiliedig ar y gymuned.

Mae ffyrdd o ddatblygu gwasanaethau cyhoeddus yn y dyfodol sy'n creu 'cacen' fwy o adnoddau. Mae hyn yn golygu defnyddio, nid dim ond staff a chyllidebau'r sector cyhoeddus, ond hefyd, ddefnyddwyr, teuluoedd, cymdogion, cyrff lleol y trydydd sector a'r gymuned ehangach mewn 'gwasanaeth cyflawn' sy'n mynd y tu hwnt i'r ddarpariaeth gwasanaethau draddodiadol ac yn rhyddhau adnoddau, sgiliau ac egni newydd. Mae'n golygu gwasanaethau sydd wedi'u comisiynu a chymorth wedi'i hunandrefnu a'r rheini'n ategu ei gilydd yn hytrach nag yn gweithredu ar eu pen eu hunain. Mae hyn yn golygu bod angen hafaliad newydd sy'n mesur cyfanswm gwerth gwasanaeth a'r budd i'r dinesydd (ac ystyried yr holl adnoddau a roddir ar waith - amser staff cyflog, cyfraniad defnyddwyr, amser gwirfoddolwyr, grwpiau cymorth yn y gymuned) o'i gymharu â buddsoddiad y sector cyhoeddus. Y wobr fydd y caiff ein harian cyhoeddus ei ddefnyddio mewn ffyrdd sy'n denu adnoddau ychwanegol – er mwyn sicrhau gwell gwerth i'r dinesydd.

Gall hyn olygu dull newydd sydd wedi'i seilio ar gydgynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau cyhoeddus, lle bydd gweithgareddau a gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u darparu gan ystod eang o weithredwyr - gan ddwyn ynghyd y trydydd sector annibynnol a'r sector cyhoeddus gyda'r dinesydd a'r gymuned yn y canol. Mae'n golygu buddsoddi yng nghapasiti'r gymuned ac yng nghynlluniau'r gymuned er mwyn darparu cyd-gymorth sy'n ategu ac yn lleihau'r gofynion sydd ar wasanaethau eraill. Gall y dull hwn gynnwys:

- Cymorth sy'n canolbwyntio ar y dinesydd
- Gwasanaethau sy'n cael eu tywys gan eu defnyddwyr
- Gwasanaethau sy'n cael eu tywys gan y gymuned
- Gwasanaethau cymysg gan wirfoddolwyr a staff
- Gwasanaethau integredig

Mae'r mathau hyn o wasanaethau eisoes ar waith ledled Cymru (gweler Adran 2.2. isod am ragor o wybodaeth) ac mae angen i'r dull hwn fwrw gwreiddiau'n systematig mewn arferion comisiynu os ydym am weld mwy o lawer ohono. Mae WCVA yn cefnogi'r trydydd sector i wireddu hyn drwy'r rhaglen datblygu ar gyfer Canllawiau a Fframwaith Comisiynu ac Arferion Da (Saesneg yn unig) *Bywydau Bodlon, Cymunedau Cefnogol*, sy'n cynnwys Pecyn Cynllunio Llwybr Caffael Gwerth i Gymru.

Gall partneriaethau arloesol rhwng comisiynwyr, defnyddwyr gwasanaethau a darparwyr ganolbwyntio ar gyd-fudd ac ar gyd-gynhyrchu o ran cynllunio gwasanaethau, cynnig mwy o ddewis a rheolaeth i ddefnyddwyr gwasanaethau, a bod yn gyfrifol am sicrhau cydlyniant strategol rhwng canlyniadau lefel gwasanaeth a chynaliadwyedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol ehangach.

Mae angen inni annog agweddau mwy radical at adolygu a chynllunio darparu gwasanaethau. Drwy ddilyn dull comisiynu'r "system gyflawn" dylai hynny olygu ein bod yn ailfeddwl ynglŷn â pha wasanaethau y mae gofyn eu cael er mwyn diwallu'r anghenion a fynegir gan ddinasyddion a defnyddwyr gwasanaethau. Byddai'n ystyried yr holl wasanaethau a ddefnyddir gan ddinasyddion, a gallai'r rheini gynnwys rhai ar wahân i'r rheini a ddarperir neu a gafaelir yn ffurfiol gan y sector cyhoeddus. Bydd llawer o'r gwasanaethau a ddefnyddir gan ddinasyddion a'r gwasanaethau y byddant yn dibynnu arnynt yn cael eu darparu y tu allan i ddarpariaeth statudol.

Mae cydgynllunio'n golygu bod comisiynwyr a darparwyr gwasanaethau'n gweithio gyda defnyddwyr gwasanaethau a dinasyddion i gynllunio gwasanaethau. Mae'r heriau sy'n wynebu comisiynwyr yn amrywio. Maent yn cynnwys sut mae sicrhau bod y boblogaeth leol sy'n defnyddio gwasanaethau'n cael ei chynrychioli'n effeithiol a bod gwahanol ddulliau'n cael eu defnyddio i ymgysylltu â phobl, a chyd-gynhyrchu sy'n mynd y tu hwnt i gyfarfodydd ymgynghori traddodiadol.

Mae proses 'sut mae ymgysylltu' yr un mor hollbwysig â'r dulliau a ddefnyddir i ymgysylltu.' Mae ymgysylltu'n effeithiol â defnyddwyr gwasanaethau'n gofyn am ddiwylliant lle bydd ymrwymiad i ddeall anghenion cymhleth defnyddwyr gwasanaethau'n brif ystyriaeth wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau. Mae hyn yn mynnu bod y rheini sy'n comisiynu ac yn cynllunio gwasanaethau'n meddwl ac yn ymddwyn yn wahanol i'r ffordd y gwneir pethau ar hyn o bryd.

Mae Llywodraeth Cymru'n cefnogi Cyfranogaeth Cymru i ehangu ei waith gyda gwasanaethau cyhoeddus, ac i ddarparu adnodd gwybodaeth a chyngor canolog ar gyfer y rheini sy'n gyfrifol am ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae'n gweithio eisoes gyda nifer o Fyrddau Gwasanaethau Lleol a BILlau wrth iddynt weithio ar Ymgysylltu â Dinasyddiaeth a Chymunedau. Mae sicrhau gwaith partneriaeth cryf wrth ymgysylltu'n talu ar ei ganfed. Barn gyffredinol defnyddwyr gwasanaethau a'r cyhoedd yw nad mwy o ymgynghori sydd ei angen ond gwella'r profiad ymgysylltu ei hun.

Mae angen i weithdrefnau comisiynu a chaffael gynnwys cyd-gynhyrchu a'i asesu.

Gellir ehangu manylebau gwasanaeth i gynnwys gweithgarwch a fydd yn gwella lles ac ansawdd bywyd pobl ac yn eu helpu i fyw'n annibynnol. Er enghraifft, efallai mai angen ym maes iechyd neu ofalu cymdeithasol sydd gan unigolyn ar hyn o bryd ond

y byddai modd cryfhau ei annibyniaeth a gwella ansawdd ei fywyd yn y tymor hwy drwy'r canlynol:

- Wneud ffrindiau newydd os dymunir hynny
- Archwilio gwahanol brofiadau
- Rhannu sgiliau
- Help i gael gafael ar wasanaethau ar y rhyngrwyd
- Dilyn gweithgareddau cymdeithasol, creadigol neu gorfforol sy'n ei ysgogi
- Helpu i ffurfio grwpiau o bobl sy'n rhannu'r un diddordebau
- Datblygu cyfeillgarwch a chefnogaeth gan grwpiau
- Archwilio opsiynau a chyfleoedd
- Ceisio atebion i broblemau a rhwystrau

Mae angen inni gomisiynu gwasanaethau gan ddarparwyr sydd â'r arfau i fynd i'r afael â'r rhain, er enghraifft drwy'r canlynol:

- Cyngor, Gwybodaeth ac Eiriolaeth: darparu gwybodaeth, cyngor neu eiriolaeth neu gyfeirio pobl at wybodaeth o'r fath am wasanaethau – a'r rheini'n rhai sy'n gallu diwallu anghenion unigolyn a'i gynorthwyo i fyw'n annibynnol. Gallai hyn gynnwys, lle bo hynny'n briodol, gynorthwyo unigolion i'w helpu i fanteisio i'r eithaf ar eu hincwm drwy roi cyngor ynglŷn â budd-daliadau a'u helpu i lenwi ffurflenni.
- Datblygu rhwydweithiau cymorth: adnabod rhwydwaith cymorth y defnyddiwr gwybodaeth ei hun a gweithio'n briodol gyda'r rhwydwaith hwnnw.
- Meithrin cysylltiadau â'r gymuned: cymorth un-ac-un i alluogi rhywun i ail-feithrin cysylltiad â'i gymuned budd er mwyn mynd i'r afael ag ynysu cymdeithasol. Gall hyn amrywio o ddyddiadur cymdeithasol lleol sy'n rhestru gweithgareddau, i gyflwyno rhywun i grwpiau lleol, ei gyfeirio at wasanaethau cyfeillio, cymorth i ddefnyddio'r rhyngrwyd, neu feithrin ei hyder i adael ei gartref a/neu ddefnyddio cludiant cyhoeddus.

Dylai'r gweithdrefnau fynnu bod darparwyr yn dweud sut y byddent yn cynnwys defnyddwyr gwasanaethau ac yn denu cefnogaeth ychwanegol. Dylai fod gofyn i ddarpar ddarparwyr ateb cwestiynau penodol ynglŷn â chynnwys defnyddwyr gwasanaethau, a sut y gallant helpu pobl i fanteisio ar ystod eang o wasanaethau gan ddarparwyr y sector statudol, y trydydd sector a'r sector preifat, yn unol ag anghenion yr unigolyn.

Dylid asesu darparwyr gwasanaethau ar sail:

- Pa mor dda mae eu gwasanaeth yn adnabod cryfderau defnyddwyr gwasanaethau ac yn eu rhoi ar waith?
- Sut mae eu gwasanaeth yn helpu pobl i gymryd rhan ym mywyd y gymuned ac elwa o rwydweithiau a chymorth y gymuned?

- Sut mae eu gwasanaeth yn helpu pobl i ddod o hyd i ffyrdd o gynorthwyo a chefnogi pobl eraill, gan gynnwys cyd-ddefnyddwyr gwasanaethau, y teulu, cymdogion a'r gymuned leol?
- Lle bo hynny'n briodol, sut mae eu gwasanaeth yn creu manteision ychwanegol drwy gyfraniad gwirfoddolwyr a thrwy eu datblygu?
- Sut mae gweithgareddau a dulliau'n cyflawni amcanion a chanlyniadau ar lefel gwasanaethau ac ar lefel y gymuned?

2.2. Golwg Gyffredinol ar Enghreifftiau Presennol

Mae enghreifftiau ar waith yng Nghymru eisoes, lle y darperir gwell gwasanaethau am gost is, gan gynnwys:

- Cludiant y tu allan i oriau o'r ysbyty a chymorth i bobl hŷn sy'n glinigol abl i ddychwelyd adref, gan helpu i osgoi gorfod eu haildderbyn i'r ysbyty. Roedd yr arian a arbedwyd drwy osgoi gorfod aildderbyn pobl i'r ysbyty'n hen ddigon i dalu am gost y gwasanaeth yn 2009.
- Cynnwys gwirfoddolwyr i roi cymorth tymor hwy a chreu perthynas â phobl ifanc sy'n gadael gofal ac, yn ei dro, y rhai sy'n gadael gofal yn gwirfoddoli eu hunain drwy gynllun Gwirfoddolwyr y Mileniwm.
- Integreiddio gwasanaethau statudol a gwasanaethau'r trydydd sector gan greu Gwasanaeth Gofal Canolraddol di-fwlch.
- Cynlluniau taliadau uniongyrchol sy'n golygu bod defnyddwyr yn fwy bodlon, yn fwy annibynnol a bod ganddynt fwy o reolaeth. Mae hyn hefyd yn arbed arian ac yn darparu gwell gwasanaeth.
- Mae cynghreiriau cymunedol yn dod â phobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a grwpiau lleol at ei gilydd er mwyn meithrin rhwydweithiau a strwythurau ffurfiol ac anffurfiol i ddiwallu eu hanghenion.

2.3. Yr Her i'r GIG

Yn Gwireddu Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid Strategol Pum Mlynedd ar gyfer GIG Cymru: Crynodeb o'r Prosiect ac Argymhellion, rhestrir y prif nodau ar gyfer GIG Cymru a'i bartneriaid sef sicrhau:

- Gwelliannau o ran ansawdd gwasanaeth sy'n lleihau amrywiadau, gwastraff a niwed
- Gofal sy'n canolbwyntio ar y claf
- Gweithlu cydlynol, proffesiynol, llawn cymhelliant
- Gwell gwerth am arian
- Gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol fforddiadwy sydd gyda'r gorau yn y byd ar gyfer dinasyddion Cymru

Mae'r Fframwaith yn nodi bod angen trawsnewid y ffordd y datblygir ac y darperir gwasanaethau, ac mae'n rhestru pedwar prif faes y dylid canolbwyntio arnynt er mwyn gwireddu hyn:

- **Gwella perfformiad, ansawdd a sefydlogrwydd ariannol drwy leihau niwed, gwastraff ac amrywiadau:** adeiladu ar sylfeini cadarn Ymgyrch 1000 o Fywydau a thargedau deallus er mwyn hybu mabwysiadu'r arferion gorau ar sail "mabwysiadu neu gyfiawnhau" a fydd yn darparu'r gofal gorau posibl.
- **Bachu ar y cyfle i integreiddio:** gan sicrhau cydbwysedd rhwng gwella iechyd a gofal iechyd, creu gofal integredig, a chysoni'r holl systemau cymorth, gan ganolbwyntio mwy ar rôl y claf, y gofalwr a'r dinesydd fel cyd-gynhyrchwyr/cyfarwyddwyr eu pecynnau iechyd a gofal eu hunain.
- **Grymuso'r rheng flaen:** rhoi'r arfau y mae eu hangen arnynt i staff clinigol a staff anghlinigol er mwyn iddynt arwain newid a darparu gofal o ansawdd da.
- **Cynorthwyo gwasanaethau i gyflawni drwy lywodraethu da a phartneriaethau cryf:** sicrhau bod rôl gyfun Prif Weithredwr GIG Cymru a Chyfarwyddwr Cyffredinol Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru'n cael ei defnyddio i'r eithaf i sbarduno gweithio di-fwlch rhwng GIG Cymru a'r llywodraeth, a bod agenda gwaith partneriaeth ehangach o lawer ar waith ar draws llywodraeth a gwasanaethau cyhoeddus er mwyn gwella ansawdd bywyd a lles.

Mae'r Fframwaith hefyd yn sôn am y cyd-destun, yr her a'r dystiolaeth sydd ar gael sy'n dangos pam mae angen inni symud at ddarparu gwasanaethau mewn ffordd fwy integredig. Dyma rai o'r enghreifftiau a roddir:

- Mae canlyniadau iechyd yn waeth yng Nghymru nag ar gyfer ein cymheiriaid
- Mae cyfraddau marwolaethau wedi'u safoni yn ôl oedran yn uwch nag yn Lloegr
- Mae marwolaethau oherwydd canser yng Nghymru yn gostwng ond mae'n llusgo'n sylweddol ar ôl y cyfraddau rhyngwladol
- Mae'r baich clefydau cronig yn ddifrifol, gyda thraean o holl oedolion Cymru (~800,00) yn dioddef o o leiaf 1 cyflwr cronig
- Mae 57% o'n hoedolion dros eu pwysau neu'n ordew
- Mae'r garfan fwyaf di-fraint o'r boblogaeth 50% yn fwy tebygol o fod â salwch tymor hir cyfyngol
- Mae poblogaeth sy'n heneiddio'n ymestyn ein hadnoddau - bydd nifer y bobl sydd dros 75+ yn cynyddu 75% erbyn 2031
- Mae lle i wella sut mae'r systemau'n perfformio
- Mae capasiti ysbytai o dan straen oherwydd nad ydynt yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol
- Mae galwad 999 30% yn fwy tebygol o arwain at dderbyn rhywun i'r ysbyty nag y mae yn rhanbarthau gorau Lloegr

- Nid yw'r system bresennol yn ariannol fforddiadwy

Yr her yw sicrhau cefnogaeth barhaus i gyrff perthnasol yn y trydydd sector, i'w twf a'u datblygiad, cyrff y mae eu gwaith:

- Yn canolbwyntio ar atal neu ymyrryd yn gynnar, gan osgoi llawer mwy o gostau cyhoeddus dros gyfnod cymharol fyr
- Yn denu adnoddau ychwanegol (ariannol a dynol) i roi mwy o werth i bobl a chymunedau
- Yn meithrin gallu cymunedau i gymryd camau drostynt eu hunain ac i alluogi pobl i gefnogi ei gilydd a hybu lles meddyliol
- Yn waith nad oes modd gwneud hebddo gan na allai'r un asiantaeth na grŵp o asiantaethau eraill mewn gwirionedd ddarparu'r gwasanaeth a gynigir
- Yn darparu ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o gyflawni amcanion

3. Seilwaith Darparu'r Trydydd Sector a Chydgynhyrchu

Mae'r adran hon yn esbonio sut y trefnir y trydydd sector i weithio gyda BILlau ac Awdurdodau Lleol - rôl allweddol Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chompactau Lleol; cyrff ambarél cenedlaethol; a rhwydweithiau cenedlaethol.

Fel y dywedwyd eisoes, mae'r trydydd sector yng Nghymru'n cynnwys dros 30,000 o gyrff, a 1,200 o'r rheini'n gyrff sy'n gwasanaethu Cymru gyfan; 1,200 yn gyrff rhanbarthol; ac o leiaf 27,000 yn gyrff ac yn grwpiau lleol. Mae gan y trydydd sector drefniadaeth seilwaith i'w alluogi i weithio ar lefel y gymuned, ar lefel awdurdod lleol, ar lefel ranbarthol ac ar lefel genedlaethol: mae'n dal i esblygu a datblygu er budd gorau gwaith partneriaeth lesol.

Mae gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA), y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Canolfannau Gwirfoddoli Gytundeb Partneriaeth ffurfiol â Llywodraeth Cymru sy'n cydnabod rôl gefnogi generig y cyrff hyn i'r trydydd sector a'u cyfrifoldebau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

WCVA yw'r corff ambarél cenedlaethol ar gyfer y trydydd sector yng Nghymru. Mae WCVA yn cynrychioli, yn cefnogi ac yn datblygu mudiadau gwirfoddol, gweithredu cymunedol a gwirfoddoli yng Nghymru ac mae'n ymgyrchu drostynt. Mae'n cynrychioli'r sector ar lefel y Deyrnas Unedig ac ar lefel genedlaethol, ac, ynghyd ag ystod o asiantaethau arbenigol cenedlaethol, cynghorau gwirfoddol sirol, canolfannau gwirfoddoli ac asiantaethau datblygu eraill, mae'n cynnig strwythur cymorth i'r trydydd sector yng Nghymru. Mae ganddo dros 2,500 o aelodau, ac mae ganddo gysylltiad â mwy o gyrff o lawer drwy gyfrwng ystod eang o rwydweithiau cenedlaethol a lleol. Mae gwaith penodol parhaus WCVA gyda'r sector ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn cynnwys hwyluso:

- Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles
- Grŵp Cyfeirio Trydydd Sector y GIG
- Rhwydwaith Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol Lleol
- Cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn rhwng y trydydd sector a Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a'r Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol
- Cynrychiolaeth i'r trydydd sector ar weithgorau cenedlaethol allweddol.

Trefnir cyrff iechyd a gofal cymdeithasol cenedlaethol y trydydd sector er mwyn rhoi cymorth ym maes cyflyrau meddygol ac/neu i grwpiau penodol o gleientiaid ac maent wedi datblygu gwybodaeth ac arbenigedd arbenigol. Un enghraifft adnabyddus iawn o gorff ambarél cenedlaethol yw Plant yng Nghymru. Bydd rhai cyrff cenedlaethol yn gweithredu ar lefel y Deyrnas Unedig, er enghraifft Cymdeithas Alzheimer a Sefydliad Prydeinig yr Ysgyfaint. Mae trefniadaeth cyrff eraill yn golygu bod ganddynt strwythur yng Nghymru, er enghraifft, y Groes Goch Brydeinig yng Nghymru, Gofal Cross Roads Cymru. Mae rhai'n gyrff sy'n gweithredu'n benodol yng Nghymru, er enghraifft Age Cymru. Mae gan y rhan fwyaf grwpiau neu ganghennau lleol, neu ffederasiynau sy'n darparu gwasanaethau ac yn codi arian a'r rheini wedi bwrw gwreiddiau i raddau helaeth yn eu cymunedau.

Mae'r cyrff cenedlaethol yn cynnig arbedion effeithlonrwydd ac arbedion maint hanfodol wrth weithio; ochr yn ochr â sicrhau hyfforddiant sydd wedi'i safoni a sicrwydd ansawdd; a lobïo ac ymgyrchu.

Bydd y cynghorau gwirfoddol sirol yn gweithio i gefnogi a hwyluso deialog rhwng y trydydd sector yn eu hardaloedd, ac awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol. Mae nifer o awdurdodau lleol yn dechrau trafod â'r sector yn eu hardal am y sefyllfa ariannu, nid dim ond i sicrhau bod cyrff yn cael gwybod beth sy'n digwydd, ond hefyd i drafod opsiynau ar gyfer darparu gwasanaethau a ffyrdd newydd o gydweithio.

Mae gan bob Cyngor Gweithredu Sirol swydd Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a sefydlwyd gan Gynllun Llywodraeth Cymru, Codi Pontydd Cadarn mwyn datblygu gwaith partneriaeth cryf gyda'r GIG ac awdurdodau lleol. Mae'r swyddi hyn yn dal i gyflawni rôl leol hollbwysig o ran galluogi ymgysylltu a chyfranogi gan y trydydd sector yn yr agenda iechyd a gofal cymdeithasol mewn ffordd hwylus a threfnus.

Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn gweithio gyda'r trydydd sector lleol, a hefyd gyda'r Byrddau Iechyd Lleol sy'n egino, yn yr ardaloedd rhanbarthol newydd hyn gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol perthnasol eraill i sicrhau bod y trydydd sector yn gallu ymgysylltu'n ystyrlon a gweithio'n strategol . Mae rôl y Cynghorau Gwirfoddol Sirol yn hollbwysig i'r strwythurau ymgysylltu newydd: ledled Cymru, ceir 19 o Gynghorau Gwirfoddol Sirol a'u nod yw 'cefnogi, hyrwyddo a datblygu'r trydydd sector ac mae ganddynt rôl yn cydlynu rhwydweithio lleol'

Er enghraifft, mae ardal BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg yn dod â'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ar gyfer Pen-y-bont ar Ogwr, Castell-nedd Port Talbot ac Abertawe at ei gilydd a'r rheini'n cynnwys cyfanswm o fwy na 4,000 o gyrff lleol y trydydd sector. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol ym Mhrifysgol Abertawe Bro Morgannwg wedi gweithio i greu trydydd sector trefnus sydd a strwythur iddo yn lle'r hen drefn ad-hoc hanesyddol er mwyn iddo fod mewn sefyllfa i weithio'n strategol gyda'r BILl a chyfleu neges glir eu bod yn drefnus ac mewn sefyllfa i drafod sut mae modd datblygu a darparu gwasanaethau gyda'r Bwrdd Iechyd, ac ar ei ran.

Mae gan yr Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol lleol a gyflogir gan bob Cyngor Gwirfoddol Sirol rôl allweddol yn y gwaith hwn gan y trydydd sector lleol, gwaith sydd wedi'i drefnu. Yn ardal Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg, mae'r tri Hwylusydd wedi ymgysylltu â'r canlynol ac yn eu galluogi:

- Y Compact Lleol rhwng BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg a'r trydydd sector lleol
- Rhwydwaith Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles rhanbarthol newydd sy'n cyfarfod bob chwarter ym mhob ardal ar sail rota, gyda'r Hwyluswyr yn annog cyfraniad lleol
- Cyfarfodydd misol ar lefel Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg gydag aelod Trydydd Sector y BILl nad yw'n Swyddog a Swyddog Cynllunio BILl Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
- Digwyddiadau rhanbarthol ar y cyd gan gynnwys gweithdy Cynllunio i Ychwanegu Gwerth a roddodd gyfle i'r trydydd sector fwydo i'r Cynllun

Pum Mlynedd, gyda digwyddiad arall wedi'i gynllunio i alluogi'r sector i dynnu sylw at yr hyn y gall ei ddarparu i gefnogi cyflawni amcanion y Bwrdd Iechyd.

- Recriwtio cynrychiolwyr y trydydd sector i Grŵp Cyfeirio'r Rhanddeiliaid, gyda'r Hwyluswyr yn cyfarfod â'r cynrychiolwyr hyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau cefnogaeth i'r sector, a chyfathrebu dwy ffordd ag ef
- Mae Cyfarwyddwyr y Cynghorau Gwirfoddol Sirol a'r Hwyluswyr ill dau'n rhan o'r gweithgor sy'n goruchwylio Adolygu Cytundebau Lefel Gwasanaeth y Trydydd Sector ac mae pob Hwylusydd yn cynrychioli'r trydydd sector fel aelod o'r Parthau Rhwydwaith Cymunedol.
- Mae'r Hwyluswyr hefyd yn cydweithio fel tîm: er enghraifft yn mapio holl weithgarwch y trydydd sector ym maes iechyd a lles ar draws ardal Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg ar y cyd â Rheolwr ei Phartneriaethau; cyfarfodydd lleol Gofal Iechyd Parhaus; a defnyddio system rota i fynychu grwpiau rhanbarthol megis Cynghrair Niwrolegol De Cymru

Ym Mhrifysgol Abertawe Bro Morgannwg, fel sy'n wir ym mhob ardal arall ledled Cymru, mae gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, felly, strwythur sy'n cynnig llwybr trefnus at y trydydd sector, a dros y misoedd nesaf, byddant yn adeiladu ar sail eu perthynas â'r Byrddau Iechyd wrth ddatblygu dulliau newydd o fanteisio i'r eithaf ar adnoddau a darparu gwasanaethau effeithlon, effeithiol ac ymatebol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n diwallu anghenion lleol

Gwelir cydweithio tebyg ym maes iechyd. Er enghraifft, mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda yn cydweithio â'r cynghorau gwirfoddol sirol yn ei ardal i "gydgynllunio" yr hyn y gall rôl y trydydd sector fod fel rhan o'r system iechyd, gofal cymdeithasol a lles yn ei chrynswth. Maent yn archwilio sut mae manteisio i'r eithaf ar rôl y trydydd sector a rôl gofalwyr a gwirfoddolwyr. Maent hefyd yn archwilio porth caffael ar draws ardal Hywel Dda mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol a'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol. Nod hyn yw creu manylebau gwasanaeth mwy priodol y gellir eu cyflawni drwy gyfrwng tendrau cydweithredol gan gohort o gyrff y trydydd sector o'r elusennau cenedlaethol mawrion i'r grwpiau lleol bychain.

Cred Hywel Dda y bydd angen rhwng deuddeg a deunaw mis er mwyn cydgynllunio fel hyn, er mwyn gwneud y gwaith yn dda a sicrhau gwasanaethau sydd yn wir yn well o fewn amlen ariannol sy'n crebachu. Felly, bydd yn ceisio treiglo contractau presennol ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf er mwyn gallu gwneud y gwaith datblygu hwn, atal bylchau yn y gwasanaeth, ac, os oes angen, galluogi cyrff i gael digon o amser i gynllunio strategaeth ymadael.

Ffurfiolir y berthynas weithio rhwng y trydydd sector a'r awdurdodau lleol a'r BILlau drwy Gompactau Lleol, a chodau ymarfer y cytunir arnynt yw'r rhain sy'n cynnwys ariannu, gwaith partneriaeth a chraffu. Datblygir y Compactau Lleol gan y Cynghorau Gwirfoddol Sirol, ac mae'r WCVA yn gwneud gwaith monitro blynyddol yn gefn i hyn. Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol hefyd yn dechrau datblygu Memorandwm Dealltwriaeth gyda'r Cynghorau Iechyd Cymuned er mwyn defnyddio rhwydweithiau'r trydydd sector gystal ag y bo modd ynghyd â'i grwpiau o gleientiaid wrth ymgysylltu ac ymgynghori.

3.1. Arferion Da ar hyn o bryd: model y consortia; brocera; cysylltu darparwyr gwasanaethau cenedlaethol a lleol y trydydd sector

Efallai fod y ffaith fod y rhan fwyaf o ddarparwyr y trydydd sector a mentrau cymdeithasol yn gweithio ar raddfa fechan yn broblem o ran comisiynu a chaffael, ond efallai mai dyma'r union beth sydd ei angen ar ddinasyddion o ran darparu gwasanaethau personol, lleol, cyfannol, hyblyg a chyfranogol.

Mae'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol, wrth iddynt roi cymorth generig i'r trydydd sector lleol, wedi bod yn arwain datblygu mecanweithiau i fynd i'r afael â hyn.

Model y Consortia: Mae consortia'n cynnig ateb posibl drwy ddarparu gwasanaethau ar y cyd gan bartneriaethau'n cynnwys cyrff y trydydd sector a phartneriaid statudol. Mae gan gynllunwyr un pwynt penodol ar gyfer caffael pecynnau gwasanaeth i grwpiau penodol yn y boblogaeth ar sail ranbarthol a lleol. Gall consortia fod yn gynghrair hyblyg sy'n newid ac yn ail-lunio'i hun fel bo'r angen drwy ddarparu pecynnau gwasanaethau sy'n ddeinamig ac yn ymatebol.

Noddwyd cynllun peilot gan Lywodraeth Cymru o dan arweiniad Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Gyngor Gwirfoddol Sirol Conwy ddatblygu consortia greu cysylltiad di-fwlch rhwng gofal canolraddol a gwasanaethau'r trydydd sector lleol. Gelwir hyn yn brosiect CICS. Roedd modd i wasanaethau'r trydydd sector fynd i'r afael â'r bwlch a welwyd lle'r oedd cleientiaid wedi gwella'n gorfforol i'r graddau nad oedd angen gwasanaethau'r Tîm Gofal Canolraddol arnynt rhagor ond bod angen cymorth arnynt o hyd er mwyn ailafael yn eu hannibyniaeth. Mae'r cynllun hwn wedi bod yn llwyddiannus a'r nod yw prif-ffrydio'r dull hwn a'i ledaenu i fathau eraill o ddarparu gwasanaethau. Dyma aelodau'r consortia:

- Y Groes Goch Brydeinig, y corff sy'n cynnal swydd cydlynydd y gwasanaeth a gwirfoddolwyr
- Gofal Crossroads Gogledd Cymru, sy'n cynnal gwasanaeth seibiant i ofalwyr
- Partneriaeth Cyfeirlyfr Cymunedol Conwy
- Gwasanaeth Gofal Canolraddol Conwy

Brocera: Cyflwynwyd dwy swydd brocera gan Gyngor Gwirfoddol Sirol sir Benfro ym mis Hydref 2010. Eu gwaith hwy yw defnyddio gwybodaeth y trydydd sector lleol yn sir Benfro, er mwyn cefnogi gwaith Timau Adnoddau Cymunedol drwy frocera'r gwasanaethau y gall y trydydd sector eu darparu.

Bydd pobl sy'n ymdrin ag afiechyd yn aml yn ymdrin ag ystod o faterion eraill, megis incwm isel, ynysu cymdeithasol a thai anaddas, ac yn y sefyllfaoedd hyn, fe all cymorth ychwanegol wneud y gwahaniaeth rhwng aros gartref a gorfod cael eich derbyn i'r ysbyty neu i gartref gofal.

Er bod gan y GIG a'r Gwasanaethau Cymdeithasol rôl amlwg yn cynorthwyo pobl, mae'r trydydd sector ar ei orau'n darparu gwasanaethau nad ydynt ar gael drwy'r asiantaethau hyn, ac yn eu darparu mewn ffordd hyblyg. Mae'r trydydd sector eisoes yn darparu rhywfaint o wasanaethau craidd megis gofal hosbis, cymorth i

ofalwyr a phryd ar glud. Mae'r sector hefyd yn darparu ystod fawr o wasanaethau pwysig eraill yn amrywio o gymorth canser, i dorri ewinedd traed, i roi cyngor am fudd-daliadau. Darperir llawer o'r gwasanaethau hyn am ddim neu'n rhad ac fe ellir eu darparu mewn ffordd sy'n gweddu i anghenion y cleient.

Mae'r Timau Adnoddau Cymunedol wedi'u sefydlu i helpu pobl sydd â phroblemau iechyd fel nad oes yn rhaid iddynt dreulio cyfnod yn yr ysbyty neu mewn lleoliad gofal yn ddiangen. Dechreuodd y tîm cyntaf weithredu'n fuan yn 2010 yng Ngogledd sir Benfro: erbyn hyn mae pedwar tîm yn gwasanaethu'r sir i gyd, a'r broceriaid yn gefn i ddau dîm yr un. Bydd y timau'n cyfarfod bob wythnos a'r cyfarfodydd hynny'n cynnwys nyrsys rhanbarth, gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, ffisiotherapyddion a gweithwyr seiciatrig cymunedol. Mae adborth y Timau i'r Broceriaid yn awgrymu eu bod yn gwerthfawrogi eu cyfraniad at waith y Timau Adnoddau Cymunedol. Hyd yn hyn, mae'r Broceriaid wedi ymwneud ag o leiaf ddau gant o achosion, gan roi cyngor, ymchwilio i opsiynau neu atgyfeirio.

Cysylltu Darparwyr Cenedlaethol a Darparwyr Lleol y Trydydd Sector: Ym Mhowys, mae'r Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol gyda'r Cyngor Gwirfoddol Sirol yn arwain prosiect dysgu gweithredol sy'n annog mwy o ddarparwyr gwasanaethau'r trydydd sector yn genedlaethol ac yn lleol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol i gydweithio yn y sir. O dan reolaeth WCVA a than nawdd Llywodraeth Cymru, mae'r gwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael ag agwedd benodol ar wneud gwasanaethau'n fwy hygyrch mewn ardaloedd gwledig drwy ddatblygu modelau gwasanaeth integredig ac effeithlon, o dan y Cynllun Iechyd Gwledig. Mae prosiect Cyngor Gwirfoddol Sirol Powys:

- Yn canfod y pethau hynny sy'n rhwystro cyrff cenedlaethol a chyrff lleol y trydydd sector rhag cydweithio mewn ardal BILl
- Datblygu rôl brocera'r Cyngor Gweithredu Sirol o ran mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn
- Cyfrannu at werthuso gweithgarwch er mwyn creu dysgu ac arferion da i gynghorau Gwirfoddol Sirol eraill ac i'r trydydd sector eu rhoi ar waith.

4. Gwireddu Hyn: Galluogi Cyfraniad Llawn gan y Trydydd Sector Drwy Gymru

4.1. Rhwystrau ac Atebion

Yn gyntaf, mae angen i bobl allu manteisio ar wasanaethau cyhoeddus sy'n cael eu hariannu'n briodol ac sy'n canolbwyntio mwy ar y dinesydd pan fydd eu hangen arnynt, a'r rheini'n cael eu darparu gan y cyrff hynny sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu eu hanghenion. Mewn llawer achos, gall cyrff y trydydd sector gyflawni hyn, neu fe all dinasyddion gyfeirio'u gofal eu hunain.

Yn ail, mae pobl am weld integreiddio gwell o lawer rhwng gwasanaethau cyhoeddus ffurfiol a chymorth o fath arall yn y gymuned ar gyfer y rheini sy'n agored i niwed, ac y mae angen help ychwanegol arnynt i gynnal eu hannibyniaeth a'u lles. Mae enghreifftiau o hyn mewn rhai meysydd rhwng y trydydd sector, iechyd a gofal cymdeithasol ac mae angen dyblygu'r dulliau hyn yn fwy eang o lawer.

Mae angen cydgynllunio a chyd-ddarparu gwasanaethau cyhoeddus er mwyn sicrhau gwerth a chymorth ychwanegol i ddinasyddion:

- Cydbwysedd y ddarpariaeth bresennol, gan gynnwys y nifer gymharol sy'n manteisio ar y ddarpariaeth a'r costau cymharol, a sut mae gwahanol wasanaethau'n cydweddu â'i gilydd
- Y cydbwysedd sy'n ofynnol rhwng diwallu anghenion tymor byr, a datblygu strategaethau mwy hirdymor ar gyfer atal a hunanddibyniaeth
- Gwerth y gwasanaethau y gellid eu darparu, ac ystyried yr adnoddau ychwanegol/anghyhoeddus sydd ar gael

Yn sgil hyn, gallai comisiynwyr benderfynu:

- Beth yw'r patrwm a'r cymysgedd iawn ar gyfer darparu gwasanaethau er mwyn diwallu anghenion ar hyn o bryd ac yn y dyfodol
- Sut mae gwasanaethau unigol yn ategu ac yn atgyfnerthu darpariaeth o fath arall
- Y cydbwysedd rhwng gwasanaethau a ddarperir a gwasanaethau y bydd pobl yn eu rheoli eu hunain drwy gyllidebau personol, a'r cymorth y mae gofyn ei gael i hwyluso personoleiddio
- Pa wasanaethau y mae angen eu hariannu a sut (drwy grantiau, drwy dendro cystadleuol, fel sy'n briodol)
- Blaenoriaethau ar gyfer datblygu

Ar sail hyn, byddai'r gwaith comisiynu'n golygu y byddai modd agor y drws i bob darparwr sydd â diddordeb ddarparu unrhyw wasanaethau. Yna, byddai pob darparwr yn cael ei brofi ar sail ei allu i sicrhau'r canlyniadau gorau o ran costau ac o ran y budd i ddinasyddion. Sut mae cyrraedd y fan honno – cynigir cynllun gweithredu.

Bydd gan Aelodau Bwrdd y Trydydd Sector rôl benodol yn y cynllun gweithredu hwn, sef hyrwyddo'i roi ar waith a hyrwyddo ymgysylltu rhwng holl bartneriaid y BILlau gan fonitro cynnydd a chyrhaeddiad.

4.2. Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	arweinydd ac amserlen
1. Safoni darpariaeth y trydydd sector drwy Gymru lle bynnag y bo hynny'n bosibl ac yn briodol. **Prif Gamau Gweithredu:** **a. Sefydlu llinell sylfaen - cipio gwybodaeth am holl wasanaethau'r trydydd sector a ddarperir yn ardal pob Bwrdd Iechyd.** **b. Sicrhau bod y Trydydd Sector yn cael ei gysylltu â datblygu Canolbwyntiau Cyfathrebu lleol.** **c. Ar sail ymarfer meincnodi, dynodi gwasanaethau seiliedig ar dystiolaeth a fyddai'n sicrhau budd o'u darparu ledled Cymru.** **Galluogwyr:** • Swyddi Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol lleol • Datblygu Canolbwyntiau Cyfathrebu lleol • Datblygu Compactau'r trydydd sector • Aelodau trydydd sector y Bwrdd **Dangosyddion Canlyniadau a awgrymir:** • Compactau ar waith yn ardal pob bwrdd iechyd, yn unol â chynlluniau 5 mlynedd. • Sylfaen dystiolaeth wedi'i datblygu ar gyfer gwasanaethau y dylid eu darparu ledled Cymru • Canran yr ardaloedd lle mae'r trydydd sector yn ymwneud yn ffurfiol â datblygu Canolbwynt Cyfathrebu Ieol • Canran cyrff y trydydd sector sydd wedi'u cofrestru gyda Galw Iechyd Cymru a/neu gyda'r Canolbwynt Cyfathrebu leol o'i chymharu â'r ganran ar y cychwyn	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd** **Medi 2011**

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	amserlen
2. Manteisio ar bob cyfle i alluogi'r trydydd sector i gyfrannu at drawsnewid	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd**
Prif Gamau Gweithredu: **a. Nodi cyfraniadau'r trydydd sector yn adroddiadau'r Bwrdd Arloesi ac Effeithlonrwydd, y Compendiwm Sicrhau Newid mewn Gwasanaethau ac yn adroddiad Pontio'r Bwlch, gan ledaenu a hyrwyddo arferion da sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn ardal pob Bwrdd Iechyd.** **b. Ystyried gwerth ychwanegol cyfraniad y trydydd sector ym mhob model gwasanaeth newydd neu ym mhob model diwygiedig a ddatblygir yn ardal pob Bwrdd Iechyd.**	**Aelodau Bwrdd Arloesi ac Effeithlonrwydd WCVA** **Ebrill 2012**
Galluogwyr: • Cynlluniau pum mlynedd y Byrddau Iechyd • Y cyfeiriad Polisi Cenedlaethol tuag at wasanaethau integredig • Gwell effeithlonrwydd, lleihau gwastraff a dyblygu • Swyddi Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol lleol • Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	
Dangosydd Canlyniadau a awgrymir: • Canran y gwasanaethau sy'n cynnwys cyfraniad gan y trydydd sector o'i chymharu â'r % ar y cychwyn	

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	amserlen
3. Rhaid i wasanaethau'r trydydd sector allu cyfrannu'n frwd at y broses asesu a chynllunio gofal ffurfiol.	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd** **Arweinydd Polisi Llywodraeth Cymru ar Asesiad Unedig** **Gweithlu'r Bwrdd Iechyd a'r tîm OD Ebrill 2012**

Prif Gamau Gweithredu:

a. **Cysylltu'r trydydd sector yn ffurfiol â phrosesau Asesiad Unedig y Byrddau Iechyd o dan yr amgylchiadau hynny lle bydd cyrff y trydydd sector yn darparu rhan o'r gwasanaeth, neu'n gwneud gwaith eiriol ar ran defnyddiwr gwasanaeth ac/neu ar ran gofalwr.**
b. **Bydd ymagwedd y Bwrdd Iechyd at Asesu Unedig yn adlewyrchu'r gofyniad hwn ac yn sicrhau bod prosesau ar waith i gysylltu partneriaid y trydydd sector yn ffurfiol â'r broses asesu a chynllunio gofal.**

Galluogwyr:

- Mynediad at hyfforddiant a chymorth y Bwrdd Iechyd
- Proses Asesiad Unedig y Bwrdd Iechyd a'i hymgorffori mewn pecynnau Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg
- Adolygiad Llywodraeth y Cynulliad o'r Asesiad Unedig yn 2011/12

Dangosyddion canlyniadau:

- Canran staff y trydydd sector sy'n cyfrannu at becyn gofal sydd wedi'i chysylltu'n ffurfiol â phroses yr Asesiad Unedig

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	arweinydd ac amserlen
4. Rhaid i strategaethau comisiynu fynd ati'n rhagweithiol i goleddu'r trydydd sector **Prif Gamau Gweithredu:** **a. Y Trydydd Sector i'w gynnwys yn y prosesau cynllunio gwasanaethau priodol er mwyn sicrhau bod ei gyfraniadau'n cael eu hystyried yn briodol yn fuan yn y broses.** **b. Angen cydnabod cymalau cymdeithasol mewn Cytundebau Lefel Gwasanaeth lle bo hynny'n briodol a dylai contractau/grantiau adlewyrchu'r canlyniadau.** **c. Lle bo'n briodol, sefydlu Cronfa Allweddol ar gyfer y trydydd sector gyda'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol er mwyn galluogi ymyriadau lleol bychain sy'n cael dylanwad mawr ym maes gofal cymhleth.** **d. Adlewyrchu egwyddorion Cod Ymarfer y Compact Lleol ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector mewn prosesau comisiynu a chaffael lleol.** **e. Sefydlu Cofrestr o ddarparwyr presennol y trydydd sector sydd â chytundebau/contractau grant.** **Galluogwyr:** • Y Canllawiau Comisiynu diwygiedig ar gyfer ALl a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan Lywodraeth Cymru, Fulfilled Lives Supportive Communities Commissioning Framework Guidance and Good Practice 2010 (Saesneg yn unig) • Aelodau o'r Trydydd Sector ar y Bwrdd a chynlluniau datblygu pum mlynedd i Fyrddau Iechyd • Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Cod Ymarfer ar gyfer Ariannu'r Trydydd Sector 2009, compactau lleol gyda'r trydydd sector a chodau ymarfer lleol ar gyfer ariannu a chomisiynu **Dangosydd canlyniadau:** • Canran y trydydd sector sydd wedi'i chynnwys yn y prosesau cynllunio gwasanaethau. • Canran y Cytundebau Lefel Gwasanaeth sy'n cynnwys cymalau cymdeithasol • Canran y gwasanaethau newydd a gomisiynir gan y trydydd sector neu ganran y cynnydd • Canran yr ardaloedd sydd â chronfa allweddol • Canran yr ardaloedd sydd â chod ymarfer ariannu/comisiynu sy'n dweud yn glir ei fod yn parchu egwyddorion Cod Ymarfer Ariannu'r Trydydd Sector 2009	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd** **Cyfarwyddwr Cynllunio'r Bwrdd Iechyd** **Ebrill 2012**

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r canlyniadau a awgrymir	arweinydd ac amserlen
5. Mae darparwyr y trydydd sector yn aelodau o'r tîm amlddisgyblaeth **Prif Gamau Gweithredu:** **a. Cynrychiolwyr y trydydd sector i'w cynnwys fel rhan o'r broses cynllunio gofal pan benderfynir y byddant yn cyfrannu at y pecyn gofal cyffredinol, gan fod yn gefn i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr gael llais a dewis** **b. Gwaith datblygu Timau Amlddisgyblaeth y Rhaglen Gofal Iechyd Parhaus i gynnwys cynrychiolydd y Trydydd Sector yn rhan o'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen.** **c. Gwaith datblygu Timau Amlddisgyblaeth i gynnwys cyfeiriad at rolau'r trydydd sector fel rhan o'r Tîm lle bo hynny'n briodol.** **d. Defnyddio cyfeiriadur gwasanaethau'r Canolbwynt Cyfathrebu lleol er mwyn cyfeirio cleifion at wasanaethau'r trydydd sector** **Galluogwyr:** • Gwaith datblygu, hyfforddi a chefnogi Timau Amlddisgyblaeth y Rhaglen Gofal Iechyd Parhaus • Aelodau'r Bwrdd Iechyd • Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Hyfforddiant Timau Amlddisgyblaeth y Bwrdd Iechyd • Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles **Dangosyddion canlyniadau:** • Canran y Timau Amlddisgyblaeth sy'n cynnwys cynrychiolwyr y trydydd sector pan fydd y cynllun gofal yn golygu bod angen cyfraniad gan y trydydd sector. • Nifer a gyfeirir at wasanaethau'r trydydd sector yn ardal pob BILl.	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd** **Cydlynydd Timau Amlddisgyblaeth** **Ebrill 2012**

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r canlyniadau a awgrymir	amserlen

6. Rhaid i'r trydydd sector gydweithio i ddangos ansawdd eu gwasanaethau gan ddefnyddio'r Safonau ar gyfer Gofal Iechyd yng Nghymru.

Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd

Prif gam gweithredu:

a. **Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd i ddatblygu a gweithredu Rhaglen Cymorth i Gymru gyfan i alluogi cyrff y trydydd sector i ddefnyddio'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd drwy ddefnyddio'r 'Canllawiau' (How to Guide) gydag adnoddau dysgu a chymorth ar y cyd ar gyfer y trydydd sector a staff y Bwrdd Iechyd**

Galluogwyr:

- Tîm prosiect 'Canllawiau' (WCVA/Llywodraeth Cymru)
- Cynghorau Gwirfoddol Sirol
- Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dangosydd canlyniadau:

- Cynnydd yng nghanran cyrff y trydydd sector sy'n defnyddio'r Safonau ar gyfer Gwasanaethau Iechyd ac yn cwblhau'r portffolio hunanasesu.

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	amserlen
7. Defnyddio cyfleoedd newydd a chyfleoedd sydd ar gael eisoes yn well er mwyn gwella gwybodaeth a sgiliau yn y trydydd sector ac er mwyn gwella gwybodaeth am y trydydd sector.	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd** **Gweithlu'r Bwrdd Iechyd a Chyfarwyddwyr OD** **Cynghorau Gwirfoddol Sirol** **Ebrill 2012**

Prif Gamau Gweithredu:

a. **Y trydydd sector wedi'i gynnwys mewn cyfleoedd hyfforddi a datblygu priodol a ddarperir gan Fyrddau Iechyd. Mae'r cyfleoedd hyn yn ychwanegol at yr hyfforddiant craidd sydd ar gael drwy'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol.**
b. **Byrddau Iechyd i hwyluso hyfforddiant i'w staff ynglŷn â rôl y trydydd sector.**

Galluogwyr:

- Gweithlu a rhaglenni hyfforddi OD.
- Aelod trydydd sector y Bwrdd
- Cyfleoedd i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol
- Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dangosyddion canlyniadau:

- Canran staff y trydydd sector sy'n medru manteisio ar gyfleoedd hyfforddi ar y cyd
- Canran staff y Bwrdd Iechyd sy'n cael hyfforddiant ynglŷn â rôl y trydydd sector

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	arweinydd ac amserlen
8. Mynd ati'n frwd i gynyddu a gwella'r cymorth i Ofalwyr.	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd**
Prif Gamau Gweithredu: **a. Gyda golwg ar Fesur y Strategaeth Gofalwyr a gwaith cysylltiedig â Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy: Fframwaith ar gyfer Gweithredu, cyfrannu at y Canolbwyntiau Cyfathrebu a'u cefnogi drwy ddefnyddio'r model adnoddau cymunedol ar gyfer darparu gofal sylfaenol, ac adeiladu ar y dull a ddefnyddir eisoes mewn canolfannau gofalwyr yng Nghymru er mwyn agor y drws ar wybodaeth; ar hyfforddiant i ofalwyr di-dâl mewn meysydd megis codi a chario a rheoli haint; a bod yn gefn emosiynol** **b. Gweithio i gytuno ar un ffordd gyffredin i ofalwyr allu manteisio ar y gwasanaethau cynhwysfawr hyn yng Nghymru ac i sefydlu trefn o'r fath.** **c. Gweithio i gefnogi'r rhan y bydd gofalwyr yn ei chwarae mewn Asesiadau Unedig a Thimau Amlddisgyblaeth**	**Arweinwyr gofalwyr ym mhob Bwrdd Iechyd**
Galluogwyr: • Mesur y Strategaeth Gofalwyr • Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu • Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd • Fforymau Gofalwyr • Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol • Strategaethau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles	
Dangosyddion canlyniadau: • Cytuno ar safon gwasanaeth gyffredinol • Canran yng Nghymru sy'n gallu manteisio ar y safon hon • Canran y Timau Amlddisgyblaeth, Asesiadau Unedig a phrosesau rhyddhau sy'n cynnwys gofalwyr	

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	arweinydd ac amserlen
9. Deall a gwella'r defnydd a wneir o'r trydydd sector wrth ofalu am bobl sydd â chyflyrau arbenigol.	**Aelod trydydd sector y Bwrdd** **Ymarferwyr sy'n cyfrannu at gynllunio'r pontio** **Ebrill 2012**

Prif Gamau Gweithredu:

a. **Lle bo hynny'n briodol, pob Bwrdd Iechyd i ddadansoddi'r bylchau er mwyn gweld sut y mae Byrddau Iechyd yn defnyddio cyrff y trydydd sector wrth gynllunio a darparu gwasanaethau ar gyfer pobl sydd â chyflyrau arbenigol.**
b. **Gweld beth yw cyfraniad y trydydd sector o ran cynorthwyo pobl ag anghenion arbenigol yn ystod y broses pontio wrth i blant a phobl ifanc symud i wasanaethau oedolion.**

Galluogwyr:

- Arbenigedd gwasanaethau arbenigol yn y Byrddau Iechyd
- Aelod trydydd sector y Bwrdd
- Cynllunio gwasanaethau ar gyfer gwasanaethau arbenigol yn y Byrddau Iechyd.
- Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dangosyddion canlyniadau:

- Canolbwyntiau cyfathrebu'n cynnig map clir o gyfraniadau'r trydydd sector wrth gynllunio gofal ar gyfer cyflyrau arbenigol
- Nodi bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir
- Nodi'r cymorth sydd ar gael ar gyfer cynllunio'r cyfnod pontio

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	arweinydd ac amserlen
10. Gwella mynediad a chynllunio rhagweithiol ar gyfer rhyddhau. **Prif Ystyriaethau:** **a. Y trydydd sector i gysylltu â hyfforddi a datblygu ym maes cynllunio ar gyfer rhyddhau yn y Byrddau Iechyd, fel llwybr i roi gwybod i ymarferwyr gweithredol am rolau'r trydydd sector mewn cynlluniau rhyddhau amserol effeithiol.** **b. Pob Bwrdd Iechyd i fod â strategaeth ar waith ynglŷn â mynediad at wasanaethau'r trydydd sector sydd ar gael yn ei ardal** **Galluogwyr:** • Cysylltiadau â Cham Gweithredu 1,3 a 5 • Aelod trydydd sector y Bwrdd • Cynlluniau hyfforddi a datblygu'r Byrddau Iechyd • Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Dangosyddion canlyniadau:** • Canran a ryddheir y mae'r trydydd sector yn cyfrannu at eu cynllun gofal parhaus • Canran o'r Byrddau Iechyd sydd wedi casglu tystiolaeth a gwybodaeth am wasanaethau'r trydydd sector sy'n gefn i drefniadau rhyddhau'n brydlon, gan gysylltu â 5d) uchod	**Gweithlu ac OD o mewn Byrddau Iechyd** **Aelod trydydd sector y Bwrdd** **Ebrill 2012**

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	amserlen
11. Mae gan bobl a theuluoedd fwy o wybodaeth ac ymwybyddiaeth o wasanaethau'r trydydd sector a sut mae cael gafael arnynt	**Aelod trydydd sector y Bwrdd** **Staff datblygu gofal sylfaenol Byrddau Iechyd** **Ebrill 2012**
Prif Gamau Gweithredu: **a. Byrddau Iechyd i weithio gyda Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol i gasglu gwybodaeth a gedwir am gyfraniadau'r trydydd sector a sicrhau bod yr wybodaeth ar gael yn rhwydd** **b. Byrddau Iechyd i archwilio sut y gellir tynnu sylw ymarferwyr gofal sylfaenol at gyfraniadau'r trydydd sector er mwyn i bobl allu manteisio arnynt yn y gymuned drwy gyfrwng y Canolbwyntiau Cyfathrebu** **c. Gwybodaeth y Canolbwyntiau Cyfathrebu i'w hadolygu er mwyn sicrhau ei bod yn cael ei diweddaru'n gyson a'i bod yn darparu manylion cysylltu** **Galluogwyr:** • Aelod trydydd sector y Bwrdd • Swyddogion gwybodaeth i gleifion • Swyddogion datblygu gofal sylfaenol mewn Byrddau Iechyd • Tîm datblygu Galw Iechyd Cymru • Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Rhwydweithiau Iechyd a Gofal Cymdeithasol **Dangosydd canlyniadau:** • Canran cyrff y trydydd sector ar Galw Iechyd Cymru a/neu yn y Canolfannau Cyfathrebu (gweler rhif 1 uchod)	

Argymhellion, camau gweithredu allweddol a'r dangosyddion canlyniadau a awgrymir	amserlen
12. Cynnwys y cynllun gweithredu hwn mewn prosesau perfformiad trefniadaethol, cynllunio a datblygu.	**Aelodau Trydydd Sector y Bwrdd**
Prif Gamau Gweithredu: **a. Pob Bwrdd Iechyd i gysylltu'r camau gweithredu a argymhellir yn y cynllun gweithredu hwn â'r gwaith a wneir fel rhan o broses datblygu'r COMPACTAU.** **b. Diweddariadau chwarterol i'w darparu ar gyfer pob Bwrdd Iechyd ac ar gyfer y trydydd sector drwy eu lledaenu gan WCVA** **c. Adolygu'r cynnydd yn Ebrill 2012 gyda WCVA a Llywodraeth Cymru** **d. Fel rhan o'r adolygiad, datblygu dangosyddion mwy tymor hir ar gyfer Cynlluniau Gweithredol Blynyddol y BILI.**	**Ebrill 2012**
Galluogwyr: • Gweithlu gwasanaeth a mecanwaith cynllunio ariannol pum mlynedd • Cynllun Ansawdd Blynyddol y GIG 2011	
Dangosyddion canlyniadau: • Cyfanswm gwerth gwasanaethau gofal iechyd a gomisiynwyd gan y trydydd sector ar gyfer pobl ledled Cymru • Cyfanswm y bobl ag anghenion cymhleth sy'n cael gwasanaethau a gomisiynwyd gan y trydydd sector	

5. Atodiad - Enghreifftiau o Wasanaethau

Pwrpas yr enghreifftiau o wasanaethau yn yr Atodiad hwn yw dangos ystod y gwasanaethau, y cynlluniau, a'r swyddogaethau y mae cyrff y Trydydd Sector yn gefn iddynt yng Nghymru.

Ni fwriedir i'r gwasanaethau a'r cynlluniau isod fod yn rhestr gynhwysfawr o'r holl wasanaethau a ddarperir gan y Trydydd Sector yng Nghymru – enghreifftiau ydynt o'r llu o gynlluniau a gwasanaethau sydd ar gael i helpu pobl i fyw mor annibynnol ag y bo modd ac i'w helpu o ddydd i ddydd.

Mae'r enghreifftiau a roddir yn amrywio o wasanaethau sy'n dibynnu'n bennaf ar wirfoddolwyr ac sy'n ceisio rhoi cymorth i bobl yn eu cartrefi eu hunain drwy roi help cyffredinol iddynt, i ddarparu gofal cymhleth, gan gydweithio â'r gwasanaethau statudol i helpu pobl y mae angen cryn ofal a chymorth arnynt. Mae Cynlluniau 1 i 15 yn dangos y gwasanaethau hynny a ddarperir ar sail gymysg gwirfoddol/cyflog, ac mae cynlluniau 16 - 30 yn dangos y gwasanaethau a ddarperir gan staff cyflog.

Nod cyffredinol y gwasanaethau hyn yw manteisio i'r eithaf ar gyfleoedd i bobl fod yn annibynnol, a chaniatáu iddynt fyw mor annibynnol ag y bo modd yn y gymuned.

Rhoddir manylion cysylltu ar gyfer pob enghraifft - mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r cyswllt hwnnw.

Rhestr o Gynlluniau Adran 1: Cynlluniau cymysg - gwirfoddol a chyflog

5.1 Cynllun Rhandir Cymunedol TARAGGAN

5.2 Clwb Cinio WRVS Gwelfor

5.3 Prosiect Datblygu Clybiau Cinio, Wrecsam

5.4 Pryd ar Glud WRVS sir Gaerfyrddin

5.5 Cynllun Bwyta, Sgwrsio a Siopa

5.6 Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol

5.7 Datblygu cymorth teg gan y Trydydd Sector ym Mhowys

5.8 Dewis a Chynhwysiant Cymunedol, Sir Benfro

5.9 Prosiect Peilot Gwarchodwyr Iechyd Gwirfoddol Cymunedol

5.10 Menter Min Nos Sir Gaerfyrddin

5.11 Age Concern - Rhyddhau o'r Ysbyty, Ymateb Brys Gwent

5.12 CIC Cymunedol Conwy

5.13 Touch Trust

5.14 Gwasanaethau'r Groes Goch Brydeinig a ddarperir ledled Cymru

5.15 Tîm Cymorth Canser Tenovus

Rhestr o Gynlluniau Adran 2: Cynlluniau Ffurfiol

5.16 Age Concern -Gwasanaeth Atal Gorfod Derbyn Cleifion i'r Ysbyty yng Ngwent

5.17 Age Concern - Gwasanaeth Gofal Seibiant Gwent

5.18 Gofal Crossroads

5.19 Asesiadau Gofalwyr Powys

5.20 Gwasanaeth Ymateb Brys yn y Cartref, Powys

5.21 Age Concern - Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, Gwent

5.22 Robense House

5.23 Gofal Parhaus Sir Gaerfyrddin

5.24 Kaleidoscope Casnewydd

5.25 Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

5.26 Clipiau Fideo Profion Iechyd (MENCAP)

5.27 Ymgyrch Gwneud Pethau'n Iawn

5.28 Cynllun Lles Gofalwyr (Gwasanaeth Gofal Canolraddol)

5.29 Gwaith Pontio Allweddol

5.30 Ailfodelu Gwasanaethau Dydd Monnow Vale

5.1. Rhandir Cymunedol TARAGGAN, Bargoed.

Manylion Cysylltu: **Mark Ellis**
Mentro Allan, 8 Under Cardiff Road, Bargoed. CF81 8NZ
☎ 01443 878958
✉ Mark.Ellis@gavowales.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol

Newid 1 yw'r newid sy'n cael ei gefnogi fwyaf gan y prosiect: Osgoi tarfu ar y lleoliad gofal arferol. Fel y dywedir yn y 10 Newid Dylanwadol - sicrheir bod modd i rywun aros yn annibynnol drwy ddefnyddio pob cyfle i hyrwyddo byw'n annibynnol. Bydd y cyfleoedd hyn yn codi'n aml cyn i rywun gael diagnosis ar gyfer salwch, ac ar y pwynt hwn y bydd rhandir cymunedol TARRAGAN yn gorgyffwrdd â'r rhaglen newidiadau dylanwadol. Drwy ddarparu gwybodaeth am faeth, a'r cyfle i fod yn egnïol yn yr awyr agored, gall defnyddwyr gwasanaethau wneud dewisiadau a phenderfyniadau ar sail gwybodaeth am eu ffordd o fyw a'u lles yn y dyfodol.

Yn y tymor hwy, mae rhaglen o'r fath yn debygol o wella iechyd defnyddwyr gwasanaethau drwy hyrwyddo maethiad cytbwys. At hynny, mae'r dull a ddefnyddir er mwyn cyflawni hyn, drwy ddefnyddio rhandir *cymunedol* lle bydd nifer fawr o bobl o bob cefndir yn gweithio, yn debygol o liniaru ofn colli annibyniaeth gan fod rhywun yn meithrin rhwydwaith cryf o gyfeillion a chydweithwyr.

Mae'r prosiect hefyd yn gorgyffwrdd â Newid 9 yn yr ystyr bod y gwasanaeth wedi pwysleisio gwaith cydweithredol ymhlith nifer o gyrff y trydydd sector a chyrff statudol (er nad ym maes Iechyd yn benodol).

Cydweithredu: Cydweithredu clos rhwng nifer o gyrff gwirfoddol a llywodraeth leol sydd wedi bod wrth wraidd prosiect TARAGGAN ac yn gyfrifol am lawer o'i lwyddiant. Daeth Mark Ellis o brosiect Mentro Allan (sy'n hybu gweithgarwch awyr agored) a chydweithiwr, Ron, at ei gilydd yn 2007, i lunio cynllun busnes er mwyn ddatblygu'r safle. Dros y misoedd a'r blynyddoedd wedyn mae'r tasglu cymunedol, *Groundwork,* wedi darparu gwirfoddolwyr ac yn *2009* darparwyd arian drwy'r cynllun *Cymunedau Glanach, Gwyrddach* er mwyn gallu codi ffensys a chludo pridd wyneb i'r safle. Bryd hynny, tyfodd diddordeb yn y prosiect yn gyflym ac agorodd y rhandir ei ddrysau i'r gymuned gyfan. Ar ôl iddi gyrraedd ar y diwrnod agored a gweld y gwaith da, penderfynodd Lindsay Whittle o Gyngor Bwrdeistref Caerffili ein cynorthwyo gyda'r nod o osod pafin er mwyn i bobl anabl allu cyrraedd y safle. Erbyn hyn, mae'r cyngor sir lleol yn defnyddio rhandir TARAGGAN yn esiampl i brosiectau rhandiroedd eraill er mwyn i lwyddiannau Bargoed gael eu hailadrodd drwy'r sir. Dim ond drwy'r cydweithredu hwn rhwng gwahanol gyrff y mae prosiect TARAGGAN wedi tyfu mor gyflym ac wedi llwyddo i'r fath raddau.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Canlyniad cydweithio rhwng *Mentro Allan, Cymunedau Glanach, Gwyrddach,* a thrigolion lleol yw Rhandir Cymunedol TARRAGAN Mae yno ugain o leiniau a thri gwely plannu ac mae'r rhandir yn caniatáu i grwpiau ysgol, mudiadau gwirfoddol, a thrigolion blannu llysiau organig a thyfu amrywiaeth o blanhigion, gan gynnwys gardd rosynnau newydd.

Yn y misoedd ers i'r rhandir agor, mae'r cnwd cyntaf o berlysiau a llysiau wedi'i gynaeafu'n llwyddiannus, ac mae'r prosiect wedi cynnwys grwpiau ac unigolion sy'n garddio ac yn gwneud gwaith cadwraeth, gan hybu ffyrdd iachach o fyw drwy weithgarwch awyr agored a deiet cytbwys. At hynny, mae'r prosiect wedi dechrau gweithio fel canolfan i weithgareddau cymunedol lleol yn y ganolfan addysg drwy gynnal digwyddiadau codi arian megis diwrnod Mefus a Hufen a marchnad leol i werthu ffrwythau a llysiau.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Nod prosiect TARRAGAN yw hyrwyddo a gweithio gyda'r gymuned i wella'r amgylchedd a sicrhau amgylchedd iachach i bobl Ystâd Gilfach a'r ardaloedd cyffiniol. Cyflawnir hyn drwy'r amcanion a ganlyn:

- Darparu digwyddiadau cymunedol.
- Datblygu cynllun byw'n iach drwy weithgareddau hamdden a chymdeithasol.
- Hybu gwaith trawsgenhedlaeth ac ysbryd cymunedol.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Mae rhandiroedd TARRAGAN yn newydd. Newydd orffen eu tymor tyfu cyntaf y maen nhw. Er hynny, gall y prosiect frolio sawl llwyddiant, yn bennaf o ran gwella'r canlyniadau i unigolion a hybu cydlyniant yn y gymuned ac ymhlith grwpiau o bobl a fyddai wedi'u hynysu fel arall.

Drwy feithrin ymwneud â bwyd yr holl ffordd o'r pridd i'r plât bwyd, mae prosiect TARAGGAN yn addysgu trigolion – yn enwedig plant ysgol – ynglŷn â phwysigrwydd maethiad. Mae hyn yn debygol o arwain at ganlyniadau iechyd a gofal cymdeithasol tymor hir.

Mae grŵp TARAGGAN yn ceisio hybu gwaith trawsgenhedlaeth ac ysbryd cymunedol, ac mae'n llwyddo i wireddu hyn drwy greu man lle y gall pobl amrywiol ddod at ei gilydd a chymryd rhan mewn raglenni penodol. Drwy'r *Llwybrau at Addysg*, er enghraifft, bu nifer o blant pymtheg oed yn cyfrannu at waith y rhandir, ac wedi hynny, bu'r rhain yn paratoi lleiniau i'r plantos. Goruchwyliwyd y gwaith hwn gan nifer o staff TARAGGAN, llawer ohonynt o oedran ymddeol, gan gynnig cyfle i'r gwahanol genedlaethau gydweithredu.

Mae'r bobl sydd wedi bod yn gweithio ar ugain llain rhandir TARAGGAN ac ar y tri gwely gwastad wedi llwyddo i dyfu amrywiaeth o blanhigion a llysiau, ac wrth wneud hynny, maent wedi profi bod pob aelod o'r gymdeithas yn gallu cymryd rhan a garddio. Serch hynny, nid dim ond faint o fwyd a gynhyrchir yw'r unig ffordd o fesur y canlyniadau. Mae nifer sylweddol o bobl hŷn yn weithgar ar y rhandir ac felly'n cael ymarfer corff ac yn cael eu bywiogi. Ni fyddai hyn yn digwydd fel arall. At hynny, gan mai ardal gymunedol yw'r rhandir, mae'r prosiect wedi *lleihau'r rhwystrau sy'n atal pobl rhag ymwneud yn gymdeithasol â phobl eraill ac mae'r rhain yn bobl a fyddai wedi'u hynysu fel arall.* Mae grŵp TARAGGAN erbyn hyn yn cynnig teithiau i'r bobl sy'n ymwneud â'r prosiect, e.e. i Gaerdydd yn ddiweddar ar gyfer diwrnod San Padrig. Mae hyn yn gyfle a werthfawrogir yn fawr gan staff cyflog, gan staff digyflog, gan wirfoddolwyr a chan y rheini sy'n gweithio ar y rhandiroedd, am fod hyn yn help iddynt wneud ffrindiau a chreu cysylltiadau. At hynny, mae'r rhandiroedd yn cynnig cyfleoedd i bobl ag anableddau dysgu. Fel llecyn gwyrdd sy'n rhoi cyfle i unigolion gymryd rhan, bydd defnyddwyr gwasanaethau sydd â chyflyrau megis Awtistiaeth yn ymweld yn rheolaidd ac yn cael boddhad wrth wneud cyfraniad

gwerthfawr i'r rhandir. Maent hefyd yn mwynhau manteision ymwneud â phobl yn gymdeithasol, gan dreulio amser gyda defnyddwyr eraill y rhandir pan fyddant yn ymweld.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Ar ôl ei sefydlu ei hun yn nodfan leol, mae prosiect TARAGGAN wedi cael cymeradwyaeth gan Gyngor Bwrdeistref Caerffili gan gynnwys *Gwobr Ddinesig* gan y maer a chafodd *Wobr Amgylchedd 2009* yng ngwobrau'r sector gwirfoddol yng Nghaerffili hefyd. Mae TARAGGAN yn awr yn ceisio hybu ei rôl fel canolfan lle gall y cenedlaethau ymwneud â'i gilydd ac mae'n destun balchder mawr yn lleol. Mae'n cystadlu am *Wobr MBE y Frenhines* am wasanaethau i'r gymuned.

Mae rhandir TARAGGAN yn cael ei ddefnyddio yn awr gan Fwrdeistref Caerffili yn esiampl ar gyfer prosiectau rhandiroedd eraill er mwyn i lwyddiannau Bargoed gael eu hailadrodd drwy'r sir.

Mae llwyddiant y prosiect yn amlwg wrth gyfweld â'r rheini sy'n ymwneud â'r prosiect. Mae WCVA yn defnyddio prosiect TARRAGAN yn esiampl Arferion Da ym maes Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles ac mae dyfyniadau gan ddefnyddwyr gwasanaethau yn dangos bod y prosiect yn llwyddo i wella'r canlyniadau i unigolion drwy eu helpu i fod yn llai ynysig a thrwy wella'u gwybodaeth am faethiad.

Costau:

Ni ddarparwyd dim.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Prosiect cymysg yw hwn; mae tri o staff cyflog a deg o wirfoddolwyr. Daw'r arian i dalu am staff o ffynonellau allanol a thrwy godi arian, ac mae'r prosiect yn arddel gwerthoedd cydgynllunio a chyd-ddarparu. Felly, mae sawl un o'r gwirfoddolwyr hefyd yn ddefnyddwyr gwasanaethau.

Gwybodaeth ychwanegol:

Gweler Portffolio Arferion Da Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles WCVA.

5.2. Clwb Cinio WRVS Gwelfor

Manylion Cysylltu:

Canolfan Gymunedol Gwelfor
Ffordd Tudur, Caergybi, Ynys Môn, LL65 2DH
☎ 01407 763559

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

- Gwasanaethau integredig a phartneriaethau effeithiol – yn cydweithio â Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Sir Ynys Môn ac yn gweithio tuag at wasanaeth cyfeillio a gwybodaeth yn yr ardal.
- Gofal tymor hir ymatebol – Helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain am gyfnod hwy.
- Gweithlu sydd wedi'i gynllunio i wasanaethu anghenion cymhleth – byddwn yn gweithio gyda phartner-sefydliadau i ddatblygu gwasanaethau a phrosesau i helpu defnyddwyr gwasanaethau yn eu cymuned.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Dechreuodd y Clwb ym mis Mehefin 2004 ac mae'n cyfarfod bob dydd Llun ac eithrio ar Wyliau Banc. Bydd tîm o wirfoddolwyr yn cyrraedd yn gynnar yn y bore i baratoi'r ystafell ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth. Bydd dau aelod o staff cyflog yr WRVS, cogydd a chogydd cynorthwyol, yn paratoi prydau bob dydd Llun gan ddefnyddio bwyd ffres o ffynonellau lleol. Bydd defnyddwyr y gwasanaeth yn dewis o fwydlen wythnos ymlaen llaw, ac mae honno'n darparu ar gyfer holl anghenion deiet pobl ac yn sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn cael pryd o fwyd tri chwrs poeth maethlon. Bydd gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn yn darparu cludiant i'r clwb ac oddi yno, gan sicrhau bod pawb sydd am fynd yno'n gallu gwneud hynny. Bydd rhai o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cyrraedd ar gludiant cyhoeddus ac mae eraill yn byw'n ddigon agos i gerdded. Bydd oddeutu pedwar deg o ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eistedd i fwyta bob wythnos.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Darparu pryd o fwyd maethlon ar gyfer pobl hŷn yr ardal
- Cynnig cyfle i bobl ymwneud â'i gilydd yn gymdeithasol
- Gwella lles defnyddwyr y gwasanaeth a'r gwirfoddolwyr
- Cynnig gofal ac adloniant mewn awyrgylch cymunedol
- Sylwi ar newidiadau mewn iechyd ac ymddygiad yn fuan

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Er na fyddwn ni'n mesur canlyniadau'r prosiect yn benodol, mae'n amlwg bod angen y gwasanaeth yn yr ardal hon, mae'n denu niferoedd mawr o ddefnyddwyr i'r gwasanaeth yn rheolaidd; i rai efallai mai dyma'r unig dro y byddant yn mynd allan yn ystod yr wythnos a'u hunig gyfle i ymwneud â phobl yn eu cymuned.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Mae'r clwb wedi bod ar waith ers mis Mehefin 2004 ac mae'n dal i fod yn brysur ac yn cael ei ddefnyddio'n helaeth gan bobl yn yr ardal. Mae'r rhan fwyaf o'r gwirfoddolwyr a ddechreuodd y clwb yn dal i wirfoddoli ac yn dal i wneud hynny nes bod eu hiechyd yn pallu. Mae ysbryd 'hapus' yn y clwb, ac mae holl ddefnyddwyr y gwasanaeth yn gwerthfawrogi eu pryd o fwyd a chael cymdeithasu â phobl eraill. Maent yn cynnal rafflau, a bydd rhai yn aros i chwarae bingo ar ôl cael bwyd. Bydd llawer o'r rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn bobl nad ydynt yn mynd i ddigwyddiadau cymdeithasol eraill yn ystod yr wythnos.

Bydd gwirfoddolwyr yn chwarae rhan hollbwysig yn y prosiect hwn ac mae'r ffaith eu bod yn gwasanaethu am gyfnod mor hir yn arwydd o'u hymrwymiad a'u cefnogaeth.

D.S. cyn bo hir, byddwn yn cofnodi 'gweithgarwch rhanbarthol' bob mis i sicrhau bod ein gwasanaethau'n diwallu gofynion pobl hŷn ein rhanbarth; bydd hyn yn rhoi'r dystiolaeth inni allu ehangu ein gwasanaethau er mwyn ymateb i anghenion defnyddwyr ein gwasanaeth.

Costau:

Codir £5 ar ddefnyddwyr y gwasanaeth.
Mae'r tâl yn ddigon i dalu am eu pryd ac am eu cludo i'r clwb ac adref os byddant yn defnyddio'r cludiant. Mae'r raffl yn codi ychydig mwy o arian i dalu am gost darparu'r gwasanaeth.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Dau staff cyflog – Cogydd a Chogydd Cynorthwyol
Bydd gwirfoddolwyr y WRVS yn paratoi'r ystafell, yn gweini'r bwyd, yn clirio'r ystafell ac yn cynnig cyfle i bobl sgwrsio/trafod, codi unrhyw bryderon neu broblemau; sylwi ar unrhyw newid personol e.e. colli pwysau, drysu, newid o ran personoliaeth ac ati.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gan Ganolfan Gymuned Gwelfor wefan a chylchlythyr chwarterol ac mae'r ddau'n sôn am Glwb Cinio'r WRVS.
www.gwelforcommunitycentre.com

5.3. Prosiect Datblygu Clybiau Cinio

Manylion Cysylltu:

Elaine Blease
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Gofal Cymdeithasol i Oedolion
Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam LL13 8BG
☎ 01978 298619
Ffacs: 01978 298029
✉ Elaine.Blease@Wrexham.gov.uk

Christine Brownridge
Clwb Cinio / Swyddog Datblygu Surefeet
Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru
Ystafell 2, Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug, Sir y Fflint CH7 1AP
☎ 08450 549969
✉ CBrownridge@acnew.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Ni ddarparwyd dim.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Bwriedir ceisio dod o hyd i grant gwerth cyfanswm o £50k ar gyfer cynllun datblygu Clybiau Cinio yn y flwyddyn hon, tra bydd swyddogion yn gweithio gydag Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru a Swyddog Cynllunio a Datblygu'r Strategaeth Pobl yn i benderfynu beth yw'r ffordd orau o fynd ati i gynyddu nifer y clybiau sydd ar waith.

Bwriedir cynnig grantiau bychain gwerth hyd at £5K i gyrff a fydd yn barod i sefydlu clybiau cinio newydd, fel blaenoriaeth gyntaf, ac fel ail flaenoriaeth i'r rheini a fydd yn datblygu gweithgareddau sy'n cefnogi'r agenda iechyd a lles yn y clybiau sydd ar waith eisoes .

Nodau ac amcanion y prosiect:

Cynyddu nifer y Clybiau Cinio yn y Fwrdeistref drwy:

- grantiau cychwyn gan yr Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion
- datblygu Clybiau Cinio mewn tafarndai a bwytai
- integreiddio Clybiau Cinio a oedd gynt yn gweithredu'n annibynnol i'r rhwydwaith cyngor a chymorth

Penodwyd gweithiwr rhan-amser i ddatblygu'r clybiau cinio drwy Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru (ACNEW) i gynorthwyo i sefydlu Clybiau Cinio mewn ardaloedd lle mae'r gwasanaethau'n wael, i archwilio modelau llai traddodiadol o ddarparu gwasanaethau, ac i helpu i recriwtio gwirfoddolwyr.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Sicrhau bod mwy o Glybiau Cinio'n cael eu sefydlu a'u datblygu drwy gyfrwng cymorth grant a chymorth o fathau eraill.
- Sicrhau rhagor o ymgynghori ac ymgysylltu.
- Ehangu'r cyngor a'r arweiniad ynglŷn ag arferion da a chynaliadwyedd.
- Darparu cymorth drwy waith allgymorth, cyfathrebu a rhwydweithio.
- Agor drws y Clybiau Cinio i nifer fwy o bobl hŷn, a fydd yn elwa o gael pryd poeth maethlon, gweithgarwch a chyfeillgarwch.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Mae nifer y Clybiau Cinio ar draws y Fwrdeistref Sirol wedi cynyddu o 18 ym mis Mawrth 2009 i 28 ym mis Mawrth 2010, gan gyrraedd y targed, sef 10 Clwb Cinio ychwanegol yn y flwyddyn ariannol. Mae nifer y lleoedd mewn clybiau cinio wedi cynyddu o 541 ym mis Mawrth 2009 i 783 ym mis Mawrth 2010, gan ddarparu 242 o leoedd ychwanegol.

Tynnwyd pedwar o glybiau a oedd yn gweithredu'n annibynnol i mewn i'r rhwydwaith cymorth gan ddarparu lleoedd i 67 o bobl, ac mae dau ohonynt wedi cael grantiau datblygu.

Mae dau glwb cinio arall wedi'u sefydlu mewn bwytai heb ddim arian grant, gan ddarparu lleoedd i 60 o bobl. Recriwtiwyd cydlynwyr gwirfoddol i'r clybiau cinio hyn gan ddarparu rhaglen cynefino iddynt gan ACNEW.

Mae Clybiau Cinio wrthi'n cael eu datblygu mewn tair ardal. Pan fydd y clybiau hyn ar agor, gallent ddarparu lleoedd i oddeutu 65 o bobl. Mae'r gweithiwr datblygu wedi cysylltu â Chynghorau Cymuned ym mhob ardal i'w hannog i gychwyn clwb. Cysylltir â 15 ardal arall a dargedwyd ar gyfer eu datblygu yn y dyfodol.

Costau:

Dyrannwyd cyllideb o £75K ar gyfer datblygu Clybiau Cinio yn 2009-10. Cyfanswm y gwariant ar gyfer y flwyddyn oedd oddeutu £26,735, a hynny i gefnogi a datblygu gwasanaeth ar gyfer 783 o bobl (gwariant ar gyfartaledd o £34.14 y pen).
Dyfarnwyd £5,309 ar gyfer grantiau cychwyn yn 2009-10, gan gefnogi datblygu pedwar Clwb Cinio newydd a oedd yn darparu lleoedd i 115 o bobl. Cost creu'r lleoedd newydd hyn mewn clybiau cinio oedd £46.16 y pen.
Cynorthwywyd naw o glybiau cinio sydd ar waith eisoes drwy roi grantiau unigol gwerth £6,592.79 iddynt i ddatblygu eu gwasanaethau yn 2009-10.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Penodwyd gweithiwr datblygu clybiau cinio rhan-amser drwy Age Concern Gogledd Ddwyrain Cymru (ACNEW) i gefnogi sefydlu Clybiau Cinio mewn ardaloedd lle mae'r gwasanaethau'n wael, i archwilio modelau llai traddodiadol o ddarparu gwasanaethau, ac i helpu i recriwtio gwirfoddolwyr.

Gwybodaeth ychwanegol:

http://www.acnew.org.uk/
http://www.wrexham.gov.uk/

Cylchlythyr clybiau cinio / taflenni Clybiau Cinio Age Concern

5.4. Pryd ar Glud Sir Gaerfyrddin

Manylion Cysylltu:

WRVS, Canolfan Ddydd Crosshands, Neuadd Goffa, Heol Caerfyrddin, Llanelli, Sir Gaerfyrddin, SA14 6SU
☎ 01269 843819
✉ carmarthenshirems@wrvs.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r gwasanaeth Pryd ar Glud yn cyflawni'r canlynol:
Newidiadau Dylanwadol – 1,3,4,6,7,8 a 9

Cefndir cryno'r Prosiect

Mae WRVS wedi bod yn darparu gwasanaethau Pryd ar Glud yn llwyddiannus ers 70 mlynedd a mwy. Seilir ein profiad ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn gan ddefnyddio pobl broffesiynol sy'n darparu gwasanaeth gofalgar, proffesiynol i bobl agored i niwed yn eu cymunedau eu hunain.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Credwn mai'r prif ystyriaethau ar gyfer unrhyw wasanaeth prydau cymunedol yw:

- Gwasanaeth a chynnyrch o safon.
- Darparu prydau poeth, maethlon a blasus.
- Gweithwyr a gwirfoddolwyr gofalgar sydd wedi'u hyfforddi ac sy'n ymweld yn rheolaidd â defnyddwyr y gwasanaeth.
- Y pryd yn cael ei ddarparu ar yr adeg iawn ac ar y tymheredd iawn.
- Cyfathrebu'n effeithiol a phawb yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf - defnyddiwr y gwasanaeth, yr awdurdod lleol a'n cyflogwyr a'n gwirfoddolwyr.
- Gwybodaeth glir a help ar gael bob amser i ddefnyddwyr y gwasanaeth heb fod yn nawddoglyd.
- Canolbwyntio ar yr unigolyn, gwrando ar ddefnyddwyr y gwasanaeth, ystyried eu hanghenion a'u gofynion unigol a phoeni digon i fynd yr ail gam bach hwnnw megis trwy bostio llythyrau, tywallt gwydraid o ddŵr, rhoi bwyd ar blât/t orri bwyd yn fân a gwneud mân gymwynasau eraill nad ydynt yn cael eu hystyried yn gymorth personol.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Seilir ein contract ar ofynion unigol yr awdurdod lleol a defnyddwyr y gwasanaeth, ac fe gytunir ar yr holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol cyn dechrau ar y contract. Mae gofyn gwerthuso'r gwasanaeth yr ydym yn ei gynnig o hyd i sicrhau ein bod yn cynnal safonau.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Ers dros 20 mlynedd, rydym wedi llwyddo i ddarparu dros 90,000 o brydau y flwyddyn yn sir Gaerfyrddin. Gallwn roi tystiolaeth i ddangos bod pob ymdrech wedi'i wneud i sicrhau

bod pob rownd yn cael ei chyflawni, ni waeth sut dywydd yw hi, ni waeth os bydd y ffyrdd ar gau neu'r cyflenwad trydan wedi'i ddiffodd a chredwn fod y cynlluniau wrth gefn sydd gennym yn ein galluogi i ddarparu gwasanaeth di-dor ni waeth beth fydd yr amgylchiadau.

Costau

Cytunir ar y gyllideb flynyddol gyda'r Awdurdod lleol.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Prosiect cymysg yw hwn yn cynnwys gweithwyr cyflogedig a gwirfoddolwyr.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae taflen ar gael sy'n dangos prif feysydd y cynllun.

www.wrvs.org.uk
www.carmarthenshire.gov.uk

5.5. Cynllun Bwyta, Sgwrsio a Siopa

Manylion Cysylltu: **Deialu am Reid**
Uned 8, Milland Road, Castell-nedd, Gorllewin Morgannwg SA11 1EL
☎ 01639 646608
✉ townrider@live.co.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Heb ei nodi.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Roedd aelodau'r cynllun Bwyta, Sgwrsio a Siopa yn arfer bod yn aelodau o gynllun cerdyn Tacsi a ddaeth i ben ar 30 Mehefin 2010. Sefydlodd Cludiant Cymunedol Castell-nedd Port Talbot, gyda chymorth Cyngor Gwirfoddol Sirol Castell-nedd Port Talbot, y cynllun Deialu am Reid ac aeth hwnnw wedi yn ei flaen i ffurfio'r cynllun Bwyta, Sgwrsio a Siopa.

Dechreuwyd y cynllun i lenwi'r bwlch i unigolion nad oeddent yn gallu manteisio ar gludiant cyhoeddus i'w galluogi i fod mor annibynnol â phosibl a hefyd i geisio sicrhau na fyddent yn cael eu hynysu fwyfwy'n gymdeithasol a bod hynny'n troi'n broblem.

Wrth drafod y peth, teimlid y gallai'r cynllun newydd fynd i'r afael â nifer o'r problemau ym mywydau rhai o'r unigolion a oedd wedi'u hynysu'n gymdeithasol drwy ddechrau cynllun a fyddai'n cael ei roi ar waith bob dydd Llun a dydd Iau. Byddai pobl yn cael eu codi o'u cartrefi er mwyn mynd â hwy i gael cinio gyda'i gilydd ac yna i'r archfarchnad leol lle y gallent siopa ar eu pen eu hunain neu gyda chymorth. Byddent hefyd yn cael eu tywys gartref i'w drws ffrynt.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Nod y prosiect yw sicrhau bod unigolion na allant ddefnyddio cludiant cyhoeddus yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd. Amcanion y prosiect yw:

- Byw'n annibynnol – sicrhau bod unigolion yn cael eu hintegreiddio'n llwyr i'r gymdeithas.
- Rhyngweithio cymdeithasol – galluogi unigolion i ymwneud â'i gilydd a mwynhau cwmni pobl eraill, fel eu bod yn llai ynysig.
- Ateb ymarferol i siopa
- Sicrhau bod cludiant priodol ar gael

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Byddai Cydlynydd y cynllun yn ffonio'r bobl a oedd yn rhan o'r prosiect bob sesiwn i weld a oedd ganddynt ddiddordeb mewn dod i'r sesiwn yr wythnos honno. Rhestrid enwau a chyfeiriadau pob unigolyn â diddordeb ac wedyn, byddai'r trefnydd yn eu ffonio i ddweud faint o'r gloch y byddent yn cael eu codi o'u cartref.

Wrth i'r cynllun fynd rhagddo, mae pobl wedi dechrau ffonio a threfnu eu hunain er mwyn sicrhau bod lle iddynt gan holi drostynt eu hunain pa bryd y cânt eu codi. Mae hyn yn dangos bod yr unigolion yn mwynhau'r cynllun ac yn ei gael yn ddefnyddiol. Hefyd, mae sylwadau'r rhai sy'n cymryd rhan yn dangos eu bod yn teimlo bod y cynllun hwn yn un gwerthfawr sy'n golygu y gallant drefnu eu bywydau eu hunain yn hytrach na gorfod dibynnu ar bobl eraill a'u bod felly'n teimlo'u bod yn cael eu grymuso.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Mae tystiolaeth bod y cynllun yn llwyddo i' w gweld yn y ffaith bod y prosiect yn gynaliadwy ac yn tyfu a hefyd yn yr adborth cadarnhaol iawn gan y rhai sy'n cymryd rhan.

Costau:

Ni chodir tâl ar y bobl sy'n defnyddio'r cynllun Deialu am Reid gan fod unigolion yn defnyddio'u cerdyn bws (fel y byddent petaent yn defnyddio cludiant cyhoeddus). Os nad oes gan y teithiwr gerdyn bws, codir cyfradd safonol arnynt.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Mae'r gyrrwr yn aelod cyflog o'r staff ac fe'i telir drwy'r cynllun.

Gwybodaeth ychwanegol:

Cafwyd cefnogaeth Cyngor Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot i'r cynllun a defnyddiwyd y daflen a atodir i ddechrau i hysbysebu'r cynllun.
Mae rhagor o ddeunydd Marchnata'n cael ei lunio ar gyfer y cynllun a bydd hwnnw ar gael yn y dyfodol agos.

5.6. Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol

Manylion Cysylltu: **Uned 6 Maritime Offices, Woodland Terrace, Maesycoed, Pontypridd CF37 1DZ**
☎ 01443 408418
✉ info@dewiscil.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Gwasanaethau integredig a phartneriaethau effeithiol, **a** gwaith amlddisgyblaeth effeithiol

Cefndir cryno'r Prosiect:

Sefydlwyd Dewis yn 1996 fel ymddiriedolaeth elusennol a Chwmni Cyfyngedig drwy Warant heb fryd ar wneud elw. Y nod oedd y byddai'n gweithredu fel corff 3ydd parti ac yn cael ei redeg gan bobl anabl a fyddai'n defnyddio'i wasanaethau. Ei nod penodol oedd galluogi nifer fach o bobl anabl i gael "dewis" a rheolaeth dros y cymorth yr oedd ei angen arnynt i fyw'n annibynnol, e.e. dewis pwy roeddent yn dymuno'u cael yn weithwyr gofal/cynorthwywyr personol, a'r rheini'n cael eu cyflogi gan Dewis. Pan gyflwynwyd Taliadau Uniongyrchol yn Rhondda Cynon Taf yn 2001, dechreuodd y sefydliad ymgymryd â rôl darparu 'gwasanaeth cymorth' gan drydydd parti. Ers hynny, mae Dewis wedi datblygu gwasanaeth eiriolaeth annibynnol ac mae'n darparu ystod eang o gyfleoedd hyfforddi, gan gynnwys hyfforddiant i gynorthwywyr personol a gwirfoddolwyr.
Ar hyn o bryd, mae Dewis yn gweithio mewn partneriaeth ag Adrannau Gwasanaethau Cymdeithasol Rhondda Cynon Taf, Powys, Bro Morgannwg, Casnewydd a Merthyr Tudful.
O'r cychwyn, bu gan y Ganolfan Byw'n Annibynnol bwyllgor rheoli'n cynnwys y bobl anabl sy'n defnyddio'i gwasanaethau a phobl nad ydynt yn anabl sy'n cefnogi ei hethos a'i gwerthoedd. Mae'r Pwyllgor Rheoli'n goruchwylio gwaith y staff ac yn helpu i ddatblygu polisïau ar gyfer y dyfodol. Mae'r prosiect yn dal i chwilio am ffyrdd arloesol o gynorthwyo pobl anabl i fyw'n annibynnol.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Prif nod Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol yw galluogi pobl anabl i fyw'n annibynnol. Dyma'i nodau a'i hamcanion:

- Darparu ystod o wasanaethau i bobl anabl sy'n dymuno ysgwyddo mwy o reolaeth dros eu hanghenion gofal cymunedol, ehangu 'dewis' a 'rheolaeth' yn eu bywydau a hyrwyddo annibyniaeth, gan ymateb i anghenion pobl anabl ac ystyried eu barn am y gwasanaethau hyn.
- Rhoi gwybodaeth ddefnyddiol, ymarferol a hygyrch i bobl anabl, i'w teuluoedd, i'w heiriolwyr ac i'w cefnogwyr ynglŷn â byw'n annibynnol.
- Rhoi cynllun cymorth cynhwysfawr i bobl anabl, i'w teuluoedd, i'w heiriolwyr ac i'w cefnogwyr a fydd yn golygu y gellir cyflogi cynorthwywyr personol
- Creu mwy o gyfleoedd i bobl anabl ddatblygu eu hannibyniaeth eu hunain ac i elwa o gael eu cynnwys yn ehangach yn y gymdeithas.
- Recriwtio, datblygu a hyfforddi gwirfoddolwyr a phobl eraill er mwyn cyflawni'r nodau hyn.

- Parhau i ddatblygu ei gwasanaethau ar gyfer pobl anabl gyda chydweithrediad pobl anabl a thrwy wrando ar eu barn yn unol â'r hyn y mae Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol yn credu ynddo.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Yn Adroddiad Blynyddol Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol 2009/10, sonnir am weithgarwch y sefydliad ar hyn o bryd yn darparu cymorth taliadau uniongyrchol ar draws pedwar awdurdod lleol ac mae'n cymharu'r sefyllfa â'r flwyddyn flaenorol. Dengys y ffigurau gynnydd o 17.5% ar gyfartaledd o ran nifer y rhai sy'n defnyddio'r gwasanaeth sy'n manteisio ar Daliadau Uniongyrchol yn yr ardaloedd hynny lle mae'n gweithio.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Mae gwasanaethau Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol wedi ehangu'n raddol dros y 15 mlynedd diwethaf ac mae'r sefydliad bellach yn tyfu'n gyflym. Yn 1996 roedd gan Dewis un gweithiwr rhan amser am ddau ddiwrnod yr wythnos ac nid oedd gan y cynllun swyddfa'n ganolfan. Yn 2001, cyflogwyd un gweithiwr amser llawn ac agorwyd swyddfa. Yn 2006 tyfodd y sefydliad nes bod ganddo un aelod ar ddeg o staff amser llawn a symudodd i swyddfeydd newydd. Ar hyn o bryd, mae Canolfan Dewis yn cyflogi 24 o staff, mae wedi ehangu ei swyddfeydd ac mae ganddi chwe chontract gydag awdurdodau lleol.

Costau:

Cyfanswm incwm Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol yn 2009-10 oedd £591,368. Ei chostau oedd £579,693.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Staff cyflog yn bennaf sy'n rhedeg y prosiect ond cynigir rhywfaint o gyfleoedd i wirfoddolwyr. Mae nifer o aelodau'r staff yn anabl.

Gwybodaeth ychwanegol:

Gwefan Canolfan Dewis ar gyfer Byw'n Annibynnol yw www.dewiscil.org.uk
Anfonir adroddiad blynyddol y sefydliad ar gyfer 2009-10 a'i gylchlythyr cyfredol ar wahân.

5.7. Datblygu Cymorth Teg Haen 1 (lles) gan y Trydydd Sector ym Mhowys

Manylion Cysylltu:

PAVO
Marlow, South Crescent
Llandrindod, Powys, LD1 5DH
☎ 01597 822191
hscf@pavo.org.uk
siobhan.luikham@pavo.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r prosiect yn canolbwyntio ar Newid 1. Nod y prosiectau a noddir o dan gynllun Gofal Iechyd Parhaus y Trydydd Sector yw sicrhau bod llai o angen gorfod derbyn pobl i'r ysbyty, a lleihau'r risg yn sgil hynny, drwy roi'r cymorth priodol i'r rheini y mae ganddynt anghenion tymor hir ac i'w gofalwyr, a hynny gartref neu mewn lleoliad yn y gymuned.

Mae'r prosiectau hyn yn cyfrannu hefyd at sawl un arall o'r 10 Newid Dylanwadol ym maes Gofal Cymhleth sef newid 2,3,5, a 9.

Cefndir cryno'r Prosiect

PAVO yw'r corff canolraddol i'r trydydd sector ac mae'n gweithio'n glos gyda chyrff y trydydd sector, gan gynnwys darparwyr gwasanaethau a grwpiau yn y gymuned, a chyda phartneriaid statudol i sicrhau bod y cymorth a ddarperir gan y trydydd sector yn cael ei gysoni fwyfwy â modelau gofal. Ym Mhowys, mae ystod enfawr o grwpiau'r trydydd sector yn cyfrannu at iechyd a lles pobl mewn cymunedau. Maent yn rhoi cymorth i bobl yn fregus ac agored i niwed ac i'w gofalwyr ac yn eu helpu i fyw bywydau mwy annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Mae grwpiau sydd ar waith ym Mhowys yn cynnwys cyrff cenedlaethol a rhyngwladol yn ogystal â grwpiau lleol bychain sy'n rhoi cymorth mewn cymunedau penodol. Mae'r gweithgareddau'n cynnwys cynlluniau cymdogion da lleol, cyfeillio, cludiant i gyfleusterau iechyd a hamdden; darparu clybiau cinio; siopa a chasglu presgripsiynau yn ogystal â gwasanaethau mwy technegol megis darparu gwybodaeth a chyngor; cymhorthion ac addasiadau; gwasanaethau eiriol a darparu gofal seibiant.

Mae'r ffaith bod grwpiau bychain yn gweithio'n lleol yn golygu y gellir teilwra gwasanaethau i ddiwallu anghenion penodol yr unigolyn yn ei gymuned. Mae'r gwasanaethau hyn yn adeiladu ar wybodaeth a chydberthnasau lleol. Bydd grwpiau lleol hefyd yn cynnig mecanwaith er mwyn i gymuned allu nodi anawsterau lleol a datblygu atebion lleol i broblemau lleol: elfen allweddol wrth ddatblygu cydlyniant cymunedol a meithrin gallu cymdeithasol sy'n pontio. Ar y llaw arall, anfantais darpariaeth leol yw y gall patrwm darparu gwasanaethau weithiau fod yn ddarniog, gan arwain at ddiffyg cysondeb ar draws Powys ac anhawster o ran integreiddio elfen gymorth y Trydydd Sector i'r llwybrau gofal.

Ers 12 mis bellach, mae PAVO wedi bod yn gweithio gyda chyrff y trydydd sector i ddatblygu a rhoi ar waith bum prosiect peilot dan nawdd y cynllun gwobrau Gofal Iechyd Parhaus er mwyn helpu pobl i aros yn eu cartrefi eu hunain; er mwyn helpu i sicrhau bod

pobl yn cael eu rhyddhau'n ddi-oed o'r ysbyty ac er mwyn osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty heb fod angen.

Bydd tri phrosiect lleol yn defnyddio gwirfoddolwyr i ddarparu cymorth sydd wedi'i deilwra'n arbennig mewn tair cymuned. Darperir y prosiectau hyn gan Swyddfa Gwirfoddolwyr Crucywel, Swyddfa Gwirfoddolwyr Llandrindod a'r Fro a Chanolfan Gwirfoddolwyr Ystradgynlais a'r Fro.

Noddwyd dau brosiect arall o dan y cynllun hwn:

- Estyn y Rhaglen Addasiadau Brys (RRAP) gan Gofal a Thrwsio sydd wedi galluogi Gofal a Thrwsio i gynyddu ei weithgarwch ym Mhowys.
- Gwasanaeth Ymateb Brys yn y Cartref, Powys (PURSH) sy'n darparu gwasanaeth gofal personol yng nghartrefi pobl.

Mae PAVO hefyd yn gwneud gwaith o dan y Cynllun Iechyd Gwledig i ddatblygu cydlyniant cymunedol mewn tair ardal beilot fel rhan o ailgynllunio'r gwasanaeth. Darn arall o waith yw datblygu cynghrair o ddarparwyr gwybodaeth a chyngor, gan gynnwys Gofal a Thrwsio MWW; Age Concern Powys; Gwasanaeth Gofalwyr Powys ac Anabledd Powys.

Gan ddysgu gwersi yn sgil y llinynnau gwaith amrywiol hyn, mae PAVO yn gweithio gyda phartneriaid statudol a chyda chyrff y trydydd sector i hwyluso datblygu trydydd sector mwy strategol, cydlynol a chyd-drefnol sy'n ymwneud yn amlwg ar wahanol lefelau daearyddol â'u partneriaid statudol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae hyn yn unol â'r Weledigaeth Gyffredin ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ym Mhowys yn ogystal â'r cynlluniau strategol cenedlaethol allweddol yng Nghymru (Y Cynllun Iechyd Gwledig, Gosod y Cyfeiriad, a Rheoli Cyflyrau Cronig). Llwyddwyd i gael nawdd gan y Cynlluniau Gofal Iechyd Parhaus a'r Gronfa Arloesi Iechyd Gwledig er mwyn bwrw ymlaen â'r gweithgareddau hyn.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Nodi'r gwasanaethau craidd (haen 1) sy'n angenrheidiol er mwyn helpu pobl i fyw'n annibynnol mewn cymunedau gwledig bychain.
- Adeiladu ar lwyddiant cynlluniau peilot Gofal Iechyd Parhaus i helpu pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac i ddatblygu a darparu gwasanaethau haen 1 diogel sy'n deg i bawb.
- Gweithio gyda'r trydydd sector a chydag asiantaethau statudol i ddatblygu perthynas weithio gryfach ar adegau hollbwysig ar daith y claf ac ar hyd y llwybr gofal gan sicrhau cymaint o gyfraniadau ag y bo modd gan y trydydd sector o ran helpu pobl ag anghenion gofal cymhleth.
- Meithrin cydlyniant a chysylltiadau yn y gymuned yn unol â'r Cynllun Iechyd Gwledig.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Atal gorfod derbyn pobl i'r ysbyty'n ddiangen.
- Helpu i sicrhau bod pobl yn cael eu rhyddhau'n ddi-oed o'r ysbyty
- Helpu pobl i aros yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain
- Gwasanaeth haen 1 teg ar gael ledled Powys ar sail anghenion pobl
- Dangos elw cymdeithasol ar y buddsoddiad

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Mae Cynllun Gwobrau Gofal Iechyd Parhaus y Trydydd Sector wedi bod ar waith ers ychydig dros 9 mis. Mae'r gwaith yn canolbwyntio yn awr ar fireinio'r prosiectau peilot haen 1 hyn.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Cymysg - cyflogedig a gwirfoddol

Gwybodaeth ychwanegol:

- Mae adroddiadau monitro chwarterol yn cynnig rhagor o wybodaeth am bob agwedd ar y prosiectau.
- Zinovieff, F. a Robinson, C.A. (2010) Rôl y Sector Gwirfoddol mewn Oedi wrth Drosglwyddo Gofal (DToC)/Rhyddhau o'r Ysbyty ac Atal Ailddderbyn, Bangor: Prifysgol Bangor. ISBN: 978-1-84220-123-7.

5.8. Dewis a Chynhwysiant Cymunedol (Menter Gymdeithasol)

Manylion Cysylltu:
Awelfa
Maenclochog, Sir Benfro, SA66 7LD
☎ 01437/532715 AND 07970864818
✉ luke@communitychoice.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Rhif 3,4,5,7 a 9

Cefndir cryno'r Prosiect:

Fe'i sefydlwyd ym mis Mai 2010 fel Menter Gymunedol heb fryd ar wneud er elw, gan helpu pobl ag anghenion cymhleth a'u teuluoedd i lunio cynlluniau ar gyfer y dyfodol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Galluogi pobl ag anghenion gofal iechyd cymhleth i ddatblygu rhwydweithiau cymorth cynaliadwy gydol oes i'w grymuso i fyw bywydau bodlon sy'n cynnig dewis a rheolaeth iddynt:

- Canlyniadau mesuradwy'r prosiect
- Cymorth i archwilio, sefydlu a chynnal Rhwydweithiau Cymorth
- Gostyngiad sylweddol yng nghostau pecynnau gofal cymhleth yn sgil cydweithio agored rhwng pob asiantaeth
- Cynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn rheoli sut y darperir cymorth
- Gwireddu cynlluniau gweithredu allweddol
- Datblygu Microfentrau sy'n ymwneud ag anghenion cyflogi yn y dyfodol
- Mynediad at addysg bellach
- Llai o straen ymhlith Gofalwyr y Teulu, gallu dilyn y rhan fwyaf o weithgareddau'r gymuned.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

- Datblygu 12 Rhwydwaith cymorth ar gyfer pobl ifanc (14-22 oed) ar Ynys Môn, prosiect Pontio wedi'i sefydlu ar y cyd â Chyngor Sir Ynys Môn (Tîm Cymorth Pontio).
- Datblygu 4 Rhwydwaith Cymorth yn sir Benfro.

Costau:
£350 y diwrnod

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)
Cymysg - cyflogedig a gwirfoddol

Gwybodaeth ychwanegol:
Mae rhagor o wybodaeth fanwl ar gael drwy gysylltu â'r uchod. Mae gwefan wrthi'n cael ei pharatoi hefyd: Communitychoice.org.uk

5.9. Prosiect Peilot - Gwarchodwyr Iechyd Gwirfoddol Cymunedol (De Gwynedd)

Manylion Cysylltu:

Mantell Gwynedd
23-25 Y Bont Bridd, Caernarfon, Gwynedd LL55 1AB
Yr Hen Orsaf Heddlu
Y Lawnt, Dolgellau Gwynedd LL40 1SB
☎ 01286 672626
☎ 01341422575
✉ sioned@mantellgwynedd.com
✉ ellenapdafydd@mantellgwynedd.com

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r prif gysylltiadau â Newidiadau1, 4, 5, 7,9 a 10.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Ym mis Ebrill 2009, cyhoeddodd Mantell Gwynedd adroddiad, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, am gynlluniau cyfeillio a gwrando a ddarperir yng Ngwynedd a'r tu hwnt. Daeth yn amlwg yn sgil y gwaith nad oedd y math hwn o gymorth ar gael i'r un graddau ym mhob rhan o'r rhanbarth. Daeth yn amlwg hefyd bod mynd i'r afael ag anghenion pobl sy'n byw gyda chyflyrau cronig yn dal yn her a bod y bobl hynny sy'n byw mewn ardaloedd gwledig i bob golwg yn wynebu anawsterau mwy. Cododd nifer o argymhellion allweddol yn sgil y gwaith gan gynnwys dewis ardal beilot addas yng Ngwynedd a datblygu cynllun peilot. Gwelwyd y gallai De Gwynedd fod yn ardal beilot bosibl oherwydd ei bod yn ardal wledig ac oherwydd ei natur ddemograffig.

At hynny, mae amheuon ynglŷn ag yw gwasanaethau' n cael eu darparu'n deg ym mhob rhan o'r sir, yn enwedig felly yn Ne'r sir lle mae'n anos cael gafael ar wasanaethau a lle mae mwy o enghreifftiau o allgau cymdeithasol e.e. mae'n cynnwys ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ac ardaloedd sy'n cael arian Cydgyfeiriant. Dechreuodd y prosiect gyda Chydlynydd yn ei swydd - Rhagfyr 2009, a chynhelir y rhaglen beilot tan fis Mawrth 2011

Nodau ac amcanion y prosiect:

Mae'r Prosiect Gwarchodwyr Iechyd Cymunedol yn rhan o safle Dangosydd Cyflyrau Cronig (Gwynedd) a'r nod yw helpu pobl i reoli eu cyflyrau iechyd cronig eu hunain. Prif nod y Prosiect Gwarchodwyr Iechyd Cymunedol yw datblygu cynllun cyfeillio, gwrando a chyfeirio yn Ne Gwynedd gyda golwg ar ailadrodd y cynllun hwn mewn rhannau eraill o Gymru. Gweithio gyda chyrff y Trydydd Sector sy'n ymwneud yn frwd â rheoli cyflyrau cronig er mwyn datblygu fframwaith cadarn ar gyfer y cynllun peilot hwn.

Bydd y cydlynydd yn nodi protocolau gweithredu priodol ar gyfer y cynllun ac yn eu rhoi ar waith, a bydd hefyd yn rhestru ac yn mapio'r mudiadau gwirfoddol sy'n ymwneud â'r cynlluniau cyfeillio/gwrando a chyfeirio ar hyn o bryd ledled De Gwynedd a'r grwpiau gwirfoddol sy'n rhoi cymorth ar gyfer cyflyrau cronig er mwyn datblygu dull cydlynol ac

integredig. Disgwylir i'r cydlynydd hefyd gysylltu â mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol eraill, yn ogystal ag â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol/meddygon teulu drwy'r timau iechyd a gofal cymdeithasol integredig sy'n gweithio'n lleol.

Gyda chydweithwyr eraill, bydd y prosiect hefyd yn trefnu sesiynau penodol i godi ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau a ddarperir gan y trydydd sector. Anelir y sesiynau hyn yn benodol at weithwyr iechyd a gofal cymdeithasol (timau bro integredig Meirionnydd) gan gynnwys gwirfoddolwyr y cynllun cyfeillio ac arweinwyr eraill yn y gymuned (h.y. unigolion dylanwadol a rhagweithiol yn eu cymunedau). Yna, bydd yr unigolion hyn yn gallu cyfeirio unigolion yn eu blaen i gael rhagor o gymorth a gwybodaeth.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Mae Adroddiadau Gwerthuso wedi'u paratoi am y prosiect hwn a gellir eu gweld yn:
http://www.nliah.com/portal/microsites/Uploads/Resources/rdnCwRPlL.pdf
Hefyd, dyma'r canlyniadau a gynigir:

- Creu Fframwaith a seilwaith i roi protocolau priodol ar waith
- Gwirfoddolwyr sydd wedi'u hyfforddi'n well ac yn meddu ar well sgiliau mewn mudiadau sy'n helpu pobl i reoli cyflyrau cronig
- Gwell ansawdd bywyd i ddefnyddwyr gwasanaethau a'u gofalwyr = llai o ddibynnu ar wasanaethau statudol eraill a gwell dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau sydd ar gael yn y sector gwirfoddol wrth i bobl geisio rheoli eu cyflwr yn effeithiol eu hunain.
- Gwasanaethau'n cael eu defnyddio'n well ac yn fwy effeithiol ac unigolion a chymunedau'n cael eu grymuso.
- Gwell gwybodaeth gan feddygon teulu, gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol eraill ynghŷn â gwasanaethau a ddarperir gan fudiadau'r trydydd sector.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Adroddiadau gwerthuso NLIAH - Hanes Sheila – enw cyswllt MarkRhys.Kingston@wales.nhs.uk (01443 233517) neu lhjones@glam.ac.uk neu Janet Ellis (North Wales CCM Project Manager) JanetEllis2@wales.nhs.uk (01286 674247) neu Wefan y Dangosydd Rheoli Cyflyrau Cronig – papurau gwerthuso a dysgu http://www.ccmdemonstrators.com/NorthWales.aspx

Costau
Swydd Cydlynydd a chymorth gweinyddol (y ddwy'n rhan-amser)
Costau hyfforddi a theithio ac ati i wirfoddolwyr; costau digwyddiadau – llogi ystafell a lluniaeth ac ati

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)
Ffurfiol ac anffurfiol gyda gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli eu hamser fel cyfeillion

Gwybodaeth ychwanegol:
http://www.ccmdemonstrators.com/NorthWales.aspx
http://www.nliah.com/portal/microsites/Uploads/Resources/rdnCwRPlL.pdf
Adroddiad Gwarchodwyr Iechyd Cymunedol Gwirfoddol Ebrill 2009

Cynnydd Cynnydd a Llwyddiannau – Blwyddyn 2: Dangosyddion CCM – Tachwedd 2010 (Dr Roger Richards – Rheolwr Rhaglen Dangosyddion Rheoli Cyflyrau Cronig roger.richards2@wales.nhs.uk (Ffôn 01443 233505)

5.10. Gwasanaeth Menter Min Nos Sir Gaerfyrddin

Manylion Cysylltu:
11-15 Coalbrook Road
Pontyberem, Llanelli, Sir Gaerfyrddin SA15 2DS
☎ 01269 871600
✉ janet@mentercwmgwendraeth.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r enghraifft hon yn cysylltu â Newidiadau Dylanwadol 3,4,5 a 9

Cefndir cryno'r Prosiect:

Nod y prosiect hwn yw hybu a datblygu rhwydweithiau cymorth i bobl hŷn yn eu cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn dal i allu bod yn annibynnol yn eu cartrefi eu hunain ac atal gorfod eu derbyn i'r ysbyty a'r nychu sy'n gallu digwydd yn sgil hynny. Mae adrannau Damweiniau ac Achosion Brys yn rhyngwyneb hygyrch rhwng y gymuned a gofal aciwt mewn ysbytai yn enwedig y tu allan i oriau meddygfeydd meddygon teulu. Bydd pobl hŷn yn aml yn dod i'r adrannau hyn oherwydd eu bod yn cael damweiniau'n amlach na phobl eraill ac, yn anffodus, bydd llawer o'r achosion hyn yn arwain at eu derbyn i'r ysbyty. Mae perygl i bobl hŷn a dderbynnir i'r ysbyty orfod aros yno'n hwy na'r cyffredin; perygl iddynt ddioddef o ddiffyg maeth; bod yn agored i heintiau sydd yn yr ysbyty; ddod yn llai annibynnol; nychu ac mae'r gyfradd marwolaethau hefyd yn uwch ar gyfer y bobl hyn (Age Concern 2007).

Dywedodd Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda (fel yr oedd ar y pryd) fod nifer o bobl hŷn yn cael eu derbyn yn ddiangen i'r ysbyty drwy adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a thrwy'r Unedau Penderfyniadau Clinigol. Y rheswm pennaf am hyn yw'r diffyg cymorth cymdeithasol i sicrhau eu bod yn gallu cael eu rhyddhau'n ddiogel i'w cartrefi. Yn 2007, sefydlodd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles sir Gaerfyrddin y 'Fenter Min Nos'. Mae'r gwasanaeth ar waith rhwng 2pm a 10pm am 5 niwrnod yr wythnos ac mae'n costio £105,000 y flwyddyn.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Lleihau'r galw ar y sector aciwt os yw'r galw hwnnw'n ddiangen, drwy helpu i gludo cleifion yn ôl i'w cartref ar ôl eu rhyddhau'n ddiogel gan feddygon.
- Hybu annibyniaeth a sicrhau eu bod yn cael eu rhyddhau'n ddiogel i'w cartref arferol, drwy gynnal asesiad risg a chysylltu â grwpiau ac asiantaethau eraill neu drwy eu cyfeirio atynt.
- Sicrhau bod y staff i gyd wedi'u hyfforddi'n briodol.
- Arbed costau drwy asesu derbyniadau diangen.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Bydd Grŵp Llywio'r 'Fenter Min Nos' yn cyfarfod ddwywaith y mis i fonitro'r cynnydd a'r perfformiad o'u cymharu â'r cynlluniau y cytunwyd arnynt, ac i weld a ydynt yn cydymffurfio â'r cynllun.

- Bydd 'Grŵp Amlasiantaeth Cymunedol' yn cyfarfod ddwywaith y mis i sicrhau bod modd sicrhau cymorth cymunedol ar ôl rhyddhau cleifion.
- Bydd Menter Cwm Gwendraeth yn defnyddio holiaduron adborth, trafodaethau un-ac-un a thechnegau cynnwys a gwerthuso eraill i sicrhau ansawdd ac effeithiolrwydd o ran costau. Comisiynwyd Prifysgol Bangor i ddadansoddi'r buddion cost yn ffurfiol.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

- Gwelwyd bod y GIG yn arbed £300 y pen y nos a hynny ar gyfer amcangyfrif o 420 claf y flwyddyn (ar sail 5 niwrnod yr wythnos) = £126,000.

Costau:

Y costau ar gyfer 2008/09 oedd oddeutu £105,000. Ar y cyd â'r Cyngor, mae'r BILl wedi cytuno i barhau i gyfrannu at ran o gost y gwasanaeth am weddill y flwyddyn ariannol hon, gan geisio cyfraniad arall gan Ymddiriedolaeth GIG Hywel Dda i wneud iawn am y gwahaniaeth.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Ffurfiol yn bennaf gyda 3 Gwirfoddolwr wedi'u penodi'n ddiweddar

Gwybodaeth ychwanegol:

- Gwefan - Mentercwmgwendraeth.
- Enillydd Gwobrau Gofal Iechyd Cymru 2008
- Comisiynwyd Prifysgol Bangor gan WCVA fel rhan o'r "Cynllun Codi Pontydd Cadarn". Mae'r adroddiad ar gael erbyn hyn (2010)

Mae gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaeth, gan gynnwys gwybodaeth am weithgarwch a chanlyniadau, ar gael hefyd gan Fenter Cwm Gwendraeth.

Sylwer: mae cynllun peilot 6 mis ychwanegol sy'n cynnig gwasanaeth yn ystod dyddiau'r wythnos rhwng 10.00am a 2.00pm ar y gweill. Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy gysylltu â'r uchod.

5.11. Age Concern - Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, Gwent

Manylion Cysylltu:

Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, Caerffili
Beaumont House, Bloomfield Rd, Y Coed Duon
☎ 01495 227039

Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, Casnewydd, Ysbyty St Woolos 131 Stow Hill Casnewydd
☎ 01633 2383101

Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, Sir Fynwy, Ysbyty Neville Hall, y Fenni
☎ 01873 850619

Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, Ysbyty Neville Hall, y Fenni
☎ 01495 718548

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r gwasanaethau'n berthnasol i rai elfennau o'r holl Newidiadau Dylanwadol.

Cefndir cryno'r Prosiect

Mae gwasanaethau craidd Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty ym mhob ardal yn darparu help a chymorth ychwanegol dros dro i bobl hŷn o bob cefndir ethnig, sy'n dioddef o broblemau iechyd corfforol a meddyliol wrth iddynt ddychwelyd adref o'r ysbyty. Mae hyn yn berthnasol i bawb dros 50 oed sy'n byw yn ardal Gwent.

Yng Nghaerffili, mae gennym hefyd wasanaeth ar y penwythnos sy'n cynnig gofal iechyd a gofal cymdeithasol tymor byr ac mae hwnnw ar gael hefyd dros wyliau banc.

Yng Nghasnewydd, i ategu'r Gwasanaethau Rhyddhau o'r Ysbyty, mae gennym weithiwr cymorth penodol i wasanaethu'r boblogaeth ethnig. Mae gwasanaeth gofal personol ar gael hefyd sydd fel rheol yn darparu pecyn gofal am gyfnod o 6 wythnos, gan gynnwys ar benwythnosau, ar ôl i bobl gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Cytunir ar y pecyn gofal hwn gydag Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yr awdurdod lleol.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Darparu gwasanaeth o safon i gleifion wrth eu rhyddhau o'r ysbyty
- Cynnal a chryfhau eu hannibyniaeth
- Sicrhau bod unigolion yn cael cymaint o incwm ag y bo modd
- Sicrhau diogelwch personol yn y cartref

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Gwell lles meddyliol, corfforol ac ariannol i'r cleientiaid.

- Atal gorfod eu derbyn i'r ysbyty
- Galluogi cleientiaid i adennill eu hyder
- Cynnal a gwella'u safon byw

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

- Mae tystiolaeth ar gael yn adroddiadau gan y AGGCC yn enwedig yng nghyswllt y gwasanaeth gofal personol.
- Adroddiadau monitro gan y comisiynwyr / arianwyr
- Adborth rheolaidd gan y cleientiaid ynglŷn â'r manteision a gawsant yn sgil defnyddio ein gwasanaethau

Costau

Ariennir y prosiectau drwy'r Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Gweithwyr cyflog sy'n staffio holl wasanaethau craidd y Cynllun Rhyddhau o'r Ysbyty. Serch hynny, mae gan rai gwasanaethau fwy o wirfoddolwyr nag sydd gan eraill. Bydd y gwirfoddolwyr yn cyflawni rolau amrywiol a dibynnu ar eu hymrwymiad. Gall hyn amrywio o wirfoddoli ar gyfer dyletswyddau gweinyddol neu fynd allan i'r gymuned i roi help ychwanegol i gleientiaid lle a phan fydd angen hynny

Gwybodaeth ychwanegol:

Ni ddarparwyd dim.

5.12. CIC Cymunedol Conwy

Manylion Cysylltu:
Colette Neal
Rheolwr Prosiect, Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy
8 Rivieres Avenue, Bae Colwyn LL29 7PU
☎ 01492 523850
✉ colletteneal@cvsc.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Y prif gysylltiad yw'r cysylltiad â dylanwad 9: Partneriaethau integredig ac effeithiol, ond mae'n bosibl cysylltu'r gwasanaeth hefyd â dylanwad rhif 1, rhif 4 a rhif 7.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae'r cynllun yn cynnwys datblygu model darparu gwasanaeth cydweithredol ar sail consortia lle bydd nifer o fudiadau'n cydweithio. Mae cydweithredu o fewn y sectorau hyn a rhyngddynt yn debygol o ddwyn nifer o fanteision.

Tîm amlddisgyblaeth yn y sector statudol yw Gwasanaeth Gofal Canolraddol Conwy (CICS) sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o'r maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a'r rheini wedi'u cydleoli a'u rheoli'n un endid sy'n adrodd i'r ddau gorff statudol ynglŷn â'i weithgareddau. Nod Cynllun Peilot CIC yw creu cysylltiad di-fwlch rhwng y gwasanaethau a ddarperir yn y gymuned gan fudiadau'r sector a gwaith y tîm. Bydd aelodau'r consortiwm i gyd yn cadw'n perthynas contractaidd eu hunain â'r asiantaethau sy'n eu noddi, ond maent wedi datblygu prosesau a gwaith papur ar y cyd yn gefn i ddarparu'r gwasanaeth. Cefnogir y berthynas rhwng y sefydliadau drwy Gytundeb Cydweithio lle bydd rolau a chyfrifoldebau gwahanol pob partner yn cael eu nodi'n glir.

Rhannwyd y prosiect hwn yn ddau gam gwahanol. Mae a wnelo cam un â sicrhau cefnogaeth leol a chymorth strategol, cynllunio'r gwasanaeth a sicrhau nawdd. Roedd a wnelo cam dau â datblygu gwasanaeth peilot am flwyddyn ac yna'i roi ar waith er mwyn profi dull gweithio'r consortia.

Nodau ac amcanion y prosiect

- Ar gyfer Llywodraeth Cymru: "profi" model gwaith partneriaeth gyda'r sector gwirfoddol, er mwyn gallu defnyddio'r hyn a ddysgwyd mewn mannau eraill i wireddu'r dyheadau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau a ariennir ar y cyd, gwasanaethau cydweithredol sy'n canolbwyntio ar y dinesydd. Soniwyd am hyn mewn dogfennau strategol diweddar megis Creu'r Cysylltiadau; Adolygiad Beecham a Chynllun Oes.
- Ar gyfer y gymuned iechyd leol yng Nghonwy: Defnyddio'r holl adnoddau sydd ar gael i'r eithaf er mwyn darparu gofal canolraddol yng Nghonwy drwy fwy o gydweithredu â'r sector gwirfoddol fel ffordd o ehangu mynediad at ystod o wasanaethau i'r claf.

- Ar gyfer y sector gwirfoddol: fframwaith ar gyfer ymgysylltu fel partneriaid cyfartal â'r sector statudol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a hwnnw'n gwbl hyblyg ac ymatebol.
- Ar gyfer pawb: fframwaith ymarferol ar gyfer caffael gwasanaethau y gellir ei ddefnyddio gyda nifer fawr o asiantaethau ariannol a nifer fawr o gyrff gwirfoddol, a chydag unrhyw gyfuniad o'r ddau.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Cynhelir annibyniaeth ac awtonomi'r cleifion
- Gostyngiad yn nifer y cleifion a dderbynnir i'r ysbyty heb fod hynny wedi'i drefnu, am eu bod yn cael cymorth i'w galluogi yn y gymuned
- Atal ynysu cymdeithasol a grymuso'r unigolyn er mwyn hybu ei annibyniaeth a'i allu i reoli ei gyflwr ei hun
- Mwy'n manteisio ar gynlluniau hunanreoli
- Fframwaith ar gyfer ymgysylltu fel partneriaid cyfartal â'r sector statudol wrth gynllunio a darparu gwasanaethau a hwnnw'n gwbl hyblyg ac ymatebol
- Llai o ailgyfeirio at Dîm CICs gan fod y claf/defnyddiwr y gwasanaeth yn cael mwy o gymorth i'w alluogi gan elfen ehangach o'r gwasanaethau cymunedol craidd
- Llai'n cael eu derbyn i ofal nyrsio a phreswyl tymor hir gan ryddhau adnoddau a dwyn budd i'r claf ac i ofal iechyd parhaus
- Gostyngiad posibl yng nghostau gwasanaethau cymdeithasol wrth i wasanaethau'r sector gwirfoddol gael eu defnyddio'n well er mwyn rheoli clefydau cronig
- Model ar gyfer gwaith consortiwm

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Mae data monitro cynnar, adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth ac astudiaethau achos yn dangos bod y gwasanaeth yn llwyddo. Mae'r gwasanaeth Peilot wrthi'n cael ei werthuso'n allanol gan Uned Rheoli Gwasanaethau Iechyd Prifysgol Birmingham. Bydd adroddiad ar gael yn 2011.

Costau:

Cyfanswm cost prosiect peilot blwyddyn oedd £68K

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Cymysg - staff cyflogedig a gwirfoddolwyr

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gwybodaeth gefnogol fanwl gan gynnwys gwybodaeth am y cynllunio, 2 gam y cynllun, a'r canlyniadau ar gael yn uniongyrchol gan Dîm CIC Conwy.

5.13. Touch Trust

Manylion Cysylltu:

Touch Trust Ltd
Canolfan Mileniwm Cymru
Sgwâr Bute
Caerdydd CF10 5AL
☎ 02920 635660
✉ nfor@touchtrust.co.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r prif gysylltiad â newid dylanwadol 1, ond mae'n bosibl gweld cysylltiad hefyd â newidiadau 2, 7 9 a 10.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae Touch Trust, sydd â'i chanolfan mewn uned a adeiladwyd at y diben yng Nghanolfan Mileniwm Cymru yng Nghaerdydd yn darparu rhaglenni creadigol, symudiadau cyffwrdd, addysg a dawns er budd unigolion ag awtistiaeth, anableddau dwys a lluosog ac ymddygiad heriol. Yn ystafelloedd synhwyraidd hardd Touch Trust a adeiladwyd at y diben, cynigir sesiynau i grwpiau ac i unigolion gan ddatblygu sgiliau ymlacio, hyder, cyfathrebu, hunangred a chymdeithasol mewn amgylchedd cyfannol a hapus. Mae'r rhyngweithio dwys hwn yn dwyn budd i'r rhai sy'n cymryd rhan a hynny i'w hiechyd corfforol a meddyliol. Mae'n cynnwys integreiddio synhwyraidd a chanmol pobl ac mae hyn yn gwella ansawdd bywyd a mwynhad eu gwesteion, eu gofalwyr a'u teuluoedd.

Mae eu rhaglenni'n helpu babanod a'u teuluoedd, pobl sydd â dementia ac sydd wedi cael niwed i'r ymennydd yn ogystal ag oedolion a phlant ag anableddau dwys a lluosog gan gynnwys awtistiaeth ac ymddygiad heriol. Eu hethos yw na chaeir y drws ar neb. Bydd y Touch Trust hefyd yn cynnig gwasanaethau allgymorth ledled Cymru mewn lleoliadau addysgol a chymunedol, gan hyfforddi staff a chynnal sesiynau monitro ac ymwybyddiaeth. Byddant hefyd yn darparu sesiynau i grwpiau mewn ysgolion, mewn tai cymunedol ac mewn canolfannau dydd. Mae 'ystafelloedd y Touch Trust' a staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig yn gweithio bellach mewn sawl lleoliad drwy Gymru.

Nod y Touch Trust yw helpu i greu cymunedau mwy cynhwysol, eiriol o blaid gwaith cydraddoldeb ym maes anabledd a chwalu'r rhwystrau cymdeithasol a ffisegol sy'n bodoli mewn cymunedau. Er eu bod eisoes yn gweithio gyda sefydliadau'r celfyddydau/dawns yn y gymuned, maent yn awr yn gobeithio estyn allan a gweithio gyda'r gweithwyr proffesiynol hynny sy'n debygol o ddod i gysylltiad ag unigolion sydd ag awtistiaeth, anableddau dwys a lluosog ac ymddygiad heriol yn eu gweithleoedd.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Datganiad o fwriad y Touch Trust yw:

- Eiriol dros ddatblygu cymuned gynhwysol drwy gynnig cyfleoedd i'r rheini sy'n aml yn cael eu cau allan o fyd y celfyddydau a gweithgareddau cymdeithasol, gan ddarparu cyfleoedd iddynt symud yn greadigol.

- Datblygu a hybu dysgu, addysg a hunanddatblygu gydol oes mewn amgylchedd creadigol sy'n meithrin pobl
- Gweithgarwch hyfforddi, datblygu, ymchwil a gwaith maes mewn rhaglenni symud creadigol a'r rheini wedi'u haddasu ar gyfer unigolion sydd ag awtistiaeth, anableddau dwys a lluosog ac ymddygiad heriol.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Fe all y Touch Trust gynnig amrywiaeth o hanesion sy'n dangos y dylanwad y mae ei gwaith wedi'i gael ac mae'r rheini ar gael dim ond ichi ofyn. Isod, ceir ambell ddyfyniad sy'n disgrifio profiadau un unigolyn.

'Y tro cyntaf imi fynd i un o sesiynau'r Touch Trust efo fy chwaer, mi ges i fy synnu gan y croeso cynnes a gawson ni, a ninnau wedi dod yn gyfarwydd â'r syllu syn ar ei hymddygiad afreolus, a'r pellter yr oedd hyn yn ei greu rhyngon ni a gweddill dynoliaeth. Roedd Dilys a Charlotte [Staff Touch Trust] i bob golwg yn derbyn y pethau hyn fel agweddau ar ei phersonoliaeth, yn union fel petai hi'n swil neu'n ffroenuchel. Wrth edrych yn ôl, mae'n dweud cyfrolau am faint yr oedden ni wedi'n hynysu'n gymdeithasol, bod eu hagwedd wedi creu'r fath ymateb ynon ni....

Ers y diwrnod hwnnw, sawl blwyddyn yn ôl erbyn hyn, mae Naomi wedi elwa'n sylweddol o ddulliau unigryw Touch Trust. Yn sgil hynny, mae fy nheulu a finna wedi elwa, nid dim ond yn bersonol wrth fynd efo Naomi i'w sesiynau, ond hefyd yn sgil y dylanwad cadarnhaol mae hyn wedi'i gael ar ei chyflwr seicolegol a'i hymddygiad... Nid gor-ddweud yw dweud bod Touch Trust yn hanfodol i bobl fel fy chwaer fach ac i mi a'm teulu. Mae Touch Trust yn siarad iaith Naomi, sef cerddoriaeth a synau eraill, ac mae'r ymddiriedolaeth yn rhoi lle iddi ddod o hyd i ffordd o droi'r synau hynny'n gyfrwng i fynegi ei hun mewn ffordd ystyrlon. Mae wedi dysgu sut mae goddef pobl yn tarfu ar ei gofod personol. O'r blaen roedd hynny'n arfer arwain at strancio treisgar. Mae hefyd wedi dysgu bod yn dawel er mwyn i bobl eraill gael cyfle (weithiau!).

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Bydd Touch Trust yn monitro'n ofalus y cynnydd a wnaiff unigolion drwy'r sesiynau, gan gadw cofnod ysgrifenedig yn ogystal â chynnal adolygiadau ar raddfa fwy bob ychydig o fisoedd. Mae wedi cael llawer o gydnabyddiaeth gan Arolygiaeth Cymru, gan benaethiaid mewn ysgolion arbennig a chan reolwyr canolfannau dydd. Er enghraifft, mae Matthew Gough, Cyfarwyddwr Cymunedol Rhondda Cynon Taf yn eiriolwr brwd, wedi sefydlu tair canolfan ac mae rhagor yn yr arfaeth. Eiriolwr arall yw Mike Kerr, Athro Seiciatreg Anableddau Dysgu Ysgol Feddygaeth Prifysgol Caerdydd. Mae'n credu bod y Touch Trust yn gwneud gwahaniaeth go iawn ym maes anabledd. Mae rhagor o wybodaeth ar gael dim ond ichi ofyn.

Costau:

- £16 am Sesiwn Grŵp, £30 am sesiwn un -ac-un (ni chaeir y drws ar neb, gellir darparu bwrsarïau).
- £650 am sesiwn hyfforddi i arweinyddion. Mae gweithdai Diwrnodau Hyfforddi'n amrywio o ran eu cost.
- Bydd y Touch Trust yn cael grant o £150,000 gan y Cyngor Celfyddydau, grantiau llai gan Gyngor Caerdydd a bydd hefyd yn cynnal gweithgareddau codi arian.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Ffurfiol, cyflogedig yn bennaf. Bydd y Touch Trust hefyd yn cydweithio ag Opera Cenedlaethol Cymru a Choleg Cerdd a Drama Cymru sy'n darparu cerddorion gwirfoddol medrus; bydd UWIC hefyd yn cynnal lleoliadau gwirfoddoli i fyfyrwyr.

Gwybodaeth ychwanegol:

Gwefan: www.touchtrust.co.uk

5.14. Gwasanaethau'r Groes Goch Brydeinig a ddarperir ledled Cymru

Manylion Cysylltu:

Jeff Collins, Cyfarwyddwr Cymru Wales
Y Groes Goch Brydeinig
Ynys Bridge Court
Gwaelod y Garth
Caerdydd CF15 9SS
☎ 02920 815680
✉ jcollins@redcross.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Y prif gysylltiad yw'r cysylltiad â Newid Dylanwadol 1, ond mae'r gwasanaethau hefyd yn cysylltu â newidiadau 2, 4, 5, 7 9 a 10. Mae grid ychwanegol ar gael sy'n dweud yn fanwl sut mae gwahanol wasanaethau'n cysylltu â'r 10 Newid Dylanwadol.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae gan y Groes Goch Brydeinig raglen gynhwysfawr o ddarpariaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru a'r rheini'n amrywio o weithgareddau gwasanaethau cymhleth iawn sydd wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru i'r cymorth mwy generig a ddarperir mewn cartrefi.
Yn ogystal â darparu gwasanaethau rhanbarthol a lleol i ddiwallu anghenion unigol cymunedau lleol yng Nghymru, bydd y Groes Goch hefyd yn darparu ystod o wasanaethau craidd ledled Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys:

- **Gofal yn y Cartref** Bydd staff a gwirfoddolwyr yn darparu gofal a chymorth tymor byr yn eu cartref i bobl ar ôl damwain neu salwch, gan roi'r hyder iddynt fwrw ymlaen â'u bywyd beunyddiol. Mae hyn yn galluogi pobl i aros yn annibynnol, mae'n helpu i osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty ac mae'n rheoli'r broses rhyddhau o'r ysbyty'n effeithiol drwy ddarparu gofal personol, help ymarferol, cefnogaeth emosiynol a thrwy roi cymorth gyda meddyginiaeth. Yn ogystal â'r rheini sydd ag anghenion mwy cymhleth, gall darparu gofal personol a chymorth gyda meddyginiaeth olygu bod cleifion gofal lliniarol yn enwedig yn gallu cael help i aros gartref.
- **Benthyciadau Meddygol.** Rhoi benthyg offer meddygol i bobl ag anabledd neu salwch am gyfnod byr (6-8 wythnos) Mae'r offer yn cynnwys cadeiriau olwyn, comôds, cymhorthion bath, cymhorthion gwely, cymhorthion toiled a chymhorthion llai sy'n help i bobl yn eu bywyd bob dydd.
- **Cymhorthion Ymarferol ar gyfer Bywyd Beunyddiol** Mae'r gwasanaeth yn gwerthu ystod eang o gymhorthion byw meddygol a beunyddiol, gan helpu pobl hŷn ac unigolion sy'n gwella ar ôl salwch i wneud eu tasgau bob dydd.
- **Gwasanaeth Cludiant i Gleifion** Mae'r gwasanaeth trafnidiaeth yn cynnig rhyddid ac annibyniaeth i bobl na allant deithio o gwmpas yn rhwydd na defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae'n helpu pobl i gyrraedd apwyntiadau meddygol a gwneud tasgau hanfodol bywyd bob dydd megis siopa, neu hyd yn oed fynd allan o'r tŷ i gymdeithasu. Mae'r gwasanaeth hwn yn arbennig o ddefnyddiol i bobl anabl ac i'r

rheini sy'n byw mewn ardaloedd gwledig lle y gall fod yn anodd iddynt gael gafael ar gludiant.

- **Gofal therapiwtig.** Bydd gwirfoddolwyr hyfforddedig yn cynnig therapi tylino'r corff a chefnogaeth emosiynol i bobl adeg argyfwng personol er mwyn lleihau straen a hybu eu hymdeimlad o les.
- **Cuddio brychau ar y croen.** Bydd ymarferwyr y Groes Goch yn dysgu pobl sydd â brychau a chreithiau ar eu croen sut mae defnyddio eli-cuddio ar bresgripsiwn, gan eu helpu i adennill eu hyder a'u hannibyniaeth. Fel rheol, bydd unigolion yn cael eu cyfeirio gan eu meddyg teulu neu gan weithwyr iechyd proffesiynol eraill ond fe allant eu cyfeirio'u hunain hefyd.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Gan weithio gyda'u partneriaid ledled Cymru, nod y Groes Goch yw darparu gwasanaethau sy'n cynnig gofal mewn argyfwng ac ymateb brys i bobl yn eu cartrefi, gan eu helpu i gadw'n ddiogel ac yn annibynnol drwy argyfwng iechyd.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Mae'r Groes Goch Brydeinig, wrth ddarparu'r gweithgareddau hyn, yn mesur y gwahaniaeth i'r unigolyn, drwy ddefnyddio ystod o arfau mewnol ac allanol i fesur canlyniadau a'r rheini'n briodol ar gyfer y gwasanaeth dan sylw ac y cytunwyd arnynt gyda'r partneriaid a Chomisiynwyr.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Yn 2009:

- Gofalwyd am 4,865 gan y gwasanaeth Gofal yn y Cartref.
- Rhoddwyd cymorth i 9,038 o unigolion drwy'r gwasanaeth Benthyciadau Meddygol.
- Cafodd 3,466 o bobl ofal therapiwtig.

Costau:

Ni wyddys.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Cymysg - staff cyflog a gwirfoddol

Gwybodaeth ychwanegol:

www.redcross.org.uk

'Saving Lives, Change Lives…Introducing the British Red Cross in Wales' Y Groes Goch Brydeinig, 2010.

Nodyn: Yn ogystal â'r templed hwn, mae'r Groes Goch Brydeinig wedi datblygu grid sy'n dangos sut mae ei holl gynlluniau a'i gwasanaethau yn mapio yn erbyn y 10 Newid Dylanwadol. Mae'r grid hwn ar gael drwy gysylltu â'r Groes Goch Brydeinig.

5.15. Tîm Cymorth Canser Tenovus

Manylion Cysylltu:

9fed Llawr, Gleider House,
Heol Tŷ Glas ,
Llanisien,
Caerdydd CF14 5BD
☎ 02920 768850
✉ post@tenovus.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Er nad oes gan Tenovus ddim dyletswyddau statudol ac nad yw'n wasanaeth argyfwng, mae'n gallu cyfrannu at rai o'r newidiadau dylanwadol. Y prif newid fyddai Newid Dylanwadol 9 sy'n argymell gwaith partneriaeth a gwasanaethau integredig. Bydd Tenovus, drwy weithio gydag unigolion a grwpiau, yn annog gwasanaethau'n rheolaidd i ymateb ar y cyd gan anwybyddu ffiniau trefniadaethol, a chydweithio er budd y claf. Newidiadau dylanwadol eraill y gall Tenovus gyfrannu atynt, drwy weithio ochr yn ochr â gwasanaethau statudol yw:

- Adnabod anghenion cymhleth
- Gwaith amlddisgyblaeth effeithiol
- Cynllunio rhagweithiol ar gyfer rhyddhau
- Bod yn rhan o weithlu sydd wedi'i gynllunio i ymateb i anghenion cymhleth

Cefndir cryno'r Prosiect:

Er 2008, (a ninnau'n elusen cymorth canser ers dros 65 mlynedd) rydym wedi canolbwyntio ein gweithgarwch elusennol, yn unol â llawyfr NICE a pholisïau Llywodraeth Cymru, ar ddarparu system cymorth sy'n wirioneddol gyfannol ac wedi'i gynllunio er mwyn ymateb i anghenion cymhleth cleifion, eu teuluoedd a'u gofalwyr - system a ddarperir wrth wraidd y gymuned. Felly, rydym wedi ehangu ein Tîm Cymorth Canser sy'n cynnwys cwnselwyr canser penodol (gan gynnwys cwnselwyr profedigaeth) cynghorwyr lles a gweithwyr cymdeithasol. Yn dilyn cais llwyddiannus i'r loteri, byddwn yn awr yn cynnig ein gwasanaeth hawliau lles ym mhob un o'r byrddau iechyd lleol yng Nghymru. Yn gefn i hyn, mae gennym Lein Gymorth Radffon ar gyfer Canser. Fe'i rheolir gan Uwch Nyrs Datblygu, Cynghorydd Cymorth Canser ac Ymgynghorydd Iechyd. Fe'u cefnogir gan wirfoddolwyr hyfforddedig sydd wedi cael hyfforddiant achrededig ar fudd-daliadau.

Ar ôl iddynt gael diagnosis canser, bydd angen cymorth penodol ar y rhan fwyaf o bobl ynglŷn â materion sy'n ymwneud â lles a gofal cymdeithasol. Yn aml, nid oes digon o weithwyr proffesiynol ar gael i ddiwallu anghenion yr achosion cymhleth hyn. Mae hyn yn gallu rhoi mwy o faich ar nyrsys gan fod pobl yn disgwyl iddynt ymateb i'r galw hwn. Bydd y ddarpariaeth sy'n diwallu'r angen hwn yn aml yn dibynnu ar faint o adnoddau sydd ar gael mewn ardal benodol yr ydym yn ceisio'i gwasanaethu. Mewn ardaloedd gwledig ac mewn ardaloedd di-fraint, mae'n aml yn anodd iawn i bobl gael gafael ar wasanaethau.

Ym mis Chwefror 2009, lansiwyd Uned Cymorth Canser Deithiol gyntaf y byd, ac mae honno'n gallu mynd â chyngor, triniaeth (gan gynnwys cemotherapi), a gwybodaeth at wraidd cymunedau bregus. Yn ystod y flwyddyn diwethaf, wrth roi'r Uned hon ar waith, gwelwyd bod galw sylweddol am ei gwasanaeth. Mae cyfanswm o 4,048 o bobl wedi

ymweld â hi ers ei lansio ar Chwefror 2 2009. Rhwng yr adeg honno a diwedd Mawrth 2010, mae'r bws wedi bod ar agor am 214 diwrnod mewn 33 lleoliad yng Nghymru a Lloegr. Yn ystod yr un cyfnod, darparwyd 736 o driniaethau ac mae hyd at 25 o gleifion wedi cael triniaeth bob dydd y darperir cemotherapi.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Dyma ein deg prif neges:

- Yn Tenovus, rydym yno'n gefn ichi – o'r diagnosis, drwodd i'r driniaeth a'r tu hwnt.
- Byddwn yn eich helpu i ddeall eich triniaeth yn well, y sgil-effeithiau posibl a chynlluniau gofal ar gyfer y dyfodol drwy ein nyrsys oncoleg arbenigol.
- Byddwn yn cynnig yr help sydd ei angen arnoch chi ac ar eich teulu a hynny pan fydd ei angen arnoch, drwy ein tîm o weithwyr cymdeithasol a chwnselwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi at safon uchel.
- Byddwn yn dod â gofal, triniaeth a chymorth canser at wraidd y gymuned drwy ein Huned Cymorth Canser Deithiol.
- Byddwn yn darparu Lein Gymorth Radffon i'ch helpu i ateb unrhyw gwestiynau neu bryderon a all fod gennych.
- Byddwn yn lliniaru'r pwysau ariannol arnoch drwy eich helpu i hawlio'r budd-daliadau y mae gennych yr hawl iddynt.
- Byddwn yn ariannu ymchwil ac yn gwneud gwaith ymchwil hollbwysig, mewn meysydd gwyddonol a chymdeithasol amrywiol er mwyn ceisio atal a thrin canser ac er mwyn ceisio dod o hyd i iachâd.
- Byddwn yn eich helpu i ddod i delerau â'ch salwch a'r holl bethau a allai newid eich bywyd ac effeithio arnoch.
- Byddwn yn codi arian i'ch helpu gyda phob agwedd ar eich gofal canser.
- Byddwn yn helpu i godi ymwybyddiaeth o ganser drwy ddarparu profion iechyd a gwasanaethau addysg.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Bydd Tenovus yn defnyddio dwy system cronfa ddata i gofnodi, monitro a chadw golwg ar ei pherthynas ag unigolion a'u cynnydd, sef:

- MegaNexus ar gyfer pob atgyfeiriad a geir ynglŷn â phobl y mae canser yn effeithio arnynt
- Raiser's Edge ar gyfer pob cysylltiad arall.

Rheolir pob contract y bydd Tenovus yn ymgymryd ag ef o ddydd i ddydd gan adran berthnasol yr elusen. Mae'r Cyfarwyddwr Cymorth Canser yn aelod o Uwch Dim Rheoli'r elusen ac mae'n atebol i'r Prif Weithredwr ac i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.

Cofnodir manylion pob atgyfeiriad ar gyfer cymorth canser a geir gan Tenovus ar gronfa ddata Meganexus ein Tîm Cymorth Canser a bydd manylion yr holl wirfoddolwyr a recriwtir ac a hyfforddir gan yr elusen yn cael eu cofnodi ar ein cronfa ddata gyffredinol. O'r gronfa ddata hon, bydd modd tynnu gwybodaeth fanwl am gleifion canser, am eu teuluoedd ac am eu gofalwyr sy'n dymuno dychwelyd i'r gweithlu neu sy'n gwneud hynny. Mae'r gronfa ddata (a brynwyd yn benodol er mwyn ein helpu i ddadansoddi'n gwasanaeth yn well) yn gallu darparu adroddiadau rheoli dyddiol, wythnosol, misol, chwarterol a blynyddol.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Mae'r adroddiadau a geir o'r gronfa ddata'n ein galluogi i fesur a dilyn trywydd y gwasanaeth y mae'r prosiect yn ei roi i gleifion canser ac mae'n ein galluogi i fesur ein cynnydd yn erbyn y canlyniadau a bennwyd.

Mae'r Tîm Cymorth Canser yn gweithio'n glos gyda'r Tîm Ymchwil yn Tenovus, gan sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn ein gwasanaeth wedi'u seilio ar dystiolaeth a byddwn yn ymateb i anghenion a/neu fylchau yn ein gwasanaethau.

Costau:

- Cost flynyddol gweithredu'r Tîm Cymorth Canser yw oddeutu £578,000
- Cost flynyddol yr uned deithiol yw oddeutu £348,000

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Tîm amlddisgyblaeth yw'r Tîm Cymorth Canser sy'n cynnwys swyddogion hawliau lles, nyrsys oncoleg, cynghorwyr iechyd, gweithwyr cymdeithasol, cwnselwyr a gwirfoddolwyr hyfforddedig. Mae gan Tenovus Reolwr Datblygu Gwirfoddolwyr penodol i oruchwylio cefnogi a datblygu gwirfoddolwyr yn y Tîm Cymorth Canser.

Gwybodaeth ychwanegol:

Ewch i'n gwefan www.tenovus.org.uk i gael yr holl wybodaeth ddiweddaraf am ein gwasanaethau.

5.16. Gwasanaeth Atal Gorfod Derbyn Cleifion i'r Ysbyty - Age Concern, Gwent

Manylion Cysylltu: **Age Concern Gwent, Ysbyty St Woolos Casnewydd**
☎ 01633 238313
✉ david.liles@wales.nhs.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r gwasanaeth yn berthnasol i rai elfennau o bob un o'r newidiadau dylanwadol.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae'r gwasanaeth yn cynnig help a chymorth dros dro i bobl yn sy'n sâl, er mwyn atal gorfod eu derbyn i'r ysbyty. Bydd cleifion yn cael eu cyfeirio atom gan Feddygon Teulu a Staff Meddygol/Nyrsio'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys, gan yr Uned Asesu Meddygol a chan wardiau dynodedig yn Ysbyty Brenhinol Gwent. Ymwelir â Defnyddwyr Gwasanaethau o fewn dwyawr i dderbyn yr atgyfeiriad. Mae'r gwasanaeth ar gael rhwng 8am ac 8pm saith niwrnod yr wythnos, gan gynnwys ar Wyliau Banc. Bydd unrhyw un dros 50 oed ac sy'n byw ym Mwrdeistref Sirol Casnewydd yn gallu cael y gwasanaeth am ddim am 7 niwrnod.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Lleihau nifer y bobl hŷn sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty heb fod hynny'n briodol
- Ymateb yn gyflym gan roi gwasanaeth gofal am gyfnod penodol i helpu Defnyddwyr y Gwasanaeth yn eu cartref eu hunain ac atal gorfod eu derbyn i'r ysbyty.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Atal Gorfod Derbyn rhywun i'r Ysbyty
- Gwella/Adfer ansawdd bywyd
- Cryfhau/Adfer Annibyniaeth
- Cryfhau'r ymdeimlad o les
- Adfer Bywyd Annibynnol

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

- Adroddiad gan AGGCC
- Adroddiadau Monitro gan gomisiynwyr/arianwyr
- Adborth rheolaidd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth

Costau:
Ariannu gan Awdurdodau Lleol a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)
Mae'r gwasanaeth yn cael ei staffio gan weithwyr cyflog

Gwybodaeth ychwanegol:
Ni ddarparwyd gwybodaeth ychwanegol.

5.17. Gwasanaeth Ymateb Brys, Rhyddhau o'r Ysbyty

Manylion Cysylltu:
Age Concern Gwent
Gwasanaeth Ymateb Brys, Rhyddhau o'r Ysbyty
☎ 01633 234699
✉ david.liles@wales.nhs.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r gwasanaeth yn berthnasol i rai elfennau o bob un o'r newidiadau dylanwadol.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae'r Gwasanaeth Ymateb Brys, Rhyddhau o'r Ysbyty yn cynnig gwasanaeth dros gyfnod byr sy'n Ailablu pobl drwy gyfrwng gofal personol, a hynny i bobl dros 50 oed sy'n byw yn ardal Casnewydd wrth iddynt gael eu rhyddhau o'r ysbyty. Pecyn dros gyfnod byr am 14 diwrnod yw'r pecyn gofal a gynigir i ddefnyddiwr y gwasanaeth Ymwelir â hwy bob dydd yn ystod yr wythnos gyntaf, ac wedyn bob yn eilddydd yn yr ail wythnos.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Ymateb yn gyflym er mwyn i gleifion gael eu rhyddhau o'r ysbyty a chael gofal yn eu cartref eu hunain.
- Sicrhau nad oes yn rhaid i gleifion aros gyhyd cyn cael eu rhyddhau.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Cwtogi'r cyfnod a dreulir yn yr ysbyty
- Gwella/Adfer ansawdd bywyd
- Cryfhau/Adfer Annibyniaeth
- Cryfhau'r ymdeimlad o les
- Adfer annibyniaeth mewn bywyd bob dydd
- Atal Gorfod derbyn rhywun yn ôl i'r ysbyty

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

- Adroddiad gan AGGCC
- Adroddiadau monitro gan gomisiynwyr/arianwyr
- Adborth rheolaidd gan ddefnyddwyr y gwasanaeth

Costau:
Ariannu gan Awdurdodau Lleol

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)
Mae'r gwasanaeth yn cael ei staffio gan weithwyr cyflog

Gwybodaeth ychwanegol:
Ni ddarparwyd dim.

5.18. Gwasanaeth Gofal Seibiant Age Concern

Manylion Cysylltu: **Ysbyty St Woolos, Stow Hill, Casnewydd NP20 4SZ**
☎ 01633 240195
✉ respite@ageconcerngwent.org

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r gwasanaeth yn berthnasol i rai elfennau o bob un o'r newidiadau dylanwadol.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Nod y gwasanaeth yw darparu gofal seibiant yng nghartref y sawl y gofelir amdano er mwyn i'r gofalwr gael hoe o'i rôl gofalu. Darperir gofal i bobl dros 50 oed sy'n dioddef o salwch cronig neu afiechyd meddwl sy'n byw yng Nghasnewydd ac yn sir Fynwy. Bydd y cyfnodau gofal yn amrywio rhwng pedair a deuddeg awr ac fe'u darperir yn rheolaidd.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Nod y gwasanaeth yw hybu annibyniaeth a rhoi cymorth i'r Gofalwr allu parhau yn ei rôl gofalu, gan alluogi'r sawl y gofelir amdano i aros yn ei gartref ei hun. Cytunir ar ymweliadau rheolaidd fel sy'n hwylus i'r Gofalwr a byddwn hefyd yn darparu cymorth pan fydd angen apwyntiadau meddygol ac ati. Byddwn yn ceisio bod yn hyblyg os bydd Gofalwr yn dymuno newid y trefniadau neu am gael lleoliad ychwanegol ond mae hyn yn dibynnu ar ba bryd mae Gweithiwr Gofal ar gael. Gall y Gweithiwr Gofal wneud tasgau megis helpu rhywun gyda gofal personol, ei helpu i ymolchi, gwisgo, mynd i'r toiled ac ati, a helpu i baratoi prydau a bwydo rhywun ynghyd â'i ysgogi a bod yn gwmni yn ôl y gofyn.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Yn yr asesiad cychwynnol, byddwn yn gwerthuso pa ganlyniadau y mae defnyddwyr y gwasanaeth yn dymuno'u gweld drwy ofyn y cwestiynau a ganlyn i weld pam mae angen gofal seibiant arnynt.

Gallu cael amser iddynt eu hunain, gallu cael bywyd cymdeithasol/diddordebau hamdden, gallu cael gwyliau, gallu treulio amser gyda'u teulu, gallu gwneud rhywbeth sy'n bwysig iddynt, gallu parhau i weithio/cael addysg, gallu cael noson dda o gwsg, cael cymorth emosiynol, Rheswm arall. Wrth adolygu'r ddarpariaeth, byddwn wedyn yn gofyn a gyflawnwyd yr amcanion hyn ac a yw'r canlyniadau wedi newid.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Ceir adborth i'r gwasanaeth ar Ffurflenni Gwerthuso'r Cleient ac yn Adroddiad Blynyddol AGGCC. Rydym wedi bod yn helpu nifer o gleientiaid ers blynyddoedd lawer, gan roi cyfle iddynt aros gartref. Mae cryn alw am ein gwasanaeth ac mae llawer o bobl sydd wedi'u cyfeirio atom yn disgwyl cymorth. Adroddiadau monitro gan Gomisiynwyr/Arianwyr

Costau:

Fe gawn arian gan Awdurdodau Lleol a chan Fwrdd Iechyd Lleol

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Telir yr holl staff naill ai ar sail Oriau Contract neu Oriau Banc.

Gwybodaeth ychwanegol:

Ni ddarparwyd dim.

5.19. Gofal Crossroads

Manylion Cysylltu: **Andi Lyden**
Rheolwr Datblygu
Gofal Crossroads Cymru

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae cysylltiadau amlwg â phob un o'r 10 Newid Dylanwadol.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae Crossroads Cymru'n darparu ystod o wasanaethau a chynlluniau ledled Cymru ar y cyd â llywodraeth leol a'r GIG. Mae'r cynlluniau hyn yn cynnwys gweithio gyda meddygon teulu y tu allan i oriau, gwasanaethau i osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty'n ddiangen, cynorthwyo a chefnogi gofalwyr a chynlluniau ymateb arbenigol mewn argyfwng.

Gall gwasanaethau ymateb yn hyblyg er mwyn rheoli pethau wrth i anghenion pobl newid, gan fabwysiadu dull asesu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn. Maent yn gallu rheoli anghenion a gofynion cymhleth ac ymateb iddynt drwy gysylltu ag asiantaethau statudol a gwirfoddol eraill er mwyn mynd ati mewn ffordd gydlynol.

Mae gofal Crossroads yn ymwneud â rhaglenni rhanbarthol penodol ac fe ellid ehangu'r rhain i ardaloedd eraill. Mae'r rhain yn cynnwys prosiect CIC yng Nghonwy – prosiect o dan arweiniad consortia sy'n cynnwys BILl Conwy, Gwasanaethau Cymdeithasol Conwy, y Tîm Gofal Canolraddol, Y Groes Goch Brydeinig a Gofal Crossroads Gogledd Cymru. Yn y prosiect hwn, darperir gwasanaeth am ddeuddeg wythnos er mwyn osgoi gorfod derbyn pobl yn ôl i'r ysbyty.

Nodau ac amcanion:

Mae gofal Crossroads yn darparu ystod eang o gynlluniau a gwasanaethau, a bydd gan bob un o'r rheini ei nodau a'i amcanion ei hun.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Mae gofal Crossroads yn gweithio'n glos gydag asiantaethau eraill er mwyn sicrhau bod canlyniadau'n cael eu nodi a'u cofnodi ar gyfer eu cynlluniau a'u gwasanaethau.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Mae canfyddiadau sy'n seiliedig ar ganlyniadau ar gael ar gyfer y gwasanaethau a ddarperir. Yn ogystal â hynny, mae systemau rheoli'n sicrhau bod data ar gael i sicrhau cyfatebiaeth gywir â phob system.

Mae gan gynlluniau Gofal Crossroads yng Nghymru strwythur sy'n gallu gweithio ar lefel genedlaethol wrth baratoi cynlluniau tymor hir a bydd y Byrddau Iechyd yn mynd i'r afael ag anghenion penodol yn rhanbarthol ac yn lleol.

Costau:

Mae costau'r cynlluniau'n amrywio, a dibynnu ar eu pwrpas a'u gofynion.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Ffurfiol drwy gyfrwng gweithlu medrus

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gofal Crossroads wedi darparu gwybodaeth gefnogol fanwl ac wedi mapio'i wasanaethau yn erbyn canllawiau'r *10 Newid Dylanwadol ar gyfer Gofal Cymhleth,* sy'n nodi'r cyfraniad a wneir at fodloni gofynion pob un o'r newidiadau dylanwadol hyn.

Mae rhagor o wybodaeth, gan gynnwys gwybodaeth am yr ymarfer mapio, ar gael gan Crossroads ei hun.

5.20. Asesiadau Gofalwyr Powys

Manylion Cysylltu:

Canolfan Gofalwyr Powys
Coniston House, Stryd y Deml
Llandrindod, Powys, LD15HG
☎ 01597 823800

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Model ymyrryd cynnar sy'n ymwneud â natur generig gofalwyr

Cefndir cryno'r Prosiect

O dan Ddeddf Cyfle Cyfartal (Gofalwyr) 2004, mae'n ddyletswydd at awdurdodau lleol i gynnig a chynnal Asesiad Gofalwyr,

Fel rheol, aelod o'r tîm gwasanaethau cymdeithasol sy'n cyflawni'r ddyletswydd hon, ac mae hynny'n anochel wedi arwain at gyfnodau aros hir ac/neu'n golygu bod cynnal yr asesiadau hyn wedi bod yn flaenoriaeth isel.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Cynnal asesiadau'n gynharach a thrwy hynny, ganfod yn gynharach o bosibl anghenion nad yw'r gwasanaethau statudol yn eu diwallu, ac os gwelir bod anghenion ac mai'r gwasanaethau statudol sydd yn y sefyllfa orau i'w diwallu, cyfeirio rhywun at y gwasanaethau hynny.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Mae'r prosiect wedi bod ar waith ers 3 mis a'r bwriad yw ei werthuso ar ddiwedd blwyddyn. Hyd yn hyn, mae 18 o ofalwyr wedi cael eu hasesu gan un o Weithwyr Allgymorth dynodedig Gwasanaeth Gofalwyr Powys. Mae'r gweithiwr Allgymorth yn gallu cynnig asesiad cyflym, cynllun cymorth a ffynhonnell gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth emosiynol. Cynhelir gwerthusiad cychwynnol erbyn mis Mawrth 2011 ond, hyd yn hyn, barn pob Gofalwr yw bod yr asesiad wedi bod yn fuddiol ac mae nifer fach wedi cael eu cyfeirio ymlaen at wasanaethau statudol brys. Mae ymyrryd yn gynnar wedi galluogi gofalwyr i fyfyrio ar eu rôl ac ar y dyfodol ac i ddod o hyd i ffynonellau cymorth ychwanegol. Mae'r ymyrryd cynnar hwn yn golygu bod eu hiechyd a'u lles yn dirywio llai.

Cyfeirio un cwpwl at Rethink (elusen iechyd meddwl) oedd "y peth gorau ddigwyddodd erioed".

Dywedodd gofalwr wrthym fod ymyriad Canolfan Gofalwyr Powys "wedi ei helpu go iawn i feddwl yn fwy clir ac wedi dangos y ffordd ymlaen".

Dywedodd un arall, "Rydych chi wedi llwyddo i fynegi'n fanwl bopeth yr oeddwn yn poeni amdano ond na allwn ei fynegi. Mae wedi bod yn gymaint o help trafod popeth efo chi. Gallaf weld ffordd ymlaen imi'n hun yn awr ac mae'n ffordd wirioneddol gadarnhaol. Rwy'n teimlo bod baich mawr wedi'i godi oddi arna'i".

Mewn arolwg diweddar gan Ganolfan Gofalwyr Powys, dywedodd 70% o'r ymatebwyr eu bod yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod y Ganolfan wedi'u helpu i barhau i ofalu, gan eu galluogi i gael mwy o reolaeth dros eu bywyd a gwella'u hiechyd a'u lles.

Costau:

£17,000 y flwyddyn (1 gweithiwr rhan amser)

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

- Trefniant ffurfiol yw'r prosiect (peilot chwe mis) rhwng Gwasanaeth Gofalwyr Powys a gwasanaethau cymdeithasol Powys.
- Mae Gwasanaeth Gofalwyr Powys yn cynnig gwybodaeth, cyngor ac eiriolaeth drwy rwydwaith o weithwyr allgymorth yn y gymuned.
- Mae gwasanaethau Cyngor Sir Powys i Oedolion yn ariannu un o Weithiwr Allgymorth rhan-amser Gwasanaeth Gofalwyr Powys i gynnal Asesiadau Gofalwyr yng Nghanol Powys. Os bydd y peilot yn llwyddo, bwriedir ehangu'r gwasanaeth drwy Bowys i gyd.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae adroddiadau Atebolrwydd ar sail canlyniadau a'r data a ganlyn ar gael:

- Nifer yr Asesiadau Gofalwyr a gwblhawyd
- Nifer cynlluniau Cymorth Gwasanaeth Gofalwyr Powys a gwblhawyd yng nghyswllt Asesu Gofalwyr.
- Asesiadau Gofalwyr a drosglwyddwyd i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Adolygiad yn ystod 6 mis cyntaf prosiect ac ar ddiwedd prosiect o'r holl Asesiadau Gofalwyr a gynhaliwyd. Ystadegau am ymyriadau a chanlyniadau.
- Holiadur Ansawdd Bywyd Gofalwr cyn diwedd prosiect ac ar ei ddiwedd.
- Holiadur rhanddeiliaid ynghŷd â'r canlynol: y broses, cyfathrebu, budd-daliadau, cryfderau a gwendidau
- Astudiaethau achos
- Asesiadau Gofalwyr sydd wedi'u dechrau ond heb eu cwblhau a chofnodir rhesymau hefyd.

5.21. Gwasanaeth Ymateb Brys yn y Cartref, Powys

Manylion Cysylltu: **Gofal Crossroads Canolbarth a Gorllewin Cymru**
2 Wheat Street, Aberhonddu, LD37DG
☎ 01874 610900
✉ mid.west@crossroads.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Diwallu anghenion generig gofalwyr ar draws y deg maes ac osgoi gorfod derbyn pobl i'r ysbyty.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Byddai pobl yn cael eu derbyn i'r ysbyty'n ddiangen pan nad oedd gan wasanaeth tu allan i oriau'r meddygon teulu ddewis arall ond anfon rhywun i'r ysbyty os oedd angen cadw golwg meddygol ar gyflwr y claf.

Drwy gontractio darparwr sydd wedi'i gofrestru i ddarparu gwasanaeth o'r fath, gellid arbed arian sylweddol a sicrhau effeithlonrwydd o ran y nifer y gwelyau a lenwir mewn ysbyty, costau ambiwlans, tarfu emosiynol a byddai modd sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n fwy prydlon.

Trefniant partneriaeth rhwng Bwrdd Addysgu Iechyd Powys, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys a Gofal Crossroads yw'r prosiect.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Darparu cymorth a gofal tymor byr mewn argyfwng yng nghartrefi pobl eu hunain, pan dybir nad yw'n briodol derbyn rhywun i'r ysbyty.
- Rhoi cymorth i ofalwyr i'w galluogi i barhau yn eu rôl gofalu a chynnal eu lles personol.
- Cyfrannu at ddull cydlynol rhwng gwasanaethau meddygol, cymdeithasol a'r trydydd sector er mwyn i'r unigolyn allu aros gartref, gan ei helpu i adennill yr annibyniaeth a oedd ganddo gynt.
- Galluogi unigolion i oresgyn pwl lle bydd eu hiechyd a'u lles yn dirywio.
- Cyfrannu at roi gwybodaeth i'r tîm gofal a fydd yn sail wrth iddynt gynllunio gwasanaethau'r dyfodol.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Bydd cost derbyn rhywun i'r ysbyty o dan yr amgylchiadau hyn yn amrywio rhwng £800 a £2000 y dydd o'i gymharu â chontractio gwasanaeth tymor byr yn y cartref nad yw'n costio mwy na £350 ar sail cost uned dros nos.

Bydd pob atgyfeiriad a phob claf a gedwir y tu allan i'r ysbyty'n cael ei osod yn erbyn yr arbedion hyn.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Dechreuodd y gwasanaeth yn gynnar ym mis Hydref ac atgyfeiriwyd 10 achos ato hyd yn hyn. Mae'r gyfradd yn cynyddu. Mae'r arwyddion cyntaf wedi bod mor galonogol nes bod y gwasanaeth ar fin dechrau yng Nghanolbarth Powys hefyd.

Costau:

Contract £80K y flwyddyn ar gyfer y darparwr cofrestredig

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Mae trefniadau contractio ffurfiol ar waith

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae PAVO wedi darparu manyleb gwasanaeth fanwl yn gefn i'r templed hwn. Mae hon ar gael gan PAVO ac mae'n nodi'n fanwl y tasgau cyffredinol ac arbenigol sydd yn rhan o'r gwasanaeth.

5.22. Robense House (Prosiect Teulu WISH)

Manylion Cysylltu: **Robense House**
12 Uplands Terrace, Uplands, Abertawe
☎ 01792 450040
✉ Mark.Hopkins@fha-wales.com

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

.

- **Newid Dylanwadol 1** – Drwy sicrhau bod defnyddwyr y gwasanaeth yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd a chefnogi pobl yn eu cartrefi eu hunain.
- **Newid Dylanwadol 2** – Drwy gynnwys pawb e.e. defnyddwyr gwasanaeth, ni'n hunain, sef y rhai sy'n darparu'r gofal a chymorth, aelodau'r teulu a gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol sy'n gofalu am yr unigolyn wrth gynllunio i ddiwallu anghenion cymhleth.
- **Newid Dylanwadol 3** – Drwy sicrhau bod y gwasanaeth yn canolbwyntio ar yr unigolyn a bod y gofal a'r cymorth a roddir i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cael eu teilwra i ddiwallu eu hanghenion unigol gan sicrhau eu bod yn gallu byw mor annibynnol ag y bo modd.
- **Newid Dylanwadol 4** - Drwy fabwysiadu dull tîm amlddisgyblaeth a thrwy weithio'n glos ac mewn ffordd gydlynol gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn diwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth yn y ffordd orau un.
- **Newid Dylanwadol 5** – Drwy weithio gyda defnyddwyr y gwasanaeth cyn eu rhyddhau o'r ysbyty (gwaith cyn-denantiaeth) a thrwy ymwneud â'r broses rhyddhau o'r cychwyn.
- **Newid Dylanwadol 6** - Drwy ddatblygu cynlluniau wrth gefn a threfniadau cydweithio gyda gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol, seicoleg glinigol, timau iechyd meddwl cymunedol, therapi galwedigaethol a thimau ymyrryd mewn argyfwng, gan sicrhau bod gan staff lwybr at gyngor ac adnoddau arbenigol a bod y prosesau'n glir ar gyfer ymdrin â sefyllfa sy'n gwaethygu. Mae'r rhain yn cynnwys cynlluniau rheoli risg a gweithdrefnau sy'n ategu'r Asesiad Unedig.
- **Newid Dylanwadol 7** - Drwy weithio mewn partneriaeth â gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i ddarparu gofal a chymorth ar y cyd ar gyfer ddefnyddwyr y gwasanaeth yn eu cartref eu hunain.
- **Newid Dylanwadol 8** – Drwy ddatblygu system casglu data sydd wedi'i theilwra'n arbennig ar gyfer cyfraniadau a chanlyniadau defnyddwyr y gwasanaeth yn y prosiect hwn ynghyd â seicoleg glinigol sy'n galluogi rheolwyr i werthuso'r gwasanaeth yn drwyadl gan ddefnyddio gwybodaeth sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth er mwyn gwella'r gwasanaeth.
- **Newid Dylanwadol 9** – Menter ar y cyd rhwng yr awdurdod Iechyd a'r Awdurdod Lleol oedd comisiynu'r prosiect hwn gan ganolbwyntio ar wella ansawdd a chost-effeithiolrwydd. Wrth werthuso'r gwasanaeth ar y dechrau, dangosodd y canlyniadau dystiolaeth bod y prosiect yn sicr yn gwireddu'r nod hwn. Dyma enghreifftiau o waith partneriaeth effeithiol: asesiadau ar y cyd, rhannu gwybodaeth, mynediad at hyfforddiant, staff yn cael cymorth arbenigol gan weithwyr iechyd

proffesiynol e.e. seicoleg a therapi galwedigaethol, i'w helpu i allu darparu gwell gofal a chymorth i ddefnyddwyr y gwasanaeth.

- **Newid Dylanwadol 10** – Drwy gefnogi symud at leoliad cymunedol ac wrth i'r gwasanaeth iechyd ddarparu adnoddau megis hyfforddiant a chymorth arbenigol i staff y prosiect.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae'r prosiect yn darparu dewis amgen yn lle gorfod treulio cyfnod hir yn yr ysbyty a gofal preswyl preifat drudfawr. Cam 5 o raglen ailgartrefu Ymddiriedolaeth Iechyd Abertawe, fel yr oedd ar y pryd, yw hwn. Fe'i comisiynwyd fel menter ar y cyd rhwng Iechyd a Chefnogi Pobl a'i nod oedd darparu lleoliad mewn tai â chymorth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl cymhleth ac sy'n gymwys ar gyfer arian gofal iechyd parhaus. Mae gan Ddefnyddwyr Gwasanaethau eu tenantiaethau eu hunain yn hytrach na'u bod yn byw mewn lleoliad gofal preswyl ac maent yn cael cymorth perthynol cymharol ddwys sy'n canolbwyntio ar alluogi pobl i fyw mor annibynnol ag y bo modd yn y gymuned.

Comisiynwyd y prosiect yn ystod haf 2009 ac fe agorodd ar 11 Ionawr 2010.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Mae gwybodaeth fanwl ar gael am y nodau a'r amcanion.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Mae gwybodaeth fanwl am ganlyniadau ar gael mewn adroddiad gwerthuso ar wahân.

Pa dystiolaeth sydd i bod y cynllun yn llwyddo?

Mae adroddiadau ar gael gan ymgynghorwyr annibynnol. Mae tystlythyron ar gael hefyd. Mae adroddiad gwerthuso ar wahân wedi'i baratoi.

Costau:

Heb eu darparu

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Ffurfiol – staff cyflog.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gwybodaeth adrodd ychwanegol, gan gynnwys tystlythyrau, enwebiadau am wobrau a chanlyniadau ar gael yn uniongyrchol gan Robense House.

5.23. Gofal Parhaus Sir Gaerfyrddin

(Rhaglen Cefnogi Annibyniaeth yn y Cartref)

Manylion Cysylltu:

C/O PAI
3 Heol Rhosyn, Parc Dafen, Dafen, SA14 8QG
☎ 01554 7570896
✉ BRCSSP-Llanelli@redcross.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mewn partneriaeth, mae Gofal Parhaus Sir Gaerfyrddin wedi mapio'i waith yn erbyn y newidiadau dylanwadol ac fe ellir rhestru cysylltiadau â'r canlynol: Newid 1, 2, 3, 4, 5, 6, 9, a 10.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Ym mis Tachwedd 2006, dechreuodd y Groes Goch Brydeinig yng Nghaerfyrddin gydweithio â'r Tîm Ymateb Aciwt. Bu'r Groes Goch Brydeinig, gyda 3 o weithwyr cymorth rhan-amser, yn gweithio ochr yn ochr â'r Tîm Ymateb Aciwt i ddarparu cymorth gofal cymdeithasol ar gyfer cleifion y mae angen ymyriad nyrsio arnynt a hwnnw'n wasanaeth y gellir ei ddarparu yn eu cartrefi eu hunain. Nod y gwasanaeth yw atal gorfod derbyn pobl i'r ysbyty'n pan na fydd hynny'n briodol a hwyluso'u rhyddhau'n gynharach.

Yn ystod ein gwaith partneriaeth gyda'r Tîm Ymateb Aciwt, gofynnwyd i'r Groes Goch gynorthwyo'r Nyrsys Rhanbarth a'r tîm wrth roi gofal parhaus i gleifion diwedd oes. Darparwyd y gofal cymdeithasol gan y Groes Goch a thrwy gofrestru gydag AGGCC, roedd yn gallu darparu'r gofal personol angenrheidiol er mwyn galluogi'r cleifion i aros gartref gyda'u ceraint.

Yn 2008, mae'r Groes Goch Brydeinig, ar y cyd â Marie Curie, yn darparu gofal diwedd oes i gleifion sy'n dymuno dewis ymhle y maent am farw. Mae'r Groes Goch Brydeinig yn darparu'r gwasanaeth 7 niwrnod yr wythnos, rhwng 8 am a 5pm, gan ymweld sawl gwaith â chleifion, a chan ddarparu cymorth ymarferol ac emosiynol i gleifion a'u teuluoedd.

Gweithgarwch cyfredol – 69 o gleifion a'u teuluoedd wedi'u cefnogi hyd yn hyn yn 2010.

Darparu 210 Awr yr wythnos, gyda 7 x Uwch Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd amser llawn ac 1 x rhan amser yn cael eu rheoli'n weithredol gydag Arweinydd Tim a Rheolwr Gofal yn y Cartref (Rheolwr Cofrestredig AGGCC). Mae'r Uwch Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd ac Uwch Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd Marie Curie yn gwasanaethu ar rota 24/7 er mwyn sicrhau bod y cleifion yn cael gofal parhaus di-dor.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Darparu cymorth ymarferol ac emosiynol i gleifion a'u teuluoedd yn eu cartrefi eu hunain i'w galluogi i ddewis ymhle y maent am farw a hynny gydag urddas a pharch .

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Yn 2006/07, 21.6% o gleifion a gafodd farw gartref. Ein nod, drwy waith partneriaeth ar draws y sectorau, yw cynyddu'r ganran honno.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Mae Adroddiad gan WHISC ac Adroddiad AGGCC 2010 ar gael, ac maent yn dangos canlyniadau'r cynllun.

Costau:

Llifau ariannu cyfredol = £158K

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Prosiect ffurfiol yw hwn ac mae'n cael ei ddarparu drwy gyfrwng Uwch Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd ag NVQ lefel 3 mewn Hyfforddiant Gofal a Diwedd Oes.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae adroddiadau ychwanegol manwl a gwybodaeth am ganlyniadau ar gael drwy gysylltu'n uniongyrchol â'r pwynt cyswllt.

5.24. Kaleidoscope Casnewydd

Manylion Cysylltu:
Adeilad yr Hen Ysgol
Powell's Place, Casnewydd, NP20 1LU
☎ 01633 245890
✉ sian.chicken@kaleidoscopeproject.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Gellir mapio'r prosiect yn erbyn y 10 newid dylanwadol. Dyma'r prif gysylltiadau:

- gwaith tîm amlddisgyblaeth effeithiol
- gwasanaethau integredig a phartneriaethau effeithiol

Mae'r prosiect hefyd yn ymateb i'r 8 newid arall.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Cenhadaeth Kaleidoscope Casnewydd yw cyfrannu at fywydau diogel a bodlon, sy'n rhydd rhag cyfyngiadau camddefnyddio sylweddau – ar gyfer pawb sy'n defnyddio'n gwasanaethau, eu plant, y bobl o bwys yn eu bywyd a'r gymuned ehangach. Drwy'r contract hwn, cawn ein comisiynu i ddarparu'r gwasanaethau a ganlyn:

Rhagnodi cyffuriau amgen
Gwasanaethau Lleihau Niwed
Un Pwynt Cyswllt
System gofal-ddyletswydd
Cydgyfarfodydd Dyrannu
Cydlynu Asesiadau a Gofal Cynhwysfawr
Cwnsela Wedi'i Gynllunio ar gyfer Gofal Strwythuredig
Gweithgareddau Arallgyfeirio
Cymorth Dadwenwyno Cymunedol
Gwasanaethau BBV
Hybu Iechyd
Bibliotherapi
Gwaith allgymorth
Rhaglen Paratoi
Gofal Dydd
Ôl-ofal

Defnyddir yr adeilad sydd wedi'i gynllunio at y diben yn Powell's Place yn ganolfan i'r gwasanaethau.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Busnes craidd Kaleidoscope yng Nghymru a Lloegr yw darparu gwasanaethau meddyginiaeth amgen ar bresgripsiwn. Dyma nodau'r gwasanaeth:

- Denu defnyddwyr sylweddau i ymwneud â dilyniant o wasanaethau er mwyn lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â sylweddau ac agor y drws ar fywyd sy'n rhoi mwy o fodlonrwydd a boddhad.
- Sefydlogi a dadwenwyno defnyddwyr gwasanaethau ar feddyginiaeth amgen briodol er mwyn lliniaru'r symptomau sy'n codi wrth iddynt roi'r gorau i gyffur a lliniaru eu chwant amdano gan leihau'r defnydd ar gyffuriau anghyfreithlon neu gyffuriau sydd heb eu rhoi ar bresgripsiwn nes iddo/iddi allu byw bywyd heb gyffuriau.

Dyma amcanion y gwasanaeth:

- Darparu un pwynt mynediad ac asesiad brysbennu
- Targedu grwpiau risg uchel a'r grwpiau sy'n flaenoriaeth yn lleol
- Denu camddefnyddwyr sylweddau i gael lefel briodol o driniaeth
- Lleihau'r niwed sy'n gysylltiedig â sylweddau
- Gwella a chefnogi cymhelliant cleient
- Hybu a gwobrwyo'r defnyddwyr hynny sy'n cydymffurfio
- Asesu cleientiaid yn briodol er mwyn gallu datblygu llwybrau gofal unigolyddol gyda chleientiaid.
- Defnyddio modelau cydnabyddedig sy'n cefnogi integreiddio
- Helpu cleientiaid i ailadeiladu rhwydweithiau cymdeithasol y tu allan i'r gymuned sy'n defnyddio cyffuriau
- Sicrhau bod y gwasanaeth yn cysylltu â phob cleient sy'n pellhau oddi wrth y gwasanaeth a hynny o ddechrau darparu'r gwasanaeth
- Datblygu cyfranogaeth ddefnyddiwr y gwasanaeth
- Bod llwybrau gofal gweithredol ac wedi'u dogfennu ar waith drwy ddatblygu protocolau gweithio
- Bod llwybrau gofal gweithredol ac wedi'u dogfennu ar waith gyda gwasanaethau Haen 2, 3, a 4 priodol eraill

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Bydd Kaleidoscope yn darparu gwybodaeth fanwl ar gyfer y comisiynwyr bob chwarter. Mae set gyflawn o ganlyniadau ar gael mewn adroddiadau gan Kaleidoscope. Mae'r wybodaeth hon yn feintiol ac yn ansoddol ei natur. Mesurir Kaleidoscope hefyd ar sail Dangosyddion Perfformiad Allweddol a bennwyd gan Lywodraeth Cymru.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Mae Kaleidoscope wedi cyflawni'r holl Ddangosyddion Perfformiad Allweddol a restrwyd ar hyd yr adeg. Gallwn gynnig gwasanaeth cwbl gynhwysfawr i'n cleientiaid.

Costau

£635,000

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Mae'r Prosiect yn ffurfiol, gyda gofalwyr cyflog.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gwybodaeth fanwl ar gael ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir, nodau, amcanion a chanlyniadau.

www.kaleidoscopeproject.org.uk

Cysylltwch â Kaleidoscope os ydych chi am weld adroddiad blynyddol.

5.25. Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn

(Darperir gan Reach – Comisiynwyd gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan)

Manylion Cysylltu:

Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn
Alders House, Ysbyty Llanfrecha Grange,
Cwmbrân. NP44 8YN
☎ 07837033305
✉ **sarah.beckingham@reach-support.co.uk**

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae modd mapio'r Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn i bobl ag anghenion cymhleth/wedi'u labelu'n bobl ag ymddygiadau a allai fod yn heriol yn erbyn sawl newid dylanwadol. Y prif gysylltiad yw'r cysylltiad â Rhif 1, Osgoi tarfu ar y prif leoliad gofal. Mae'r broses Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn canolbwyntio ar sicrhau bod dewisiadau a safbwyntiau personol yr unigolyn cael eu hystyried ac un elfen bwysig yn hyn yn aml yw eu bod yn gallu parhau i fyw lle maent yn byw eisoes (yn hytrach na gorfod mynd i'r ysbyty) ni waeth beth sy'n digwydd ym mywyd yr unigolyn ar y pryd. Gall cynnal annibyniaeth yr unigolyn a'i gadw yn y gymuned fod yn allweddol er mwyn osgoi gormod o darfu ar ei fywyd gan sicrhau ar yr un pryd ei fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Dyma Newidiadau Dylanwadol eraill y gellir mapio'r prosiect yn eu herbyn.

- Rhif 3 – Cytuno ar Sbardunau ac asesiadau amserol
- Rhif 4 – Gwaith amlddisgyblaeth effeithiol
- Rhif 5 - Cynllunio rhagweithiol ar gyfer rhyddhau
- Rhif 8 – Canolbwyntio ar y data ar gyfer gofal cymhleth
- Rhif 9 - Gwasanaethau integredig a phartneriaethau effeithiol
- Rhif 10 - Gweithlu sydd wedi'i gynllunio i wasanaethu anghenion cymhleth

Cefndir cryno'r Prosiect:

Ym mis Ebrill 2008, cymeradwywyd cynigion comisiynu i ddatblygu gwasanaethau i bobl ag anabledd dysgu sy'n ymddwyn mewn ffordd heriol a/neu sydd â phroblemau iechyd meddwl, gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu Gwasanaethau Ymyrryd Cymunedol Dwys (ICIS), gwasanaethau Pecynnau Cymorth Dwys, yn ogystal â rhagor o adnoddau ar gyfer yr Uned Asesu a Thrin. Un o brif amcanion y gwasanaethau hyn oedd sicrhau bod gwasanaethau'n canolbwyntio ar unigolion a'u bod yn ymateb i anghenion pobl. Er mwyn gallu gwireddu'r amcan hwn, roedd angen Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn. Rhoddodd Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan y gwasanaeth hwn allan i dendr a llwyddodd 'reach' i ennill y contract. Prosiect 2 flynedd yw'r Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn ac fe ddechreuodd ym mis Ebrill 2010.

Nodau ac amcanion y prosiect:

- Sicrhau bod yr unigolyn, ei deulu, ei ofalwyr a Thimau Amlddisgyblaeth yn cael eu cynnwys yn llawn wrth gynllunio

- Hwyluso cynlluniau gyda phobl ag anghenion cymhleth ar draws ystod y gwasanaethau (ICIS, ISP ac A&T) a ddarperir gan Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Bydd y cynlluniau hyn yn rhoi llais i bobl ag anghenion cymhleth ac i'w teuluoedd.
- Cwblhau Cynllun Gwasanaeth Unigol lle bo hynny'n briodol sy'n rhoi manylion gwasanaeth sydd wedi'i deilwra ar gyfer yr unigolyn.
- Darparu hyfforddiant i'r staff ar draws y gwasanaethau hyn a'r hyfforddiant hwnnw'n eang ac yn ddwfn.
- Dynodi, hyfforddi a mentora aelodau o staff Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan fel Hwyluswyr Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn er mwyn datblygu'r gallu i gynllunio yn fewnol.
- Sefydlu grŵp cyfeirio Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn er mwyn i bobl rannu eu profiadau a llunio'r Gwasanaeth Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Nifer y cynlluniau (cytunwyd ar 25 dros ddwy flynedd)
- Nifer y diwrnodau hyfforddi – ehangder a dyfnder
- Nifer y canlyniadau a nodwyd ar gyfer unigolion yn eu cynlluniau
- Nifer y canlyniadau a gyflawnwyd ar gyfer unigolion
- Nifer yr Hwyluswyr Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn a hyfforddwyd

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun yn llwyddo?

Canlyniadau llwyddiannus a chefnogaeth anecdotaidd gan deuluoedd am y gwahaniaeth y mae wedi'i wneud. Cyfeiriwyd Mr X at Gynllun sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn gan yr Uned Asesu a Thrin. Roedd wedi bod yn yr Uned ers tro ac roedd angen cynllunio er mwyn iddo allu symud oddi yno. Bu'r Hwylusydd Cynllunio sy'n Canolbwyntio ar yr Unigolyn yn gweithio gyda'r unigolyn, gyda'i deulu a chyda'i ffrindiau, yn ogystal â chyda'i ofalwyr a'r tîm amlddisgyblaeth i baratoi Cynllun Ffordd o Fyw Hanfodol a Chynllun Gwasanaeth Unigolyn. Bu hynny'n help i fapio'r gwasanaeth iawn ar ei gyfer ac i sicrhau'r staff cymorth iawn a fyddai'n gall ymateb i'w anghenion, ei hobïau a'i ddiddordebau. Mae Mr X wedi symud i'w gartref newydd sy'n cyfateb yr hyn a ddisgrifiwyd yn ei Gynllun Gwasanaeth Unigol. Mae'r holl addasiadau a restrwyd wedi'u cwblhau er mwyn sicrhau ei fod yn ddiogel ond ei fod yn gallu bod yn annibynnol yn ei gartref ei hun. Mae'r tîm staff hefyd wedi cael eu recriwtio'n unol â'r nodweddion a restrwyd fel rhai a fyddai'n addas ar ei gyfer.

Costau

£30,000.00 y flwyddyn

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Ffurfiol

Gwybodaeth ychwanegol:

Ni ddarparwyd dim.

5.26. Clipiau Fideo Profion Iechyd

Manylion Cysylltu:
Mencap Cymru
31 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd, CF14 5GF
☎ 02920 747588
✉ helpline.wales@mencap.org.uk

Cysylltiadau â'r 10 Newid Dylanwadol:

Gellid yn hawdd gysylltu lledaenu'r clipiau fideo â Newid Dylanwadol Mawr 3, gan fod y prosiect yn mynd i'r afael yn benodol â phryderon ynglŷn â "asesu prydlon". Mae'r egwyddorion sy'n ymwneud â chanolbwyntio ar bobl wrth asesu gofal yn adlewyrchu'r egwyddorion a oedd yn sail i gynhyrchu'r clipiau fideo.

Mae'r Dangosyddion ar gyfer Canlyniadau, yn benodol y cynlluniau gofal sy'n diffinio canlyniadau a nodau ac yn cwtogi cyfnodau aros mewn ysbyty, yn dargedau y byddai Mencap yn gobeithio cyfrannu atynt gyda'r clipiau fideo.

Mae'r pwyslais sydd ar hybu annibyniaeth yn Newid Dylanwadol 1, hefyd yn adlewyrchu pwrpas y clipiau fideo. Bwriedir i'r clipiau fideo sicrhau bod pobl ag anabledd dysgu yn gallu chwarae eu rhan yn eu gofal iechyd. Mae'r clipiau'n rhoi gwybod iddynt nid dim ond am eu hawl i gael prawf iechyd, ond hefyd am y prosesau sy'n arwain at y prawf hwnnw a'r hyn sy'n digwydd wedyn.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Siaradodd Mencap Cymru â mwy na 1000 o bobl er mwyn cael syniad sut brofiad oedd defnyddio'r gwasanaethau iechyd i bobl ag anabledd dysgu. Gwelsom fod pobl ag anabledd dysgu'n fwy tebygol o fod wedi wynebu diffyg cydraddoldeb wrth geisio cael gafael ar ofal iechyd.

Yna, o ganlyniad uniongyrchol i'n hymgyrch ac ymgyrch ehangach Mencap ledled y Deyrnas Unedig, lansiodd y Comisiwn Hawliau Anabledd ac Arolygiaeth Iechyd Cymru ymchwiliadau i wasanaethau iechyd ar gyfer pobl ag anabledd dysgu.

Yn yr ymchwiliadau hyn, cadarnhawyd bod lefel y gofal iechyd sydd ar gael i bobl ag anabledd yn ddiffygiol yng Nghymru ac yng ngweddill y Deyrnas Unedig.

Yn dilyn llwyddiant ymgyrch Gofalwch Amdanaf Mencap Cymru, cyflwynodd Llywodraeth Cymru brofion iechyd blynyddol am ddim i bobl ag anabledd dysgu sy'n hysbys i'r gwasanaethau cymdeithasol.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Ar ôl pedair blynedd, mae'r profion iechyd hyn yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau pobl ag anabledd dysgu. Er hynny, mae llawer o bobl o hyd nad ydynt yn gwybod am y profion iechyd hyn, neu, os ydynt yn gwybod amdanynt, eu bod yn dewis peidio â manteisio arnynt. Yn 2009, comisiynwyd Mencap Cymru a Rhoi Pobl yn Gyntaf Cymru

Gyfan gan Lywodraeth Cymru i gynhyrchu cyfres o fideos i hyrwyddo manteision cael prawf iechyd.

Prif amcan y prosiect oedd creu adnodd hwylus i bobl ag anabledd dysgu. Y gobaith yw y bydd hyn nid yn unig yn gwneud pobl yn ymwybodol o'r profion iechyd blynyddol, ond hefyd yn lliniaru unrhyw beth a all fod yn eu poeni ynglŷn â'r broses.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Canlyniad amlwg y broses fydd cynnydd amlwg, nid dim ond o ran gwybodaeth am y profion iechyd blynyddol sydd am ddim, ond hefyd cynnydd yn y nifer sy'n manteisio arnynt Y gobaith yw y bydd y clipiau ffilm yn gwneud y prawf iechyd yn rhan o'r ddeialog gyffredinol pan fydd pobl ag anabledd dysgu'n siarad am eu hiechyd.

Gobeithir hefyd y bydd y clipiau'n mynd rhywfaint o'r ffordd at roi gwybod i bobl am yr hyn y mae ganddynt yr hawl iddo fel rhan o'r prawf iechyd. Mae gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i fonitro ansawdd, nid dim ond nifer y profion iechyd a roddir yng Nghymru. Bydd yr astudiaeth hon yn mynd law yn llaw â'r clipiau fideo.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

- Cynnydd yn nifer y bobl ag anabledd dysgu sy'n manteisio ar y prawf iechyd blynyddol a gynigir yn rhad ac am ddim
- Yr astudiaeth ar ansawdd y profion sy'n sicrhau bod y dull a ddefnyddir ar hyn o bryd o safon uchel.

Costau

Rhoddwyd £10,000 i baratoi, cynhyrchu, golygu a darparu'r clipiau fideo. Fe'u darperir ar wefan Mencap (gweler isod) ac mae'n bosib creu dolen atynt o safleoedd eraill.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

AMH

Gwybodaeth ychwanegol:

www.mencap.org.uk/waleshealthchecks

5.27. Ymgyrch Gwneud Pethau'n Iawn

Manylion Cysylltu:

Mencap Cymru
31 Lambourne Crescent
Parc Busnes Caerdydd, Llanisien, Caerdydd CF14 5GF
☎ 02920 747588
✉ helpline.wales@mencap.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae egwyddorion cael staff sydd wedi'u hyfforddi'n drwyadl, dulliau canolbwyntio ar yr unigolyn, cyfraniad gan bartïon perthnasol a chydnabod gwahaniaethau posibl yn elfen graidd o'r Newidiadau Dylanwadol a'r ymgyrch Gwneud Pethau'n iawn.

Mae Newid Dylanwadol 10 yn cynnwys egwyddorion sy'n ymwneud â staff sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol a gwasanaethau cymorth i staff (cysylltiadau ym ag anabledd dysgu).

Sicrhau bod gan bawb sy'n ymwneud â'r gwaith lwybr at wybodaeth amserol a chynhwysfawr yw yn o agweddau mwyaf hanfodol yr ymgyrch, ac mae gweld y rhain wedi'u cynnwys yng nghynifer o'r Newidiadau Dylanwadol i'w groesawu.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Yn y gorffennol, mae pobl ag anabledd dysgu wedi wynebu sefyllfa lle nad yw gwasanaethau gofal iechyd ar gael iddynt yn deg o gwbl, er gwaetha'r ffaith eu bod yn fwy tebygol o lawer o fod â chyflyrau meddygol ac afiechydon, yn ogystal â'u hanabledd.

Yn y gorffennol, mae Mencap wedi gweithio drwy ymgyrchu ym maes iechyd dros gau ysbytai cyfnod hir yng Nghymru, gan ddarparu hyfforddiant am anabledd dysgu i weithwyr gofal sylfaenol y rheng flaen.

Yn adroddiad yr Ombwdsmyn, tynnwyd sylw at brofiadau chwech o bobl ag anableddau dysgu yr oedd y gwasanaethau iechyd wedi gwneud cam â hwy. Sefydlwyd yr ymgyrch *Gwneud Pethau'n Iawn* er mwyn mynd i'r afael ag anghydraddoldebau o'r fath mewn lleoliadau iechyd eilaidd.

Nodau ac amcanion y prosiect:

Nod yr ymgyrch *Gwneud Pethau'n Iawn* yw sicrhau bod pob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru yn ymrwymo i'r egwyddorion sydd yn y siarter *Gwneud Pethau'n Iawn,* ac yn eu rhoi ar waith. Dyma'r naw egwyddor:

1. sicrhau bod pasportau ysbytai ar gael a'u bod yn cael eu defnyddio
2. sicrhau bod pob aelod o'n staff yn deall egwyddorion deddfau gallu meddyliol ac yn eu rhoi ar waith
3. penodi nyrs cyswllt anabledd dysgu yn ein hysbyty/hysbytai
4. sicrhau bod modd i bawb sydd ag anabledd dysgu ac sy'n gymwys yn gallu cael prawf iechyd blynyddol

5. darparu hyfforddiant parhaus ar ymwybyddiaeth o anabledd dysgu i bob aelod o'r staff
6. gwrando ar deuluoedd a gofalwyr, eu parchu a'u cynnwys
7. rhoi cymorth a gwybodaeth ymarferol i deuluoedd a gofalwyr
8. rhoi gwybodaeth hygyrch i bobl ag anabledd dysgu
9. arddangos egwyddorion Gwneud Pethau'n Iawn er mwyn i bawb eu gweld

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Byddai canlyniadau mesuradwy'r prosiect yn cynnwys egwyddorion 1, 2, 5, 6 a 7.

Mae'n hanfodol cyflwyno dull o gyfathrebu'r holl wybodaeth angenrheidiol ynglŷn ag unigolyn a'r unigolyn hwnnw'n aml o bosibl yn methu â gwneud hynny eu hunain, er mwyn sicrhau gwasanaeth o safon.

Mae'r amrywiadau yn lefel yr hyfforddiant a roddir i staff ysbytai ym meysydd gallu meddyliol ac ymwybyddiaeth o anabledd dysgu'n ganlyniad mesuradwy i'r ymgyrch.

Un o ganlyniadau mesuradwy terfynol y prosiect fyddai monitro'r prosesau sydd ar waith i roi cymorth a gwybodaeth ymarferol i rieni a gofalwyr pobl ag anableddau dysgu.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Gellid sicrhau llwyddiant drwy sicrhau canlyniadau cadarnhaol yn yr uchod. Byddai rhoi'r prosesau hyn ar waith yn effeithiol ac mewn ffordd gynaliadwy'n gam mawr tuag at gydraddoldeb.

Costau:

Mae'r prosiect yn cael ei gynnal gan dîm ymgyrchoedd Mencap Cymru, ac mae'n cael arian craidd am ei fod yn cyflawni amcanion craidd cynllun busnes y tîm ymgyrchu.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Aelodau cyflog o'r staff sy'n gyfrifol amdano

Gwybodaeth ychwanegol:

www.mencap.org.uk/gettingitright

5.28. Cynllun Lles Gofalwyr (Gwasanaeth Gofal Canolraddol)

Manylion Cysylltu:
Gwasanaeth Gofalwyr Wrecsam
AVOW 21 Egerton Street, Wrecsam LL11 1ND
☎ 01978 318812
✉ marie.gibson@avow.org

Cysylltiad â 10 Newid Dylanwadol:

Gellir mapio'r Prosiect Gofal Canolraddol yn erbyn pob newid dylanwadol. Mae'r Cynllun Lles Gofalwyr yn cysylltu â Newidiadau Dylanwadol 4, 1, 3 a 5.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Mae'r Cynllun Lles Gofalwyr yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth Gofal Canolraddol, sydd ar waith yn Sir Wrecsam.

Mae'r Gwasanaeth Gofal Canolraddol yn enghraifft o gydweithredu rhwng gwasanaethau/asiantaethau; mae'n cynnwys yr Awdurdod Lleol, y Bwrdd Iechyd Lleol a'r Trydydd Sector, ac mae ganddo ddau brif amcan - hwyluso rhyddhau prydlon a diogel o'r ysbyty, ac osgoi gorfod derbyn cleifion drwy'r Adran Damweiniau ac Achosion Brys neu drwy atgyfeiriadau cymunedol.

Mae'r Cynllun Lles Gofalwyr wedi'i gysylltu â'r gwasanaeth Gofal Canolraddol ac mae'n cynnig cymorth prydlon a phriodol i unigolion sy'n gofalu am y cleifion hynny a dderbynnir. Mae'r cynllun yn dibynnu ar fod pob gweithiwr proffesiynol dan sylw'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb wrth helpu i adnabod gofalwyr a'u hannog i'w gweld eu hunain yn ofalwyr. Cynigir y cyfle i bob gofalwr gael Asesiad Anghenion Gofalwyr a'i atgyfeirio i'r cynllun. Byddai'r asesiad yn nodi canlyniadau cadarnhaol y dylid gweithio tuag atynt.

Gweithiwr Gofal Cymunedol fydd yn gwneud yr asesiad (fe'i cyflogir drwy'r Awdurdod Lleol) a bydd wedyn yn cyfeirio'r achos at Weithiwr Lles Gofalwyr (a gyflogir gan AVOW, un o gyrff y trydydd sector) er mwyn gwireddu'r canlyniadau a nodwyd.

Yn ystod y broses asesu, bydd gan y Gweithiwr Lles Cymunedol gyfle hefyd i wneud cais am daliad untro bychan a allai gynorthwyo'r gofalwr yn ei rôl. Gallai hyn amrywio o ateb ymarferol i'r cyfle i ymlacio.

Mae gan y Gweithiwr Lles Gofalwyr gyfnod o 6 wythnos (hyblyg a dibynnu ar yr angen) i weithio'n glos gyda'r gofalwr er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghenion a welir. Mae'r cymorth hwn yn cael ei deilwra ar gyfer pob unigolyn ac fe'i darperir i gydweddu â'i ddymuniadau. Bydd y cymorth a gynigir yn cynnwys mynediad at yr holl wasanaethau generig a gynigir gan Wasanaeth Gofalwyr Wrecsam. Bydd y gweithiwr yn sicrhau bod pob llwybr cymorth yn cael ei ystyried, gan gynnwys atgyfeiriadau a chyfeirio at ystod eang o gyrff y trydydd sector, e.e. Y Gymdeithas Strôc, Cymdeithas Alzheimer, Cymdeithas MS, Cymdeithas Parkinson, Age Concern ac ati.

Mae'n hollbwysig bod gan y gofalwr rywun i droi ato, ar wahân i'r claf, er mwyn sicrhau llwyddiant cyffredinol y Gwasanaeth Gofal Canolraddol. Gall y gofalwr ymlacio wrth

drafod sut mae'r rôl gofalu'n effeithio arno, heb boeni bod rhywun yn mynd i'w feirniadu nac ofni'r canlyniadau. Mae llwyddo i gadw cleifion gartref yn fwy tebygol o lwyddo os cefnogir y gofalwyr hefyd.

Nodau ac Amcanion y Prosiect:

Y prif nodau yw gweithio tuag at ganlyniadau cadarnhaol er budd y gofalwr:

- Cynnal/gwella lles corfforol, meddyliol, emosiynol a chymdeithasol.
- Profi 'ei fywyd ei hun' ochr yn ochr â chyfrifoldebau gofalu.
- Perthynas gadarnhaol â'r sawl y gofelir amdano.
- Rhyddid rhag gwahaniaethu gan gynnwys caledi ariannol sy'n codi yn sgil cyflawni'r rôl gofalu.
- Cyfle cyfartal i bob gofalwr yn Wrecsam.
- Cael llwybr at ystod o wasanaethau o safon sy'n hyblyg ac yn ymateb i anghenion cyfnewidiol gofalwyr.
- Mwy o bobl yn eu gweld eu hunain yn ofalwyr ac yn fwy hyderus i fynnu eu hawliau.
- Bod gan ofalwyr ddewisiadau wrth ofalu, gan gynnwys beth fydd hyd a lled y gofal hwnnw.
- Boddhad wrth ofalu.
- Gofalu ochr yn ochr â gwasanaethau/ymdeimlad o rannu cyfrifoldeb.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

Caiff y Cynllun Lles Gofalwyr ei fonitro'n ofalus a byddwn yn cyflwyno gwybodaeth ansoddol a meintiol bob mis. Mae enghreifftiau o hyn ar gael.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Mae'r Prosiect Gofal Canolraddol wedi cael cyfraniad academaidd gan Brifysgol Glyndŵr ac mae wedi cael ei werthuso yn ei grynswth. Mae copïau ar gael o Adroddiadau Terfynol y Prosiect Peilot.

Costau

Cyfanswm y gost yw £56,250.
Rhennir y costau hyn rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Trydydd Sector.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Ffurfiol, 1 Gweithiwr Gofal Cymunedol amser llawn ac 1 Gweithiwr Lles Gofalwyr rhan - amser

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae gwybodaeth ychwanegol, gan gynnwys gwybodaeth am ganlyniadau a thaflen wybodaeth ar gael drwy'r pwynt cyswllt.

5.29. Gwaith Pontio Allweddol

Manylion Cysylltu:
CCNUK Cymru
Y Ganolfan Fenter Gymunedol
Well Street, Cefn Mawr, Wrecsam, LL14 3AL
☎ 01978 821324
✉ sally.rees@ccnuk.org.uk

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Dylai dull y Gweithiwr Pontio Allweddol goleddu'r deg newid dylanwadol ac ymateb iddynt. Mae rhagor o wybodaeth fanwl am y cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol ar gael.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Gellir diffinio gwaith allweddol ar draws yr ystod oedran, gan gynnwys yn y cyfnod pontio fel gwasanaeth lle bydd dau wasanaeth neu fwy (statudol a'r Trydydd Sector) yn darparu system gydlynol i helpu plant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd. Bydd gwasanaeth gweithiwr allweddol yn rhoi cychwyn ar ddull cydweithredol, yn strategol ac ar lefel ymarfer, gan sicrhau, lle bo rhywun yn gymwys (plentyn, rhywun ifanc a'r teulu sy'n defnyddio dau wasanaeth arbenigol neu fwy y tu hwnt i'r hyn a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer pawb) yn gallu cysylltu â Gweithiwr Allweddol penodol. Yn ôl rhieni, y Gweithiwr Allweddol yw'r "scaffald" (astudiaethau achos, gwefan CCNUK) sy'n cynnig "perthynas gadarnhaol, bwrpasol rhwng gweithwyr proffesiynol a'r teulu", ac o safbwynt y rhiant, y Gweithiwr Allweddol "oedd y cymorth allweddol imi".

Mae rôl y Gweithiwr Pontio Allweddol yn amrywio a'i brif swyddogaeth(au) yw :

- bod yn gydlynydd
- darparu cymorth ac eiriolaeth lle bo'n briodol.
- cysylltu gweithwyr proffesiynol â gwasanaethau.
- trefnu apwyntiadau i sicrhau eu bod yn gyfleus ac yn amserol.
- bod yn ganolbwynt ar gyfer darparu gwybodaeth.
- sicrhau bod anghenion yn cael eu hasesu a'u hadolygu fel sy'n briodol, a
- gallu helpu'r person ifanc i wneud y dewisiadau iawn drwy ymateb i'w anghenion, ei ddymuniadau a'i ddyheadau ar gyfer y dyfodol.

Gall Gweithiwr Pontio Allweddol (yn ogystal ag ar draws yr ystod oedran 0-25) naill ai gyflawni rôl benodedig (un swyddogaeth benodol gan wneud gwaith allweddol gyda nifer o bobl ifanc yn unig) neu swyddogaeth nad yw'n benodedig (sef gweithio gyda nifer fach o deuluoedd fel rhan o'i rôl broffesiynol h.y. gweithiwr cymdeithasol, athro, gweithiwr iechyd proffesiynol a bod rhywfaint o'i amser yn cael ei neilltuo er mwyn iddo wneud hynny).

Nodau ac amcanion y Prosiect:

- cefnogi datblygu ffordd enghreifftiol o weithio er mwyn gwella'r profiad pontio i bobl ifanc anabl 14-25 oed.

- datblygu fframwaith gweithwyr pontio allweddol
- cynllunio a darparu hyfforddiant i Weithwyr Pontio Allweddol

Mae meini prawf manwl ar gael ar gyfer y safleoedd peilot/y rhai a noddir drwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Nifer fwy o bobl ifanc yn gallu cael gafael ar wasanaeth Gweithiwr Pontio Allweddol penodol.
- Bod gan nifer fwy o bobl ifanc gynllun pontio gweithredol cyfannol sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a hwnnw'n cael ei adolygu'n rheolaidd o leiaf bob blwyddyn neu pan fydd amgylchiadau'n newid.
- Gweithlu Gweithwyr Pontio Allweddol hyfforddedig sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n wybodus ac yn ddeallus.
- Nifer y gweithwyr proffesiynol a'r rhieni sy'n dilyn hyfforddiant Gweithwyr Pontio Allweddol.
- Gwell profiad pontio i bobl ifanc anabl a'u rhieni/gofalwyr.
- Darpariaeth amlasiantaeth gydlynol gyfannol a gwaith pontio allweddol yn ganolbwynt iddo.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Mae rhagor o fanylion ac ymchwil ar gael sy'n rhestru'r manteision sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

Costau:

Mae pob prosiect yn cael symiau gwahanol o arian o 'bwrs' gwerth £3m (llywodraeth Cymru/ Cronfa Gymdeithasol Ewrop)

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Prosiect a drefnir yn ffurfiol dan nawdd Llywodraeth Cymru ac arian cyfatebol Cronfa Gymdeithasol Ewrop - Rhaglen Cyrraedd yr Uchelfannau: Troedle Cyntaf. Swyddi cyflog yw swyddi'r Gweithwyr Pontio Allweddol (dynodedig). Mewn prosiectau lle bydd y Gweithiwr Pontio Allweddol yn cyflawni swyddogaeth nad yw wedi'i dynodi, byddant yn ysgwyddo'r rôl hon ar ben eu swydd arferol.

Gwybodaeth ychwanegol:
Mae rhagor o wybodaeth ar gael drwy'r manylion cysylltu a hefyd drwy'r wefan isod: **www.ccnuk.org.uk**

5.30. Ailfodelu Gwasanaethau Dydd Monnow Vale

Manylion Cysylltu:

Monnow Vale
Drybridge Park, Trefynwy, NP15 5BL
☎ 1600 773113

Cysylltiad â'r 10 Newid Dylanwadol:

Mae'r prosiect hwn yn cyfrannu at newid dylanwadol 9 yn benodol a hefyd at newidiadau 2, 3, 4,a 5.

Cefndir cryno'r Prosiect:

Y casgliad wrth adolygu'r gweithgareddau dydd presennol oedd bod angen gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a fyddai'n targedu pobl ag anghenion dwys a fyddai'n elwa o Ailablu gweithredol am gyfnod penodedig, gan gynnwys ymyrraeth gynnar i anghenion iechyd meddwl. Sefydlwyd grŵp amlasiantaeth i oruchwylio'r gwaith ailfodelu. Ein nod oedd datblygu ymagwedd gynhwysol a fyddai'n cydnabod bod anghenion cymdeithasol, amgylcheddol, iechyd corfforol a meddyliol yn cydblethu â'i gilydd. Dyma'r weledigaeth:

- Bydd staff yn gweithio gydag unigolion i gytuno ynghŷn â'r hyn y maent yn gobeithio'i gyflawni ac i'w helpu i wireddu hynny.
- Noddir gweithgareddau a'u darparu gan y corff mwyaf priodol. Efallai mai'r Cyngor, y Gwasanaeth Iechyd neu ddarparwyr gwirfoddol neu breifat fydd hyn.
- Gweithio mewn partneriaeth lle bo hynny'n briodol er mwyn darparu gwasanaethau integredig ac er mwyn osgoi dyblygu neu fylchau.
- Cyfeirir adnoddau at y bobl hynny sydd fwyaf eu hangen a bydd gwasanaethau ar gael pan fydd eu hangen go iawn, yn enwedig adeg argyfwng neu newid.

Nodau ac amcanion y Prosiect:

Datblygu'r canlynol:

- Rhaglen driniaeth ac ailsefydlu er mwyn i bobl allu parhau i fyw'n annibynnol.
- Ystod o weithgareddau dydd sy'n hwylus i bobl hŷn
- Rhwydwaith o gyfleusterau cymdeithasol lle y gall pobl hŷn gyfarfod yn eu cymunedau lleol eu hunain.

Cytunwyd ar yr egwyddorion sylfaenol a ganlyn:

- Y man cychwyn bob tro fydd anghenion yr unigolyn a'r gofalwr.
- Pan fydd pobl yn manteisio ar wasanaeth, byddant yn gwneud hynny am reswm penodol, a lle bo'n briodol, byddant yn symud ymlaen at weithgareddau eraill yn eu cymuned.
- Bydd pob gwasanaeth yn annog pobl i fod mor annibynnol ag y bo modd, yn hybu integreiddio cymdeithasol ac yn eu helpu i chwarae rhan lawn yn eu cymuned hwy eu hunain.

Canlyniadau mesuradwy'r prosiect:

- Nifer y bobl a gynorthwyir i fanteisio ar wasanaethau yn y gymuned
- Nifer y bobl a gyflwynwyd i gynllun cludiant cymunedol "Grass Routes"
- Nifer y bobl sy'n gallu aros yn eu cartref eu hunain oherwydd bod gweithgareddau dydd yn cael eu darparu, naill ai yn yr ysbyty dydd neu yn y gymuned.

Pa dystiolaeth sydd bod y cynllun y llwyddo?

Dyma ambell enghraifft yn unig o sut mae diwygio'r gwasanaethau wedi gwella bywyd defnyddwyr y gwasanaeth

Roedd menyw wedi bod yn mynychu'r Ysbyty Dydd Iechyd Meddwl ers 2 flynedd. Ar ôl Adolygiad, a chydag anogaeth ei theulu, mae wedi symud ymlaen i ymuno â dosbarth cyfrifiaduron i ddechreuwyr a gynhelir gan y gwasanaeth addysg cymunedol lleol. Mae'n costio £16.50 y flwyddyn, llai na £0.50 yr wythnos.

Gwelwyd bod diffyg cludiant â hebryngwr yn rhwystr mawr i bobl rhag manteisio ar wasanaethau'r gymuned. Rhoddwyd cymorth i ganolfan gymunedol leol gan y grŵp llywio amlasiantaeth i ddatblygu gwasanaeth cludiant â hebryngwr sydd yn awr yn golygu bod cleifion a phobl eraill yn gallu cyrraedd Trefynwy a manteisio ar y gwasanaethau cymunedol sydd ar gael yn y dref.

Costau:

Prosiect ailfodelu oedd hwn a'i nod oedd gwella'r gwasanaethau a ddarperid o fewn yr adnoddau presennol.

Ai prosiect ffurfiol ynteu anffurfiol yw hwn? (h.y. cyflogedig/gwirfoddol/cymysg)

Mae'r prosiect hwn yn dangos dull amlasiantaeth o ddarparu gofal.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae taflen ar gael gan Monnow Vale sy'n esbonio'r gwasanaeth.

---

[i] Almanac WCVA 2009

[ii] Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Strategol ar gyfer Cynllun y Sector Gwirfoddol. Llywodraeth Cymru Ionawr 2008

[iii] Health Social Care and Wellbeing Services Provided by Voluntary Organisations in Wales: a Report for the Welsh Assembly Government, Bryan Collis WCVA, 2007

[iv] Adnodd Ystadegol y Trydydd Sector 2011 WCVA

[v] Health Social Care and Wellbeing Services Provided by Voluntary Organisations in Wales: a Report for the Welsh Assembly Government, Bryan Collis WCVA, 2007

[vi] Swyddfa Archwilio Cymru (Mai 2009) Aroddiad dilynol am Oedi wrth Drosglwyddo Gofal; Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol (Mai 2010) Adroddiad am yr Ymchwiliad i Wasanaethau Cadeiriau Olwyn yng Nghymru